# YMGYNGHORI Â CHI/ DARPARU AR EICH CYFER CHI/

BBC



Rhan Un:
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2008/09

**Arolwg ac asesiad Ymddiriedolaeth y BBC**

Ymddiriedolaeth | BBC

# CYNNWYS/



# CAEL Y GORAU O'R BBC AR GYFER TALWYR FFI'R DRWYDDED.




**02 / TROSOLWG**
RHAGAIR Y CADEIRYDD / PERFFORMIAD YN ERBYN AMCANION STRATEGOL / PERFFORMIAD ARIANNOL / CEFNOGI A HERIO'R BWRDD GWEITHREDOL / CIPOLWG AR WASANAETHAU'R BBC / RÔL YR YMDDIRIEDOLAETH /

**16 / PERFFORMIAD**
CYNLLUN 2008/09 / CYNGHORAU CYNULLEIDFA / PWRPASAU / PERFFORMIAD GWASANAETHAU / GWARCHOD FFI'R DRWYDDED / CYNNAL BUDDIANNAU TALWYR FFI'R DRWYDDED /

**42 / EDRYCH YMLAEN**
CYNLLUNIAU'R YMDDIRIEDOLAETH AR GYFER 2009/10 /

**46 / LLYWODRAETHU**
YMDDIRIEDOLWYR Y BBC / CYFLAWNI GWERTH AM ARIAN / Y BBC A'R ECONOMI EHANGACH / SICRHAU SAFONAU GOLYGYDDOL / GWASANAETHU POB CYNULLEIDFA /

**58 / O FEWN YR YMDDIRIEDOLAETH**
O FEWN YR YMDDIRIEDOLAETH / CYSYLLTIADAU /

# TROSOL



04/ **RHAGAIR Y CADEIRYDD/**
06/ **PERFFORMIAD YN ERBYN AMCANION STRATEGOL/**
08/ **PERFFORMIAD ARIANNOL/**
10/ **CEFNOGI A HERIO'R BWRDD GWEITHREDOL/**
12/ **CIPOLWG AR WASANAETHAU'R BBC/**
14/ **RÔL YR YMDDIRIEDOLAETH/**


WG/

TROS

# CADEIRYDD YMDDIRIEDOLAETH Y BBC SYR MICHAEL LYONS YN EDRYCH NÔL DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF YN Y BBC AC YN NODI SUT Y BYDD YR YMDDIRIEDOLAETH YN GWASANAETHU TALWYR FFI'R DRWYDDED YN Y DYFODOL.



Croeso i Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth. Fe'i cyhoeddwyd ar adeg pan fuom yn rhan o drafodaeth eang iawn ynghylch dyfodol cyfathrebu yn y DU, a anogwyd gan arolwg y Llywodraeth, Prydain Ddigidol. Ein rôl yn y drafodaeth hon oedd sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded yn cael lleisio eu barn. Mae hyn wrth wraidd ein swyddogaeth fel Ymddiriedolwyr – bod yn llais i dalwyr ffi'r drwydded a sicrhau bod y BBC yn cyflawni i'r eithaf ar eu rhan. Wedi'r cwbl, hwy sy'n berchen arno a hwy sy'n talu amdano.

Credaf fod rhai pethau y mae bron pawb am eu cael gan y BBC – ei fod yn cynhyrchu cynnwys cyffrous ac yn gwthio'r ffiniau yn barhaus; ei fod yn ddiduedd ac na chaiff ei ddylanwadu gan leisiau gwleidyddol na masnachol; ei fod yn sicrhau'r gwerth gorau posibl o bob punt gan dalwyr ffi'r drwydded; a'i fod yn cynnal y safonau uchaf posibl. Ac mae'r pwynt olaf hwn yn golygu y dylai'r BBC ymdrechu i fod yn well na'i gystadleuwyr, ac y dylai osod y safon.

## LLYWODRAETHU'R BBC AR GYFER TALWYR FFI'R DRWYDDED

Sut y gallwn sicrhau bod y BBC yn cyflawni'r nodau hyn? Gall yr Ymddiriedolaeth arfer pŵer sylweddol ar ran talwyr ffi'r drwydded i ddylanwadu ar y BBC dros y tymor hwy er mwyn iddo wasanaethu'r cyhoedd yn well – ac nid oes ofn arnom weithredu'n gyflym ac yn bendant er eu budd. Ein rôl ni yw herio a chefnogi'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'i staff i gyflawni ar gyfer talwyr ffi'r drwydded. Yn ymarferol mae hyn yn golygu egluro'r hyn y mae'r cyhoedd am ei gael i reolwyr a gwneuthurwyr rhaglenni a phan gyfyd problem, eu herio i roi ateb y byddwn yn ei roi ar waith, unwaith y bydd wedi'i archwilio a'i gadarnhau, er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r nod.

## BLWYDDYN Y BBC

Felly sut flwyddyn a gawsom? Barn cynulleidfaoedd yw ein man cychwyn. Un o'r cwestiynau y byddwn yn ei holi'n rheolaidd yw: 'Fyddech chi'n colli'r BBC os na fyddai'n bodoli?' Ac mae'n bleser gennyf nodi fod y gwerth y rhydd y cyhoedd ar y BBC yn codi – eleni dywedodd 85% y byddent yn ei golli, o gymharu â 70% ddwy flynedd yn ôl. Yn wir mae perfformiad yn erbyn ein holl amcanion – cyrhaeddiad, ansawdd, gwerth am arian, ymddiriedaeth, cyflawni ein pwrpasau cyhoeddus ac effeithlonrwydd – yn symud i'r cyfeiriad cywir, diolch i ymdrechion staff talentog y BBC. Ond mae angen gwneud mwy o waith er mwyn sicrhau bod y BBC wedi paratoi'n briodol ar gyfer y dyfodol a'i fod yn ymateb i'r pryderon y mae'r cyhoedd yn eu dwyn i'n sylw.

### Tynhau rheolaethau golygyddol ar ôl helbul Ross/Brand

Cafodd y BBC ei feirniadu'n hallt eleni, gydag achos Ross/Brand. Dangosodd hyn fod y cyhoedd yn teimlo'n rhwystredig iawn pan fydd y BBC yn methu â chyflawni ei ddisgwyliadau, yn enwedig pan mai ef sy'n gyfrifol am y methiant.

Roedd yr helbul yn fethiant gan y perfformwyr yn ddi-os, ond mewn rheolaeth olygyddol fu'r methiant mwyaf ar ôl caniatáu i'r sioe gael ei darlledu. Cymerodd yr Ymddiriedolaeth gamau ar unwaith, gan gyhoeddi ei chanfyddiadau a oedd yn anghyfforddus ar adegau. Ar ôl wynebu ymateb cryf y cyhoedd am wythnos daethom at wraidd y broblem. Rhoddwyd gwybod yn glir i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol bod yn rhaid dwyn y rhai hynny a oedd yn gyfrifol i gyfrif, a arweiniodd at ddiswyddo dau uwch aelod o staff ac at wahardd Jonathan Ross dros dro, a bod angen sicrhau rheolaeth olygyddol llawer llymach. Roedd ein sefyllfa o fewn y BBC yn golygu y gallem weithredu'n gyflym a chyflawni canlyniadau clir.

Arweiniodd yr achos hwn hefyd at archwiliad llawer ehangach o safbwyntiau'r cyhoedd ar chwaeth a gwedduster, a fydd yn llywio ein canllawiau golygyddol newydd y flwyddyn nesaf. Gwyddom fod llawer o bobl am weld rheolaethau golygyddol llymach a byddwn yn cynnal ymgynghoriad eang ar y canllawiau newydd. Ond rhaid gochel rhag rhoi baich rhy drwm ar wneuthurwyr rhaglenni er mwyn sicrhau y gallant barhau i gynhyrchu'r cynnwys mentrus, arloesol a heriol y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl.

### Ansawdd rhaglennu

Yn hyn o beth, rydym wedi gweld tystiolaeth eleni bod lefelau boddhad gydag ansawdd rhaglenni'r BBC yn gwella. Bydd gan bawb eu ffefrynnau, ac yn bersonol, fy hoff raglenni i oedd *A Short Stay in Switzerland, Being Human* a *Five Minutes of Heaven*. Dyma lle mae pobl am weld ffi'r drwydded yn cael ei defnyddio. Mae'r fraint hynod o gael yr arian hwn yn rhoi'r cyfle i'r BBC gymryd risgiau a gwneud pethau na all darlledwyr masnachol ei wneud. Ond dyma'r maes sy'n galw am y mwyaf o waith hefyd, o ran meddwl am syniadau newydd yn gyson a rhoi'r gorau i bethau sydd wedi mynd braidd yn ddiflas.

### Gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU

Yn aml credir bod y BBC yn canolbwyntio'n ormodol ar Lundain a De-ddwyrain Lloegr ac, fel unigolyn sydd bellach wedi ymgartrefu yng Nghanolbarth Lloegr, mae mynd i'r afael â hyn yn un o'm gorchwylion personol. Mae'n ddyhead a rennir gan fy nghyd-Ymddiriedolwyr. Rydym wedi gwneud cynnydd da yn y maes hwn gyda thargedau newydd ar wneud rhaglenni y tu allan i Lundain, a buddsoddiadau newydd yn Salford a mannau eraill. Rydym hefyd wedi galw am newidiadau mewn arddull olygyddol i adlewyrchu'n well realiti'r broses o wneud penderfyniadau yng ngweinyddiaethau datganoledig y DU, ac mae'r Cynghorau Cynulleidfa sy'n cynghori'r Ymddiriedolaeth yn dweud wrthym fod hyn oll yn dechrau gwneud gwahaniaeth.

# OLWG/



## Cyflawni gwerth am arian

Mae cyflawni gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded yn bwysicach nag erioed yn yr hinsawdd economaidd heriol sydd ohoni. Er gwaethaf arian ffi'r drwydded nid yw'r BBC yn ddiogel rhag y dirwasgiad. Bydd incwm o ffi'r drwydded a mentrau masnachol yn lleihau, sy'n rhoi pwysau ar gyllideb y BBC, sy'n golygu bod sicrhau'r elw mwyaf ar fuddsoddiad ar gyfer talwyr ffi'r drwydded mor bwysig ag erioed. Eleni gwnaeth y BBC gynnydd da o ran lleihau gorbenion, ond rydym wedi pennu rhai targedau heriol dros bum mlynedd i ryddhau £1.9 biliwn arall mewn effeithlonrwydd. Ac mae angen i ni gynnal a chryfhau disgyblaeth ar y cyflogau uchaf. Mae pob ceiniog a gaiff ei harbed yn golygu y caiff arian ei ryddhau ar gyfer rhaglenni gwell a gwasanaethau newydd fel iPlayer.

## Cynorthwyo darlledwyr cyhoeddus eraill

Mae gan y BBC hefyd ddyletswydd i helpu darlledwyr cyhoeddus eraill sydd o dan bwysau ariannol cynyddol. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r BBC wedi cynyddu ei ymdrechion i weithio gyda darlledwyr eraill i ganfod ffyrdd i'w helpu i leihau eu costau neu gynyddu eu hincwm drwy bartneriaethau creadigol. Mae hyn yn bwysig oherwydd gwyddom fod y cyhoedd yn croesawu dewis ac yn ystyried bod cystadleuaeth yn bwysig, yn enwedig mewn perthynas â newyddion. Ond ar yr un pryd mae angen i ni barhau i ganolbwyntio ar wasanaethau'r BBC ei hun, gan na all fforddio colli ei ffocws na lledaenu ei egni a'i adnoddau yn rhy eang.

## Amddiffyn annibyniaeth y BBC

Un o'r pethau y mae talwyr ffi'r drwydded yn ei werthfawrogi fwyaf am y BBC yw ei annibyniaeth, sy'n sylfaen i'w enw da yn y DU a thramor. Mae'n ddyletswydd ar yr Ymddiriedolaeth i ddiogelu hawl y Cyfarwyddwr Cyffredinol i wneud penderfyniadau golygyddol heb ofn na ffafriaeth. Un enghraifft o hyn a welwyd dros y flwyddyn ddiwethaf oedd Apêl Gaza'r Pwyllgor Argyfyngau. Roedd yn bwysig bod y BBC yn penderfynu p'un a ddylai ddarlledu'r apêl ai peidio heb gael ei ddylanwadu'n ddiangen. Ein gwaith ni oedd rhoi'r cyfle i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wneud y penderfyniad hwn. Bydd amddiffyn annibyniaeth y BBC yn parhau i fod yn un o elfennau pwysicaf ein rôl.

## CHWE YMRWYMIAD YR YMDDIRIEDOLAETH

Mae cydberthynas y BBC â thalwyr ffi'r drwydded yn dibynnu ar chwe ymrwymiad clir:

- **Safonau:** cynnal y safonau golygyddol uchaf sy'n adlewyrchu safbwyntiau eang cynulleidfaoedd y BBC
- **Gwasanaethu pob cynulleidfa:** cynnig gwerth i bawb yn y DU, pwy bynnag y bônt, lle bynnag maent yn byw
- **Cynnwys:** arwain y ffordd yn hytrach na dilyn, cynnig cynnwys o'r safon uchaf sy'n unigryw
- **Cynorthwyo darlledwyr cyhoeddus:** i'r graddau sy'n bosibl o fewn y rhwymedigaethau i dalwyr ffi'r drwydded, cefnogi'r cynnwys cyhoeddus a ddarperir gan eraill a pharhau i gyfrannu i sector creadigol y DU
- **Gwerth:** peidio â gwario mwy o arian na'r hyn sydd ei angen ar y BBC i gyflawni'r genhadaeth gyhoeddus a nodir yn y Siarter
- **Annibyniaeth:** peidio byth â gadael i fuddiannau allanol ddylanwadu'n ddiangen ar annibyniaeth olygyddol neu weithredol y BBC

Mae gan y BBC ddyheadau mawr i wasanaethu'r cyhoedd yn well, gan gyflwyno technolegau a chynnwys newydd heb golli'r safonau uchel iawn o ran newyddiaduraeth a phrosesau gwneud rhaglenni sy'n sylfaen iddo. Fel Cadeirydd, rwyf yn benderfynol y bydd yr Ymddiriedolaeth yn cynorthwyo ac yn herio'r BBC i wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd yn y DU yn well nag erioed o'r blaen, gan barhau i wella ei hun fel ei fod yn cynnal ac yn haeddu'r lefel uchel o ymddiriedaeth a hoffter sydd gan y cyhoedd ym Mhrydain tuag ato.



**Syr Michael Lyons**
**Cadeirydd**
**18 Mehefin 2009**

# PERFFORMIAD YN ERBYN AMCANION STRATEGOL

## MAE PERFFORMIAD AR DRAWS Y BBC YN ERBYN EI CHWE AMCAN YN SYMUD I'R CYFEIRIAD CYWIR, ER RYDYM YN DISGWYL Y BYDD UNRHYW WELLIANNAU SYLWEDDOL YN CYMRYD SAWL BLWYDDYN.



Yma rydym wedi nodi asesiad yr Ymddiriedolaeth o berfformiad y BBC yn erbyn y chwe amcan y cytunwyd arnynt gyda'r Bwrdd Gweithredol y llynedd dros gyfnod ffi'r drwydded. Roedd cytuno ar yr amcanion hyn yn un o'r amodau a oedd ynghlwm wrth ein cymeradwyaeth o gynllun strategol y Bwrdd Gweithredol, 'Cyflawni Dyfodol Creadigol', a'r llynedd gwnaethom ymrwymiad i gyhoeddi adroddiadau arnynt. Rydym yn barnu perfformiad yn erbyn cyfres o fesurau y cytunwyd arnynt, a chesglir y data o brif arolygon cynulleidfaoedd y BBC.

### 1. DYLAI'R BBC GYNNAL Y CYRHAEDDIAD MWYAF POSIBL SY'N GYSON Â'I BWRPASAU A'I WERTHOEDD.

**Mae'r BBC yn rhagori ar ei darged cyrhaeddiad o 90%**

- Mae'r cyrhaeddiad wythnosol ar draws holl wasanaethau'r BBC yn 2008/09 wedi aros yn sefydlog ar 93% (93% yn 2007/08)[1]

Mae cyrhaeddiad yn fesur pwysig oherwydd dim ond pan fydd pobl yn defnyddio ei wasanaethau y gall y BBC hyrwyddo ei bwrpasau. Cytunwyd ar darged gyda'r Bwrdd Gweithredol y dylai'r BBC anelu at gyrraedd 90% o oedolion yn y DU gyda'i wasanaethau bob wythnos, ac eleni mae'r BBC wedi parhau i ragori ar y targed hwnnw, gan gyrraedd 93%. Gyda dewis cynyddol o gyfryngau ar gael, mae'r Bwrdd Gweithredol yn haeddu clod am y perfformiad hynod gryf hwn.

Mae nifer y bobl sy'n gwylio'r teledu wedi parhau i fod yn uchel, er gwaethaf y niferoedd cynyddol sy'n troi at weithgareddau ar-lein a chyfryngau ar alw. Mae nifer y bobl sy'n gwrando ar orsafoedd radio'r BBC wedi parhau i fod yn uchel hefyd.

### 2. DYLAI'R BBC GYNYDDU NATUR NODEDIG AC ANSAWDD EI ALLBWN.

**Gwelliant bach ar draws pob metrig**

- Mae sgôr gyfartalog y BBC allan o 10 ar gyfer 'Safon Uchel' wedi codi i 6.4 (6.3 yn 2007/08)[1]
- Mae cyfran y rheini sy'n cytuno'n gryf bod y BBC yn cyflawni Safon Uchel wedi codi i 34% (32% yn 2007/08)[1]
- Mae cyfran y rheini sy'n cytuno bod y BBC yn cyflawni Safon Uchel wedi aros yn sefydlog ar 66% (66% yn 2007/08)[1]
- Mae'r sgôr gyfartalog ar y mynegai gwerthfawrogiad ar gyfer Teledu'r BBC wedi codi i 80 (79 yn 2007/08)[2, 3]
- Mae'r sgôr gyfartalog ar y mynegai gwerthfawrogiad ar gyfer Radio'r BBC wedi codi i 79 (78 yn 2007/08)[2, 3]
- Mae cyfran y rheini sy'n cytuno'n gryf bod Teledu'r BBC yn 'wreiddiol ac yn wahanol' wedi codi i 36% (32% yn 2007/08)[2, 3]

Fel darlledwr a ariennir gan y cyhoedd, mae hwn yn gyfrifoldeb mawr i'r BBC.

Mae'r prif fesurau yn dangos tueddiad cadarnhaol bach. Mae ein prif fesur – y rheini sy'n cytuno'n gryf bod y BBC yn cyflawni safon uchel – yn heriol, a dim ond ychydig dros draean o'r rheini a arolygwyd sy'n cael eu cynnwys yn y categori hwn. Mae mesur arall, y rheini sy'n cytuno bod y BBC yn cyflawni safon uchel, yn cynnwys tua dwy ran o dair o'r rheini a arolygwyd.

Mae sgorau gwerthfawrogiad ar gyfer rhaglenni teledu a radio'r BBC wedi codi rhywfaint eleni, ynghyd â chanfyddiadau cynulleidfaoedd bod rhaglennu teledu yn 'wreiddiol ac yn wahanol'. Fodd bynnag, dengys ein hymchwil newydd ar gylch gwaith pwrpas (gweler tudalen 33) fod cynulleidfaoedd yn credu bod yr amcan hwn yn gynyddol bwysig ac felly mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i'r BBC.

Byddwn yn defnyddio ein harolygon o BBC One, Two a Four eleni i ganolbwyntio ar sut y gall Teledu'r BBC gyflawni disgwyliadau cynulleifaoedd o fod yn wreiddiol ac yn unigryw.

## 3. DYLAI'R BBC GYNNAL Y CANFYDDIAD O WERTH YMHLITH CYMERADWYWYR UCHEL; A DYLAI'R BBC GYNYDDU'R CANFYDDIAD O WERTH YMHLITH CYMERADWYWYR CANOLIG AC ISEL.

### Arwyddion gwella bach

- Mae cyfran y rheini sy'n 'gymeradwywyr uchel' o'r BBC wedi codi i 37% (36% yn 2007/08)[1]
- Mae cyfran y rheini sy'n 'gymeradwywyr isel' o'r BBC wedi gostwng i 12% (13% yn 2007/08)[1]

Mae lefelau cymeradwyaeth y cyhoedd o'r BBC wedi bod yn amrywiol erioed, ond mae'r BBC bob amser wedi cynnal y nod o wasanaethu pawb, waeth beth fo lefel eu cymeradwyaeth.

Erbyn diwedd y flwyddyn roedd ychydig yn fwy o gymeradwywyr uchel ac ychydig yn llai o gymeradwywyr isel. Er ein bod yn cydnabod nad yw'n realistig disgwyl y bydd y BBC yn perfformio'r un mor dda ymysg pob grŵp yn y gymdeithas, gellir gwneud llawer mwy o waith i apelio at gymeradwywyr canolig ac isel.

## 4. DYLAI'R BBC ADFER YMDDIRIEDAETH YN EI ALLBWN.

### Rydym yn parhau i ganolbwyntio llawer ar y maes hwn yn dilyn achos o dorri canllawiau golygyddol yn ddifrifol eleni ar BBC Radio 2

- Mae'r sgôr gyfartalog allan o 10 ar gyfer 'Rwy'n Ymddiried yn y BBC' wedi codi i 6.0 (o 5.9 yn 2007/08)[1]
- Mae cyfran y rheini sy'n cytuno'n gryf gyda'r datganiad 'Rwy'n Ymddiried yn y BBC' wedi codi i 29% (28% yn 2007/08)[1]
- Mae cyfran y rheini sy'n cytuno gyda'r datganiad 'Rwy'n Ymddiried yn y BBC' wedi codi i 57% (55% yn 2007/08)[1]

Pennwyd yr amcan hwn mewn ymateb i nifer o ddigwyddiadau golygyddol yn 2007 yr ymddengys iddynt gael effaith wirioneddol ar lefel ymddiriedaeth cynulleidfaoedd yn y BBC.

Mae ein prif fesur ar gyfer yr amcan hwn yn heriol – y rheini sy'n 'cytuno'n gryf' eu bod yn 'ymddiried yn y BBC'. Cynyddodd cyfran y rheini a arolygwyd sy'n rhan o'r categori hwn i 29%, ac mae 57% o oedolion yn 'cytuno' eu bod yn ymddiried yn y BBC. Yn bwysig, mae cyfran y rheini sy'n ymddiried yn BBC News yn llawer uwch ar tua 78%.

Er bod sawl rhan o'r BBC wedi dysgu eu gwers o ran cymryd ymddiriedaeth cynulleidfaoedd o ddifrif, dangosodd y toriad difrifol iawn o Ganllawiau Golygyddol y BBC ar *The Russell Brand Show* ar Radio 2 yn yr hydref bod rheolaeth a chydymffurfiaeth olygyddol yn parhau i fod yn wan mewn rhai meysydd, gan arwain at doriad difrifol iawn o safonau golygyddol y BBC. Fel y nodir ar dudalen 39, rydym wedi galw ar y Bwrdd Gweithredol i gymryd nifer o fesurau o ganlyniad i'r digwyddiad hwn a byddwn yn asesu effeithiolrwydd y camau hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## 5. DYLAI'R BBC GYNYDDU'R GWAITH O GYFLAWNI EI BWRPASAU CYHOEDDUS.

### Ymddengys bod rhai meysydd lle mae'r pwrpasau cyhoeddus yn cael eu cyflawni'n gynyddol, ond erys disgwyliadau cynulleidfaoedd yn uchel felly mae angen gwelliant sylweddol o hyd

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC hyrwyddo nifer o bwrpasau cyhoeddus ar draws ei holl wasanaethau. Dangosodd ein hymchwil cynulleidfa yn 2007 bod nifer o feysydd lle mae perfformiad y BBC o ran cyflawni'r pwrpasau hyn yn is na'r disgwyliadau. Galwyd y meysydd hyn yn 'fylchau perfformiad', ac mae'r amcan hwn yn cwmpasu ein nod y dylid mynd i'r afael â'r bylchau hyn yn ystod cyfnod y Siarter bresennol.

Mae'r gwaith ymchwil a gomisiynwyd gennym yn dangos bod y cyhoedd yn credu y cafwyd rhai gwelliannau eleni. Fodd bynnag, mae gwelliant ym mherfformiad y BBC yn cyd-fynd â disgwyliadau cynyddol gan y cyhoedd mewn rhai meysydd, fel newyddiaduraeth o safon a galw am raglenni teledu gwreiddiol o safon.

Rydym yn cydnabod graddau'r her o ran cyflawni'r disgwyliadau uchel hyn a byddwn yn parhau i annog y Bwrdd Gweithredol i ganfod ffyrdd o wneud hynny yn y flwyddyn i ddod. Bydd ein rhaglen waith ein hunain, fel yr arolygon o wasanaethau teledu, yn cyfrannu drwy ein helpu i ddeall disgwyliadau ac ymddygiad cynulleidfaoedd yn well. Gallwch ddarllen rhagor am berfformiad y BBC o ran cyflawni ei bwrpasau cyhoeddus ar dudalennau 22 i 32.

## 6. DYLAI'R BBC GYFLAWNI GWELLIANT O 3% BOB BLWYDDYN YN ERBYN EI DARGED EFFEITHLONRWYDD

### Gwnaed arbedion effeithlonrwydd o £192miliwn eleni (heb gynnwys costau); ymddengys bod y BBC ar y trywydd cywir i gyflawni'r targed hwn

Mae arian ffi'r drwydded yn fraint fawr i'r BBC ac mae ganddo ddyletswydd i sicrhau ei fod yn gwario arian cyhoeddus yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl. Oherwydd hyn, pennwyd targed effeithlonrwydd cronnol o 3% i'r Bwrdd Gweithredol dros y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2012/13.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn nodi cynnydd da yn erbyn y targed hwn ond rydym yn derbyn ei bod yn rhy gynnar i fynegi barn o ran p'un a yw'r arbedion a nodwyd yn enillion effeithlonrwydd gwirioneddol neu a ydynt wedi effeithio ar safon y cynnwys. Fodd bynnag, mae'r mesurau perfformiad yn awgrymu bod safon y gwasanaeth yn parhau i fod yn gyson. Rydym wedi adolygu'r systemau gwybodaeth i sicrhau bod gennym sylfaen dda ar gyfer asesu perfformiad a gallwch ddarllen mwy am hyn ar y dudalen nesaf. Gallwch ddarllen mwy am y camau penodol a gymerwyd i asesu a gwella effeithlonrwydd y BBC mewn meysydd penodol, er enghraifft costau talent, yn nes ymlaen yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

[1] Ffynhonnell: Arolwg Olrhain ar draws y BBC.
[2] Arolwg BBC Pulse, cyfartaledd wedi'i bwysoli ar gyfer rhaglenni ar draws bob awr, gydag isafswm o 50+ o ymatebwyr fesul rhaglen.
[3] Efallai bod newidiadau i banel BBC Pulse wedi cael rhywfaint o effaith ar dueddiadau rhwng 2007/08 a 2008/09.

# PERFFORMIAD ARIANNOL

## CAIFF Y BBC EI ARIANNU MEWN FFORDD UNIGRYW, GYDA'R RHAN FWYAF YN DOD O FFI'R DRWYDDED Y TELIR AMDANI GAN GARTREFI LEDLED Y DU. MAE'R ARIAN HWN YN RHOI BREINTIAU ARBENNIG I'R BBC AC MAE GENNYM GYFRIFOLDEB I SICRHAU Y CAIFF YR ARIAN EI WARIO'N DDA.



Yn wahanol i sefydliadau sy'n gwneud elw nid ydym yn canolbwyntio ar elw. Yn hytrach mae angen i ni sicrhau bod y BBC yn cyflawni gwerth gwirioneddol a sylweddol i dalwyr ffi'r drwydded ac i economi ehangach y DU. Mae hyn yn cyfateb i bum amcan ariannol:

- cynyddu incwm y BBC i'r eithaf drwy gasglu ffi'r drwydded mewn ffordd mor effeithlon â phosibl
- sicrhau bod y BBC mor effeithlon â phosibl, ac yn cyflawni gwerth da am arian
- cynyddu'r elw a wna'r BBC ar raglenni y telir amdanynt gan ffi'r drwydded i'r eithaf
- lledaenu'r budd a ddaw yn sgîl ffi'r drwydded ar draws y DU
- sicrhau bod ffi'r drwydded yn cynorthwyo'r economi greadigol ehangach

Nodir perfformiad y BBC yn erbyn yr amcanion ariannol hyn gyferbyn, a gallwch ddarllen sylwebaeth fanwl yn yr arolwg ariannol yn Rhan Dau'r Adroddiad Blynyddol hwn. Rydym yn rhoi sylwadau isod ar y risgiau ariannol sy'n wynebu'r BBC a'n hymateb iddynt.

### RHEOLI RISG ARIANNOL YN Y DIRWASGIAD

Er bod ffi'r drwydded yn rhoi diogelwch sylweddol i'r BBC, nid yw'r BBC yn ddiogel rhag y pwysau ehangach yn yr economi, sef:

- effaith gostyngiad mewn gwerthoedd eiddo ar gynlluniau i wneud ystâd y BBC yn fwy effeithlon
- llai o dwf yn nifer y cartrefi newydd sy'n talu ffi'r drwydded
- yr amgylchedd masnachu ar gyfer BBC Worldwide, y mae ei elw yn cael ei ddychwelyd i'r BBC i'w ddefnyddio er budd talwyr ffi'r drwydded

Gallwch gael gwybod mwy am y risgiau penodol hyn yn yr arolwg ariannol yn Rhan Dau'r adroddiad hwn. Gyda mwy o ansicrwydd dros incwm yn y dyfodol mae'n bwysig i'r BBC fyw o fewn ei fodd. Yn unol â hynny mae'r Bwrdd Gweithredol wedi nodi arbedion pellach posibl o fewn cyfnod presennol ffi'r drwydded, y tu hwnt i'r targed effeithlonrwydd o 3% y flwyddyn (net) a nodwyd yn flaenorol, sef:

- lleihau graddau'r gwariant parhaus
- rhewi cyflogau uwch swyddogion gweithredol yn 2009/10
- peidio â thalu bonysau yn ystod y flwyddyn honno

Rydym wedi cymeradwyo'r arbedion costau pellach hyn, ond rydym wedi pwysleisio na ddylent beryglu ansawdd rhaglenni, a byddwn yn monitro hyn yn ofalus.

### MESUR PERFFORMIAD

Mae Ymddiriedolaeth a Bwrdd Gweithredol y BBC wedi datblygu fframwaith mesur i'n helpu i lunio barn hyddysg o ran pa mor dda y mae'r BBC yn cyflawni yn erbyn yr amcanion strategol a nodwyd yn y cynllun chwe blynedd, a hefyd i asesu effeithiolrwydd y BBC o ran annog effeithlonrwydd wrth gynnal ansawdd.

Yn benodol byddwn yn ystyried y mesurau ansawdd yng nghyd-destun yr arbedion ariannol a wnaed er mwyn llunio barn ar b'un a yw'r arbedion a gyflawnir o dan raglen gwelliant parhaus y BBC yn cynrychioli enillion effeithlonrwydd gwirioneddol, h.y. nad ydynt wedi effeithio ar berfformiad y gwasanaethau y mae'r BBC yn eu darparu.

Er mwyn gallu llunio barn hyddysg ar berfformiad y BBC roeddem am gael rhywfaint o sicrwydd ar y data a ddefnyddir i gyflwyno adroddiadau ar berfformiad. Yn unol â hynny gofynnwyd i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) ystyried ansawdd y systemau data sy'n sail i'r gwaith o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad o ran arbedion effeithlonrwydd. Mae'r NAO wedi cadarnhau i ni:

"Mae'r BBC yn defnyddio systemau sefydledig ar gyfer mesur perfformiad a ddefnyddiwyd ers cryn amser ac sy'n hŷn na'i raglen gwelliant parhaus. Maent yn rhoi lefel dda o sicrwydd i'r BBC bod data perfformiad yn gywir ac yn ddibynadwy. Mae'r BBC yn defnyddio'r systemau mesur perfformiad hyn i gefnogi ei adroddiadau ar effaith ei raglen gwelliant parhaus ar gyfer y cyfnod 2008/09 i 2012/13.

Fodd bynnag, dim ond sicrwydd cyfyngedig y gall trefniadau mesur y BBC ei roi o effaith uniongyrchol y rhaglen gwelliant parhaus gan fod sawl ffactor, nid dim ond mentrau effeithlonrwydd, yn dylanwadu ar berfformiad. Fodd bynnag, dylai'r trefniadau roi gwybodaeth gywir a dibynadwy ar berfformiad yn gyffredinol, a thros amser, gallent nodi effeithiau andwyol ar berfformiad sy'n codi dro ar ôl tro."

Roedd gwaith yr NAO yn canolbwyntio ar y data anariannol gan fod KPMG, archwilwyr allanol y BBC, yn adolygu'r arbedion ariannol a gaiff eu datgan bob blwyddyn.

Yn ystod y cam hwn o'r rhaglen gwelliant parhaus rydym yn cydnabod ei bod yn rhy gynnar i lunio barn ar b'un a yw'r arbedion a gyflawnir yn cyflwyno effeithlonrwydd gwirioneddol o ran yr effaith ar wasanaethau, a hynny er enghraifft oherwydd yr amser sy'n mynd heibio rhwng penderfyniadau comisiynu a darparu cynnwys. Fodd bynnag, rydym yn falch bod y systemau data perfformiad sy'n bodoli yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer llunio ein barn yn y dyfodol.

## CASGLU FFI'R DRWYDDED

Rydym am ei gwneud hi'n haws i bobl dalu ffi'r drwydded – trafodion ar-lein a thros y ffôn yw dros draean o'r cyfanswm erbyn hyn, ac maent wedi helpu'r BBC i gadw costau casglu ac osgoi talu ar lefelau 2007/08.

**Casglu/osgoi talu ffi'r drwydded %**

| | |
|---|---|
| 06/07 | 9.2 |
| 07/08 | 8.7 |
| 08/09 | 8.7 |

## GWARIANT FFI'R DRWYDDED YN Y GWLEDYDD A'R RHANBARTHAU

Mae gwariant y tu allan i Lundain wedi gostwng ychydig iawn flwyddyn ar flwyddyn wrth i'r BBC gyflawni arbedion effeithlonrwydd a rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau bod 50% o'i gynyrchiadau teledu rhwydwaith yn cael eu gwneud y tu allan i Lundain erbyn 2016 – i fyny o ychydig dros draean eleni. Rydym yn adolygu pa dargedau y dylid eu pennu ar gyfer radio.

**Gwariant ffi'r drwydded yn y gwledydd/rhanbarthau £m**

| | |
|---|---|
| 06/07 | 884 |
| 07/08 | 984 |
| 08/09 | 948 |

## GWARIANT YN YR ECONOMI GREADIGOL

Unwaith eto, gwariwyd dros £1biliwn gennym yn economi greadigol y DU – gan gomisiynu rhaglenni gan gwmnïau annibynnol (37% o gyfanswm yr oriau cymwys yn ystod y flwyddyn) a chydweithredu â phartneriaid creadigol eraill.

**Gwariant yn yr economi greadigol £bn**

| | |
|---|---|
| 06/07 | 1.1 |
| 07/08 | 1.1 |
| 08/09 | 1.1 |

## BBC WORLDWIDE

Er gwaethaf amgylchiadau masnachu anodd i'r diwydiant, cynyddodd BBC Worldwide ei werthiannau i £1biliwn am y tro cyntaf (gan gynnwys ei gyfran o gyd-fentrau a gwerthiannau mewnol y grŵp), ond gostyngodd ei elw statudol – yn rhannol o ganlyniad i fuddsoddiad parhaus yn ogystal â chostau a ddilëwyd mewn perthynas â chwymp Woolworths a'r ffaith bod y Comisiwn Cystadleuaeth wedi gwrthod Kangaroo, ei gynnig fideo ar alw.


**Elw statudol BBC Worldwide cyn llog a threth £m**

| | |
|---|---|
| 06/07 | 111 |
| 07/08 | 118 |
| 08/09 | 86 |

## ARBEDION EFFEITHLONRWYDD

Dechreuodd y BBC ei raglen effeithlonrwydd newydd ym mis Ebrill 2008 ac mae eisoes wedi arbed £237miliwn (£192miliwn gan gynnwys costau). Nodwyd targed gennym i'r BBC gyflawni arbedion cronnol o 3%, sef £1.9biliwn (15% o sylfaen costau'r BBC), a gaiff ei ailfuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau gwell.

**Arbedion effeithlonrwydd gros £m**



# CEFNOGI A HERIO'R BWRDD GWEITHREDOL

GWNAETHOM GEFNOGI'R BWRDD GWEITHREDOL WRTH IDDO GYFLAWNI GWERTH I DALWYR FFI'R DRWYDDED, GAN SICRHAU CYNNWYS O SAFON AC ELENI, GAN DDATBLYGU PARTNERIAETHAU GYDA DIWYDIANT, YNGHYD Â'U HERIO LLE NA CHYFLAWNODD Y BBC EI SAFONAU UCHEL EI HUN.

**50**

o gyfarfodydd Cynghorau Cynulleidfa gyda thalwyr ffi'r drwydded

**11**

o ddarnau o waith ymchwil cynulleidfa wedi'u comisiynu

**16**

o raglenni ffonio i mewn ar y radio a gynhaliwyd gan Ymddiriedolwyr i gael clywed safbwyntiau cynulleidfaoedd

**12**

o ymgynghoriadau cyhoeddus wedi'u cynnal

**6**

gwrandawiad gan Bwyllgor Dethol y Senedd o Seneddau a Chynulliadau'r DU a fynychwyd gan Ymddiriedolwyr fel cynrychiolwyr y BBC

**16,939**

o ymatebion a dderbyniwyd i 12 o ymgynghoriadau

**50%**

o gynyrchiadau Teledu Rhwydwaith i gael eu lleoli y tu allan i Lundain erbyn 2016 (yn unol â diffiniadau Ofcom) – targed newydd heriol a bennwyd gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y Bwrdd Gweithredol


**28**

o apeliadau am gwynion golygyddol a gadarnhawyd/cadarnhawyd yn rhannol gan y Pwyllgor Safonau Golygyddol allan o gyfanswm o 75 a ystyriwyd


## GWARIANT

### Gwariant yr Ymddiriedolaeth £m

Mae gwariant yr Ymddiriedolaeth fel canran o wariant gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU wedi gostwng o 0.34% i 0.31%.




### Ffioedd Ofcom £m




## YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

### Cyfanswm yr ymatebion: 16,939




## DIGWYDDIADAU 2008/09

### EBRILL 08

- Cyhoeddi 27 o drwyddedau gwasanaeth y BBC a ddiweddarwyd sy'n adlewyrchu canlyniad y gwaith ymchwil ac ymgynghori pwysig a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth y llynedd.
- Yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol yn lansio trafodaeth ynghylch darlledu cyhoeddus cyn cyhoeddi adroddiad cyntaf Ofcom ar ddyfodol darlledu cyhoeddus.

### MAI 08

- Cyhoeddi arolwg gwasanaeth o BBC Online; canfyddiadau allweddol ar berfformiad, ei natur nodedig a chyllidebau.
- Yr Ymddiriedolaeth yn nodi cynnydd sylweddol yng % targed y Teledu Rhwydwaith a gynhyrchir yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

### MEHEFIN 08

- Adroddiad o natur ddiduedd yn dod i'r casgliad bod yn rhaid i'r BBC wella cwmpas, eglurder a manylder darllediadau newyddion rhwydwaith o'r gwledydd a'r rhanbarthau.
- Arolwg o gostau talent y BBC yn nodi nad oes tystiolaeth i ddangos bod y BBC yn chwyddo prisiau'r farchnad nac yn talu gormod am dalent ac yn amlygu pwysigrwydd meithrin talent newydd a rheoli pwysau sy'n gysylltiedig â chostau.

### GORFFENNAF 08

- Yr Ymddiriedolaeth yn cadarnhau rhannau o apeliadau ynghylch y defnydd o nawdd yn *BBC Sports Personality of the Year* ac yn cychwyn ymgynghoriad cyhoeddus ar bolisi nawdd diwygiedig.
- Yr Ymddiriedolaeth yn dechrau adolygu gweithgareddau masnachol y BBC.

### AWST 08

- Y sianel deledu Gaeleg gyntaf yn y DU, BBC ALBA, yn cael trwydded wasanaeth yn dilyn prawf gwerth cyhoeddus llawn a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth.
- Arolwg o'r 'Cyfle i Gystadlu'n Greadigol' (WOCC) yn canfod ei fod yn gweithio'n dda, heb ddangos unrhyw duedd tuag at dimau mewnol neu gynhyrchwyr annibynnol.

### MEDI 08

- Ymgynghoriadau cyhoeddus ar gyfer adolygu gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd iau/y gwaith o gasglu ffi'r drwydded yn dechrau.
- System gwyno newydd yn cael ei rhoi ar waith.

### HYDREF 08

- Yr Ymddiriedolaeth yn cynnal ac yn cyhoeddi ymchwiliad llawn i alwadau ffôn sarhaus a ddarlledwyd ar *The Russell Brand Show* ac yn galw ar y Bwrdd Gweithredol i ddarlledu ymddiheuriad ar yr awyr. Bwrdd Gweithredol y BBC hefyd yn cyhoeddi mesurau i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau golygyddol yn y dyfodol.

### TACHWEDD 08

- Y cynlluniau gweithredol ar gyfer gwasanaeth fideo lleol yn cael eu gwrthod gan yr Ymddiriedolaeth; angen i'r Bwrdd Gweithredol ddatblygu cynlluniau newydd ar gyfer newyddion lleol.

### RHAGFYR 08

- Cynlluniau partneriaeth y BBC yn cael eu hamlygu fel rhan o ymateb yr Ymddiriedolaeth i Gam 2 o arolwg Ofcom o Ddarlledu Cyhoeddus.
- Cwynion unigol am y broses o gasglu ffi'r drwydded yn cael eu hystyried gan yr Ymddiriedolaeth am y tro cyntaf.

### IONAWR 09

- Yr Ymddiriedolaeth yn ystyried cwyn yn erbyn penderfyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol i beidio â darlledu apêl Gaza'r Pwyllgor Argyfyngau, gan ddyfarnu ei fod wedi gweithredu'n briodol drwy gydol y cyfnod.

### CHWEFROR 09

- Arolwg o wasanaethau'r BBC i blant yn dod i'r casgliad bod gwasanaethau yn perfformio'n dda iawn ond bod angen gwella rhai meysydd.
- Lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar gynlluniau'r BBC ar gyfer cydfenter Internet Protocol Television (Prosiect Canvas).

### MAWRTH 09

- Arolwg o'r broses o gasglu ffi'r drwydded yn dod i'r casgliad bod yn rhaid i Drwyddedu Teledu gydbwyso cadernid gyda thegwch.
- Adroddiad gwerth am arian ar gontractau strategol yn dod i'r casgliad bod effeithlonrwydd yn cael ei gyflawni ond bod angen i'r BBC wneud mwy i wella gwasanaethau.

# CIPOLWG AR WASANAETHAU'R BBC



## TELEDU RHWYDWAITH

Nod BBC One yw sicrhau mai hi yw'r sianel a gaiff ei gwerthfawrogi fwyaf yn y DU, â'r ystod ehangaf o raglenni o safon ymysg yr holl rwydweithiau prif ffrwd yn y DU.

Mae BBC Two yn cyflwyno rhaglenni o ddyfnder a sylwedd i gynulleidfa eang. Mae'n gyfrifol am y swm a'r ystod fwyaf o raglennu ffeithiol o holl sianelau teledu'r BBC, ynghyd â chelfyddydau, comedi a drama nodedig.

Mae BBC Three yn ymroddedig i gynnwys a thalent arloesol o Brydain. Nod y sianel yw darparu cymysgedd eang o raglenni a anelir at gynulleidfaoedd iau yn bennaf.

Nod BBC Four yw sicrhau mai hi yw'r sianel sy'n cynnig y cyfoeth deallusol a diwylliannol gorau ym Mhrydain, gan gynnig cyfuniad nodedig o raglenni dogfen, perfformiadau, cerddoriaeth, ffilm a phynciau amserol.

Mae sianel CBBC yn cynnig amserlen gymysg nodedig ar gyfer plant 6-12 oed, gan annog pob plentyn i atgyfnerthu ei diddordebau presennol a datblygu rhai newydd.

## RADIO RHWYDWAITH

Nod BBC Radio 1 yw cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd ifanc gan gyfuno'r gerddoriaeth newydd orau, ystod gynhwysfawr o sesiynau stiwdio byw, cyngherddau a gwyliau, ac allbwn llafar wedi'i deilwra.

Mae BBC Radio 2 yn cynnig amrywiaeth eang o gerddoriaeth boblogaidd ac arbenigol i wrandawyr gan ganolbwyntio ar dalent o Brydain a pherfformiadau byw, yn ogystal ag ystod eang o allbynnau llafar yn cynnwys materion cyfoes, rhaglenni dogfen, crefydd a'r celfyddydau.

Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol ac yn cyflwyno ystod eang o gerddoriaeth jazz, cerddoriaeth y byd, rhaglenni celfyddydol a drama; ceir pwyslais cryf ar berfformiadau cerddorol o bob cwr o'r DU.

Nod BBC Radio 4 yw defnyddio grym iaith lafar i gynnig rhaglenni dwys sy'n ceisio ennyn diddordeb ac ysbrydoli, gyda chyfuniad unigryw o raglenni ffeithiol, dramâu, darlleniadau a chomedi.

Mae BBC Radio 5 yn darlledu newyddion a chwaraeon byw 24 awr y dydd, gan gyflwyno digwyddiadau wrth iddynt ddigwydd mewn ffordd hygyrch.

## NEWYDDIADURAETH

Gwasanaeth newyddion 24 awr ar y teledu yw'r sianel BBC News, sy'n cyflwyno darllediadau a dadansoddiadau cynhwysfawr o'r straeon mwyaf a phwysicaf yn y DU ac yn rhyngwladol.

BBC Parliament yw'r unig sianel yn y DU sy'n ymroddedig i ddarlledu gwleidyddiaeth, gan gynnwys trafodaethau, pwyllgorau a gwaith cyrff seneddol a deddfwriaethol y DU a Senedd Ewrop.

Mae BBC Global News yn dwyn ynghyd BBC World Service, sianel deledu BBC World News, gwasanaethau newyddion ar-lein rhyngwladol y BBC yn Saesneg, BBC Monitoring a BBC World Service Trust.

Cylch gwaith Radio Lleol y BBC yw darparu gwasanaeth newyddion, gwybodaeth a thrafodaethau llafar yn bennaf, gyda phwyslais cryf ar ryngweithio.

Gwasanaeth llafar i oedolion yw Radio Scotland; gwasanaeth radio llafar a cherddoriaeth i siaradwyr Gaeleg yw Radio nan Gàidheal. Mae'r ddau wasanaeth yn cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl yr Alban.

# MAE'R YMDDIRIEDOLAETH YN ASESU PERFFORMIAD Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN DARPARU GWASANAETHAU'R BBC AC YN EI DDWYN I GYFRIF.

Nod CBeebies yw cynnig cymysgedd o raglennu o safon a gynhyrchwyd yn y DU yn bennaf a gynlluniwyd i annog dysgu drwy chwarae mewn amgylchedd cyson ddiogel i blant o dan chwech oed.

Llwyfan arddangos manylder uwch yw sianel HD y BBC i ddarlledu amrywiaeth o raglennu o holl wasanaethau teledu eraill y BBC.

Mae BBC ALBA yn cynnig darllediadau nodedig i siaradwyr Gaeleg a rhai sy'n dysgu'r iaith ar bynciau mor amrywiol â cherddoriaeth fyw, gyfoes a thraddodiadol, pêl-droed a rhaglennu plant ac amrywiaeth o raglennu gwreiddiol sy'n adlewyrchu ac yn ategu diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth Gaeleg.

Rhwydwaith rhan amser yw BBC Radio 5 live sports extra sy'n cynnig darllediadau chwaraeon ychwanegol gan ddefnyddio hawliau y mae'r BBC eisoes yn berchen arnynt er mwyn cynnig gwerth gwell am arian i dalwyr ffi'r drwydded.

Mae BBC 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau â phwyslais cryf ar gyflwyno cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd o'r DU.

Nod BBC 6 Music yw denu'r rhai sy'n mwynhau cerddoriaeth boblogaidd drwy gynnig y gerddoriaeth orau o archif sain y BBC yn ogystal â cherddoriaeth gyfoes o'r tu allan i'r brif ffrwd, a newyddion a rhaglenni dogfen am gerddoriaeth.

Gwasanaeth radio llafar digidol yw BBC 7 sy'n cynnig rhaglenni comedi, dramâu a darlleniadau yn bennaf o archif y BBC. Mae hefyd yn darlledu rhaglenni i blant.

Nod BBC Asian Network yw cynnig trafodaethau heriol, newyddiaduraeth hyddysg, cerddoriaeth, chwaraeon, adloniant a drama i Asiaid Prydeinig o genedlaethau gwahanol.

Gwasanaeth llafar i oedolion yw Radio Wales; gwasanaeth radio llafar a cherddoriaeth i siaradwyr Cymraeg yw BBC Radio Cymru. Mae'r ddau wasanaeth yn cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru.

Mae BBC Radio Ulster/ Foyle yn wasanaeth llafar sy'n cwmpasu ystod eang o genres ac sy'n adlewyrchu pob agwedd ar fywyd cyfoes yng Ngogledd Iwerddon, gan gyfuno darllediadau o faterion, diddordebau a digwyddiadau lleol gyda darllediadau o ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

## CYFRYNGAU RHYNGWEITHIOL

Mae BBC Red Button yn darparu gwasanaethau rhyngweithiol i wylwyr teledu digidol, gan gynnwys y wybodaeth a'r cynnwys cyfoes diweddaraf drwy'r dydd, gan gynnwys newyddion, tywydd, dysgu, adloniant a rhaglenni rhyngweithiol.

Nod BBC Online yw darparu cynnwys ar-lein arloesol a nodedig sy'n adlewyrchu ac yn ehangu amrywiaeth gwasanaethau darlledu'r BBC.

# RÔL YR YMDDIRIEDOLAETH

## MAE'R CYHOEDD YN DISGWYL RHAGLENNU ARDDERCHOG, CYNNWYS CYFFROUS A CHYWIRDEB GOLYGYDDOL GAN Y BBC. EIN RÔL NI YW HERIO A CHEFNOGI'R BWRDD GWEITHREDOL I SICRHAU BOD Y BBC YN CYFLAWNI AR GYFER TALWYR FFI'R DRWYDDED.



Mae gan gynulleidfaoedd ddisgwyliadau uchel o'r BBC – a gellir deall hynny, gan ei fod yn cael ei ariannu gan ffi'r drwydded. Maent yn ymddiried ynddo i wneud rhaglenni gwych; i gynnal y safonau darlledu nodedig, annibynnol uchaf; i gynnig rhywbeth at ddant pawb; ac i wneud pethau na all eraill ei wneud neu na fyddant yn mentro ei wneud. Maent yn disgwyl iddo fod yn arbennig ac i barhau i fod yn arbennig, yn enwedig ar adeg pan mae darlledu yn mynd drwy'r fath newid, a phan fo gan ddefnyddwyr gymaint o ddewis.

### EICH YMDDIRIEDOLAETH CHI, EIN CYFRIFOLDEB NI

Yn Ymddiriedolaeth y BBC ein cyfrifoldeb ni yw cael y gorau o'r BBC ar gyfer talwyr ffi'r drwydded. P'un a yw hynny'n golygu ei ddiogelu rhag ymyrraeth wleidyddol a'r pwysau i fod yn fwy masnachol, neu sicrhau bod y BBC yn parhau i gyflawni gwerth gwych am arian ac yn aros yn driw i'w egwyddorion sylfaenol, ein gwaith ni yw sicrhau hyn.

### PWY YDYM NI?

Yr Ymddiriedolaeth yw corff llywodraethu'r BBC, ac mae'n cynnwys 12 o Ymddiriedolwyr (gweler tudalennau 48 i 49 am fanylion). I'n cynorthwyo ni yn ein rôl, mae gennym dîm o staff proffesiynol, Uned yr Ymddiriedolaeth, sy'n gweithio i'r BBC ond sy'n uniongyrchol atebol i ni. Mae cyngor annibynnol Uned yr Ymddiriedolaeth yn ein helpu i gynnal asesiad gwrthrychol o unrhyw gynigion gan y Bwrdd Gweithredol a chyflawni ein rôl er budd talwyr ffi'r drwydded.

### EIN CYDBERTHYNAS Â BWRDD GWEITHREDOL Y BBC

Y Weithrediaeth sy'n rheoli'r BBC o ddydd i ddydd, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol gyda chymorth y Bwrdd Gweithredol. Yr Ymddiriedolaeth sy'n penodi'r Cyfarwyddwr Cyffredinol – Prif Olygydd y BBC sy'n gyfrifol am holl gynnwys y BBC – ac yn ei ddwyn i gyfrif.

### BETH RYDYM YN EI WNEUD

Mae gennym rôl oruchwylio a rheoleiddio. Ni sy'n gyfrifol am bennu strategaeth lefel uchel y BBC a sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni ei chwe phwrpas cyhoeddus, fel y nodir yn y Siarter (gweler tudalennau 22 i 32).

Rydym hefyd yn mynegi barn ar rai agweddau ar weithrediadau'r BBC. Un rôl bwysig yw gwrando ar apeliadau yn erbyn cwynion am allbwn golygyddol. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y BBC yn cynnal y safonau golygyddol uchaf a hefyd ei fod yn dysgu o'r camgymeriadau a wna.

### SUT Y GWNAWN HYN

- Ar gyfer pob pwrpas cyhoeddus rydym wedi pennu cylch gwaith yn diffinio ein blaenoriaethau ac yn egluro sut y byddwn yn barnu perfformiad y BBC yn eu herbyn.
- Ar gyfer pob un o wasanaethau'r BBC rydym wedi sefydlu 'trwydded gwasanaeth' sy'n nodi ein disgwyliadau ar gyfer y gwasanaeth ac yn amlinellu cyllideb. Mae'r drwydded hefyd yn egluro sut mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at y pwrpasau cyhoeddus.
- Pan fydd Bwrdd Gweithredol y BBC am newid gwasanaeth yn sylweddol neu lansio gwasanaeth newydd, byddwn yn cynnig 'prawf gwerth cyhoeddus'. Mae'r prawf hwn yn asesu gwerth posibl y gwasanaeth yn erbyn yr effaith bosibl y gallai ei chael ar ddarparwyr gwasanaethau eraill yn y farchnad.

### CYFLAWNI EIN HEGWYDDORION

Mae'r BBC mewn sefyllfa freintiedig iawn, gan ei fod yn cael ei ariannu gan ffi'r drwydded. Rydym yn annog y BBC i fod yn arloesol ac i ddatblygu gwasanaethau newydd i ateb gofynion newidiol gan dalwyr ffi'r drwydded, ond ar yr un pryd rydym yn ymwybodol o'r effaith a gaiff hyn ar y farchnad cyfryngau ehangach. Rydym yn gwrando ar bobl o fewn a'r tu allan i'r BBC wrth wneud penderfyniadau ar ba syniadau newydd y bydd y BBC yn eu datblygu.

Un o'n hegwyddorion allweddol yw sicrhau ein bod bob amser yn gweithredu mewn modd tryloyw, ac yn ystyried safbwyntiau'r cyhoedd wrth wneud penderfyniadau. Rydym yn cyhoeddi'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym wrth wneud ein penderfyniadau yn ogystal â'r penderfyniadau eu hunain. Er mwyn canfod safbwyntiau'r cyhoedd, rydym yn gwneud gwaith ymchwil cenedlaethol i'n cynulleifaoedd ac yn cael cyngor gan Gynghorau Cynulleidfa ym mhob un o'n pedair gwlad.

## Y FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO

Diben y BBC yw hysbysu, addysgu a difyrru. Mae chwe phwrpas cyhoeddus yn diffinio sut y dylai wneud hyn, ac fe'u nodir yng 'nghyfansoddiad' y BBC, y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae'r Siarter yn diffinio'r gydberthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol, a dyletswyddau a swyddogaethau'r ddau. Mae hefyd yn gwarantu annibyniaeth olygyddol y BBC. Mae'r Cytundeb yn ymhelaethu ar nifer o'r pynciau a gaiff eu crybwyll yn y Siarter ac yn nodi rhwymedigaethau rheoleiddio'r BBC.

### Cydberthynas ag Ofcom

O dan delerau'r Siarter, y Cytundeb a Deddf Cyfathrebu 2003, ('y Ddeddf'), caiff rhai o feysydd gweithgarwch y BBC eu rheoleiddio gan Ofcom, rhai gan yr Ymddiriedolaeth a rhai gan y ddau ar y cyd. Cytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ym mis Mawrth 2007 i egluro rolau a chyfrifoldebau perthnasol yr Ymddiriedolaeth ac Ofcom.

Isod ceir crynodeb o bwyntiau allweddol y cyfrifoldebau hyn.

## MEYSYDD CYFRIFOLDEB YR YMDDIRIEDOLAETH AC OFCOM

| | |
|---|---|
| **Safonau rhaglenni** | Mae'r BBC yn atebol i'r Ymddiriedolaeth am gywirdeb a natur ddiduedd ei gynnwys; mae Ofcom yn pennu rhai safonau rhaglenni. Mae gan y ddau ddyletswyddau i ystyried cwynion. |
| **Cwotâu a chodau** | |
| Newyddion a materion cyfoes | Mae'r Ymddiriedolaeth yn pennu cwotâu ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar BBC One/Two, gan ymgynghori ag Ofcom (a chael cytundeb mewn rhai achosion) cyn gweithredu'r gofynion hyn. |
| Cynyrchiadau gwreiddiol | Mae'n rhaid i'r BBC ac Ofcom gytuno ar gyfran briodol o raglennu i fod yn gynyrchiadau gwreiddiol. |
| Rhaglennu'r Gwledydd a'r Rhanbarthau | Mae'r Ymddiriedolaeth yn pennu cwotâu ar gyfer rhaglenni am y Gwledydd a'r Rhanbarthau, gan ymgynghori ag Ofcom (a chael cytundeb mewn rhai achosion) cyn gweithredu'r gofynion hyn. |
| Rhaglenni a wneir y tu allan i Lundain | Mae'n rhaid i'r BBC ac Ofcom gytuno ar gyfran addas o raglennu i gael eu gwneud yn y DU y tu allan i ardal yr M25. |
| Cynyrchiadau annibynnol | Mae'r Ymddiriedolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddilyn cod ymarfer ar gyfer comisiynu cynyrchiadau annibynnol, ac mae'n adolygu cyflawniad yn erbyn y WOCC.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth ac Ofcom yn monitro cydymffurfiaeth â thargedau ar gyfer cynyrchiadau annibynnol. |
| Hygyrchedd | Mae'n rhaid i'r BBC ddilyn cod Ofcom ar gyfer darparu gwasanaethau ar gyfer pobl fyddar a phobl â nam ar eu golwg. |
| **Profion gwerth cyhoeddus** | Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth gynnal prawf gwerth cyhoeddus cyn caniatáu newid sylweddol i wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU. Ofcom sy'n cynnal yr asesiad o effaith ar y farchnad sy'n rhan o'r prawf. |
| **Effaith gystadleuol** | Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth ystyried effaith economaidd y BBC ar y sector darlledu. Cyfrifoldeb Ofcom neu'r Swyddfa Masnachu Teg yw dyfarnu ar faterion sy'n ymwneud â chyfraith cystadleuaeth. |
| **Y sbectrwm radio** | Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau y gwneir defnydd effeithlon o'r sbectrwm a ddyrennir i'r BBC; Ofcom sy'n gyfrifol am sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r holl sbectrwm. |

Nodir rhai meysydd pellach o gyfrifoldeb a rennir (yn cynnwys darlledu cyhoeddus, llythrennedd y cyfryngau a hyrwyddo cyfle cyfartal a hyfforddiant) yn y Ddeddf a'r Cytundeb.

# PERFOR





# MIAD/


18/ EIN CYFLAWNIAD YN ERBYN EIN CYNLLUNIAU AR GYFER 2008/09/
20/ CYNGHORAU CYNULLEIDFA/
22/ PWRPASAU/
30/ SUT Y CYFLAWNIR Y PWRPASAU/
33/ PERFFORMIAD GWASANAETHAU/
36/ GWARCHOD FFI'R DRWYDDED/
38/ CYNNAL BUDDIANNAU TALWYR FFI'R DRWYDDED/

# EIN CYFLAWNIAD YN ERBYN EIN CYNLLUNIAU AR GYFER 2008/09

**Ar y ddwy dudalen hyn ceir crynodeb o'r hyn a wnaethom o'i gymharu â'r hyn y nodwyd gennym y byddem yn ei wneud yn ein cynllun gwaith ar gyfer 2008/09, a gyhoeddwyd yn adroddiad y llynedd ym mis Gorffennaf 2008.**

Bob blwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi cynllun gwaith fel y gall pawb sy'n ymgysylltu â ni, o fewn y BBC a'r tu allan iddo, neu unrhyw un a chanddynt ddiddordeb, gael gwybod beth yw ein blaenoriaethau, pam y gwnaethom eu nodi, a beth y byddwn yn ei wneud i'w cyflawni yn y flwyddyn i ddod. Rydym yn adrodd ar ein cyflawniad yn erbyn y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn, felly gallwch gael gwybod i ba raddau rydym wedi cyflawni ein bwriadau. Wrth gwrs, gan ein bod hefyd yn ymateb i ddigwyddiadau wrth iddynt ddigwydd, ni fydd y cynllun gwaith yn cynnwys popeth a wnaethom yn ystod y flwyddyn, ond rydym yn adrodd ar ddigwyddiadau eraill o'r fath mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn.

Ceir crynodeb o'n cynllun gwaith ar gyfer 2009/10 ar dudalennau 44 i 45, a cheir fersiwn llawn ar ein gwefan.

## EGWYDDORION A CHANLYNIADAU 2008/09

Rydym wedi pennu rhai egwyddorion i'n hunain i'w dilyn o ran sut rydym yn gwneud ein gwaith. Ceir crynodeb o'r rhain gyferbyn ynghyd â'n hasesiad o ba mor dda a wnaethom. O fewn y cynllun gwaith rydym wedi rhannu ein gwaith yn dri phrif amcan ac wedi nodi blaenoriaethau am y flwyddyn ar gyfer pob amcan. Mae'r tabl gyferbyn yn crynhoi'r hyn a wnaethom ar gyfer pob blaenoriaeth. Caiff canlyniadau'r gwaith hwn, yn cynnwys yr effaith a gafodd, eu hegluro'n llawnach yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Ein prif flaenoriaeth oedd sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n well ar gyfer ein cynulleidfaoedd, sef talwyr ffi'r drwydded.





## GWARCHOD FFI'R DRWYDDED

Ein rôl strategol

**Sicrhau y caiff yr incwm a geir o ffi'r drwydded ei wario mewn ffyrdd sy'n cyflawni disgwyliadau cynulleidfaoedd ac yn cyflawni gwerth am arian.**

### Blaenoriaeth 1

### ASTUDIAETHAU GWERTH AM ARIAN

Roeddem wedi bwriadu cynnal tair astudiaeth ar:

a) costau cynyrchiadau radio

b) rheoli contractau strategol

c) rheoli asedau

**Canlyniad**

a) Comisiynwyd hyn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol; cyhoeddwyd yr adroddiad ar 'effeithlonrwydd cynyrchiadau radio yn y BBC' ym mis Chwefror 2009.

b) Comisiynwyd hyn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol; cyhoeddwyd yr adroddiad ar 'reolaeth y BBC o gontractau strategol gyda'r sector preifat' ym mis Mawrth 2009.

c) Er mwyn lleihau costau, penderfynwyd gohirio'r arolwg hwn.

### Blaenoriaeth 2

### NEWID I DDIGIDOL

Roeddem wedi bwriadu monitro cynnydd y broses o newid i ddigidol a'r cynllun help wedi'i dargedu.

**Canlyniad**

Adolygwyd adroddiadau chwarterol ar gynnydd y broses o newid i ddigidol a'r broses o roi'r cynllun help ar waith.

### Blaenoriaeth 3

### CASGLU FFI'R DRWYDDED

Roeddem wedi bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y broses o gasglu ffi'r drwydded.

**Canlyniad**

Yn 2008 ymgynghorwyd â'r cyhoedd ynghylch sut y cesglir ffi'r drwydded deledu. Cyhoeddwyd ein harolwg ym mis Mawrth 2009.

Am fwy o fanylion gweler tudalennau 36 i 37.

| EGWYDDOR | CANLYNIAD |
| --- | --- |
| Rydym am fod yn agored ac yn dryloyw ymhob peth a wnawn. Ar ein gwefan nodwn yr hyn a wnawn a pham. | Cyhoeddwyd ein harolygon a'u tystiolaeth ategol ar ein gwefan yn ystod y flwyddyn. |
| Rydym yn ymgynghori â chynulleidfaoedd yn aml. Pan wnawn hynny byddwn yn ceisio osgoi defnyddio iaith sy'n rhy dechnegol. | Cynhaliwyd 12 o ymgynghoriadau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn. Er i ni wneud rhywfaint o gynnydd, rydym yn cydnabod bod angen i ni weithiau'n galetach i ddefnyddio iaith sy'n haws ei deall. |
| Rydym yn bwriadu hysbysu cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid eraill yn well drwy greu rhestr bostio electronig, y gall pobl danysgrifio ar ei chyfer os byddant yn dymuno. | Gall aelodau o'r cyhoedd sydd am gael eu hysbysu o'n gwaith gofrestru ar restr bostio electronig drwy ymweld â'n gwefan – bbc.co.uk/bbctrust |
| Rydym yn bwriadu adolygu sut y gallwn ddefnyddio'r gwaith a wneir gan y Cynghorau Cynulleidfa yn y ffordd orau. | Adolygwyd gweithrediad y Cynghorau Cynulleidfa ac rydym yn gwneud rhai newidiadau i wella'r defnydd a wnawn o'u gwaith. (Gweler tudalennau 20 i 21.) |
| Byddwn yn adolygu perfformiad Bwrdd yr Ymddiriedolaeth bob blwyddyn. | Adolygwyd perfformiad yr Ymddiriedolaeth ym mis Mai 2009. (Gweler tudalen 62.) |
| Byddwn yn adolygu gweithrediadau Uned yr Ymddiriedolaeth. | Rydym wedi adolygu'r modd rydym yn cynorthwyo'r Cynghorau Cynulleidfa rhanbarthol yn Lloegr ac wedi cytuno ar rai newidiadau. |

# CYNNAL BUDDIANNAU TALWYR FFI'R DRWYDDED

## Ein rôl strategol

**Sicrhau bod y BBC yn gweithio'n effeithiol er budd y cyhoedd, a'i fod mor ymatebol â phosibl i'r hyn y mae talwyr ffi'r drwydded am ei gael.**

### Blaenoriaeth 1

### SAFONAU GOLYGYDDOL A NATUR DDIDUEDD

a) Yn dilyn y methiannau golygyddol yn 2007, comisiynwyd arolwg o sut yr aeth rheolwyr y BBC ati i ddatrys y sefyllfa.

b) Comisiynwyd arolwg o natur ddiduedd darllediadau newyddion rhwydwaith o'r gwledydd.

**Canlyniad**

a) Cyhoeddwyd yr arolwg o gamau gweithredu'r rheolwyr ym mis Mai 2008.

b) Cyhoeddwyd yr arolwg o natur ddiduedd ym mis Mehefin 2008. (Gweler tudalen 55.)

### Blaenoriaeth 2

### AROLWG O GYFLENWADAU RHWYDWAITH

Roeddem wedi bwriadu cwblhau ein harolwg o gyflenwadau rhwydwaith gan ystyried faint o gynnwys mae'r BBC yn ei gynhyrchu ymhob Gwlad a Rhanbarth.

**Canlyniad**

Cyhoeddwyd yr arolwg o gyflenwadau rhwydwaith ym mis Mehefin 2008.

### Blaenoriaeth 3

### AROLWG O WERTH ECONOMAIDD

Roeddem wedi bwriadu ymchwilio i werth economaidd y BBC i'r DU.

**Canlyniad**

Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar werth economaidd y BBC ym mis Gorffennaf 2008. (Gweler tudalen 54.)

### Blaenoriaeth 4

### AROLWG O'R 'CYFLE I GYSTADLU'N GREADIGOL' (WOCC)

Datblygwyd y WOCC i sicrhau bod mwy o gomisiynau rhaglenni'r BBC yn agored i gynhyrchwyr annibynnol. Roeddem wedi bwriadu cyhoeddi arolwg o'i heffeithiolrwydd a chomisiynu arolygon o gomisiynau radio ac ar-lein ynghyd â strategaeth ffilm y BBC.

**Canlyniad**

Cyhoeddwyd arolwg o effeithiolrwydd y WOCC ym mis Gorffennaf 2008. Gohiriwyd yr arolygon eraill.

Am ragor o fanylion gweler tudalennau 38 i 41.

# HYRWYDDO PWRPASAU CYHOEDDUS Y BBC YN EFFEITHIOL

## Ein rôl strategol

**Sicrhau bod y BBC yn hyrwyddo'r chwe phwrpas cyhoeddus fel y'u gosodwyd gan y Senedd yn ei holl weithrediadau.**

### Blaenoriaeth 1

### CAU BYLCHAU MEWN PERFFORMIAD

Yn 2007 ymgynghorwyd â'r cyhoedd ynghylch pa mor dda roedd y BBC yn perfformio yn erbyn ei bwrpasau cyhoeddus. Datgelodd hyn fylchau mewn perfformiad, yn enwedig o ran bod yn arloesol ac yn nodedig – darparu rhaglenni sy'n ffres ac yn newydd ym marn cynulleidfaoedd. Heriwyd y Bwrdd Gweithredol i gau'r bylchau hyn a gwnaethom gynlluniau i fonitro eu perfformiad.

**Canlyniad**

Gwnaed gwaith ymchwil newydd ym mis Tachwedd 2008 a mis Chwefror 2009 i ddeall safbwyntiau'r cyhoedd ar berfformiad y BBC, ac felly i fesur pa mor dda y mae'r Bwrdd Gweithredol yn cau'r bylchau a nodwyd. Bydd monitro cynnydd yn ffocws pwysig i ni yn y blynyddoedd i ddod.

### Blaenoriaeth 2

### AROLYGON O WASANAETHAU

Adolygwn holl wasanaethau'r BBC o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Roeddem wedi bwriadu edrych ar wasanaethau radio, teledu ac ar-lein y BBC ar gyfer:

a) plant

b) cynulleidfaoedd iau

**Canlyniad**

a) Cyhoeddwyd yr arolwg plant ym mis Chwefror 2009.

b) Cyhoeddwyd yr arolwg cynulleidfaoedd iau ym mis Mehefin 2009.

Am ragor o fanylion gweler tudalennau 22 i 32.

# CYNGHORAU CYNULLEIDFA

## MAE CYNGHORAU CYNULLEIDFA YNG NGHYMRU, LLOEGR, YR ALBAN A GOGLEDD IWERDDON, DAN GADEIRYDDIAETH YR YMDDIRIEDOLWR AR GYFER Y WLAD HONNO, YN CYNGHORI'R YMDDIRIEDOLAETH AR BA MOR DDA Y MAE'R BBC YN CYFLAWNI EI BWRPASAU CYHOEDDUS, AC YN RHOI ASESIAD ANNIBYNNOL O DDISGWYLIADAU CYNULLEIDFAOEDD.

Er mwyn gwneud hyn, bydd y Cynghorau, sydd â'r nod o adlewyrchu amrywiaeth y DU ac y mae eu haelodau yn wirfoddolwyr, yn cynnal ymgynghoriadau â thalwyr ffi'r drwydded, yn cwrdd bob mis ac yn cyflwyno eu cyngor i'r Ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn rhoi sylwadau ar gynigion gan y Bwrdd Gweithredol, ac ar faterion sydd o bwys i gynulleidfaoedd ar y pryd. Bob blwyddyn maent yn awgrymu ffyrdd o wella gwasanaethau'r BBC, yn seiliedig ar yr hyn mae'r cynulleidfaoedd wedi'i ddweud wrthynt ('blaenoriaethau cynulleidfaoedd'). Caiff Cyngor Cynulleidfa Lloegr ei gynorthwyo gan 12 o gynghorau cynulleidfa rhanbarthol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth yn Lloegr. Ceir manylion llawn ar wefannau'r Cynghorau yn:

bbc.co.uk/ace

bbc.co.uk/acs

bbc.co.uk/wales/acw

bbc.co.uk/northernireland/audiencecouncil

### GWRANDO AR GYNULLEIDFAOEDD

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Cynghorau fwy na 50 o gyfarfodydd gyda thalwyr ffi'r drwydded ledled y DU. Cynhaliwyd rhai ar gyfer grwpiau cynulleidfa penodol fel pobl ifanc a phobl ag anableddau, ac eraill ar gyfer trawsdoriad o bobl. Cododd cynulleidfaoedd amrywiaeth o faterion sy'n amrywio o broblemau gyda derbyniad, amserlenni a'r broses o newid i ddigidol, i'r portread o bobl ifanc, y sylw a roddir i'r celfyddydau yng Ngogledd Iwerddon, a safonau golygyddol.

### PERFFORMIAD Y BBC YN ERBYN BLAENORIAETHAU CYNULLEIDFAOEDD AR GYFER 2008/09

Croesawodd y Cynghorau gynnydd ar yr awgrymiadau a wnaethant ar gyfer 2008/09. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi penderfynu y dylai mwy o raglenni'r BBC gael eu gwneud y tu allan i Lundain, yn y pedair gwlad. Croesawodd ACE fuddsoddiad yng nghanolfan gynhyrchu newydd y BBC yn Salford, ond nodwyd pryder ynghylch dyfodol cynyrchiadau rhwydwaith yn Birmingham a Bryste am y rheswm y gallai symud talent i Salford roi rhanbarthau eraill o dan anfantais. Dywedodd Cyngor Cynulleidfa'r Alban (ACS) y dylai fod yn bosibl cyflawni'r cynnydd yno cyn y dyddiad targed o 2016 y cytunwyd arno gyda'r BBC.

Cytunodd y Cynghorau, yn dilyn arolwg yr Ymddiriedolaeth o natur ddiduedd (gweler tudalen 55 am fanylion), fod darllediadau newyddion rhwydwaith o faterion datganoledig yn fwy cywir, ond nodwyd y gellid gwneud mwy i archwilio cyd-destunau polisi gwahanol yn y gwledydd. Cynghorwyd yr Ymddiriedolaeth gan Gyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon (ACNI) i graffu ar newyddion rhwydwaith, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i wella. Awgrymodd ACE y dylid buddsoddi mewn radio lleol er mwyn gwasanaethu cymunedau'n well yn Lloegr. Dywedodd ACS fod cynulleidfaoedd am gael safbwynt mwy Albanaidd ochr yn ochr â safbwynt y DU, a gofynnwyd am arolwg o strwythur newyddion y BBC yn yr Alban.

Nododd y Cynghorau fod y BBC wedi gwneud cynnydd o ran gwella mynediad i holl gynnwys y BBC, er bod bylchau sylweddol o hyd yn argaeledd BBC Radio Cymru ar Ddarlledu Sain Ddigidol (DAB); BBC Radio Wales ar DAB ac FM; BBC Radio Foyle ac 11 o'r 40 o orsafoedd radio lleol yn Lloegr ar DAB; a BBC Radio Scotland ar brif lwybrau yng ngogledd yr Alban.

Croesawodd ACS lansiad y gwasanaeth Gaeleg BBC ALBA, a gaiff ei redeg mewn partneriaeth ag MG Alba. Canmolodd Cyngor Cynulleidfa Cymru (ACW) y ffordd y cyflawnodd y BBC ei rwymedigaethau at deledu cyhoeddus yng Nghymru drwy ddarparu rhaglenni ar gyfer y sianel Gymraeg S4C y talwyd amdanynt drwy ffi'r drwydded.

### CYNGHORI'R YMDDIRIEDOLAETH

Ymgynghorodd y Cynghorau ar y cynigion ar gyfer gwasanaethau fideo lleol gan y BBC, a nodwyd cryfder y galw am ddarllediadau mwy lleol a rhanbarthol. Roedd aelodau'r Cynghorau yn credu y byddai hyn yn cyfrannu'n gryf at nod y BBC o gefnogi dinasyddiaeth, a chynrychioli cymunedau'r DU.

Nododd ACE fwlch yn rhaglenni plant y BBC ar gyfer y rheini sy'n nesáu at eu harddegau cynnar. Canfu ACE ac ACS fod llawer o bobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc am weld eu grŵp oedran yn cael ei gynrychioli'n fwy cadarnhaol yn rhaglennu'r BBC.

Hysbyswyd yr Ymddiriedolaeth gan y Cynghorau o'r cryfder barn ymysg cynulleidfaoedd ar faterion pynciol. Roedd cefnogaeth i ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i gynnal y safonau golygyddol uchaf yn dilyn *The Russell Brand Show* a ddarlledwyd ar Radio 2 ar 18 Hydref. Trafodwyd dyfodol darlledu cyhoeddus yn dilyn arolwg gan Ofcom, ac adroddiad y Llywodraeth, Prydain Ddigidol. Cytunodd y Cynghorau fod cynulleidfaoedd am gael mwy nag un ffynhonnell o ddarlledu cyhoeddus, ond pwysleisiwyd na ddylid ei ariannu drwy ffi'r drwydded.

### CYFLAWNI'R PWRPASAU CYHOEDDUS

Mae'r Cynghorau yn cynghori'r Ymddiriedolaeth ar ba mor dda mae'r BBC yn cyflawni ei chwe phwrpas cyhoeddus (gweler tudalennau 22 i 32).

#### Creadigrwydd


Pwysleisiodd ACNI y pwys a rydd cynulleidfaoedd ar gynnwys nodedig a chreadigol gan y BBC. Nododd ACE y gallai adloniant a chomedi, o'r cyfarwydd i'r arloesol, apelio at amrywiaeth eang o grwpiau cynulleidfa a chyfrannu at ragoriaeth ddiwylliannol.

## CYNGHORAU CYNULLEIDFA CENEDLAETHOL

- 1-12 LLOEGR
- 13 YR ALBAN
- 14 GOGLEDD IWERDDON
- 15 CYMRU

## ARDALOEDD CYNGHORAU CYNULLEIDFA RHANBARTHOL

1 GOGLEDD-DDWYRAIN LLOEGR
2 GOGLEDD-ORLLEWIN LLOEGR
3 SWYDD EFROG
4 GORLLEWIN CANOLBARTH LLOEGR
5 DWYRAIN CANOLBARTH LLOEGR
6 DWYRAIN SWYDD EFROG A SWYDD LINCOLN
7 DWYRAIN LLOEGR
8 DE-ORLLEWIN LLOEGR
9 GORLLEWIN LLOEGR
10 DE LLOEGR
11 LLUNDAIN
12 DE-DDWYRAIN LLOEGR




### Cymuned

Arweiniodd camau gweithredu'r Ymddiriedolaeth ar ôl yr arolwg o natur ddiduedd at rai gwelliannau o ran cynrychioli gwleidyddiaeth yn y pedair gwlad, ond nid oedd newyddion rhwydwaith yn adlewyrchu'r DU gyfoes o hyd gyda'r cwmpas a'r cywirdeb a ddisgwylir gan y BBC. Dylai symud cynyrchiadau i Salford helpu'r BBC i ymgysylltu'n fwy effeithiol â chynulleidfaoedd yng ngogledd Lloegr. Cyfrannodd lansiad BBC ALBA yn gryf at y pwrpas hwn yn yr Alban, ynghyd â rhaglennu newydd Gwyddeleg a Sgoteg Ulster yng Ngogledd Iwerddon.

Fodd bynnag, nododd y Cynghorau waith ymchwil yr Ymddiriedolaeth a oedd yn dangos, yn gyffredinol, nad yw cynulleidfaoedd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn credu bod y BBC yn adlewyrchu eu hardaloedd yn ddigonol. Yn Lloegr, nododd ACE y diffyg cynyrchiadau rhwydwaith yn nwyrain Lloegr, o Newcastle i Essex.

### Dinasyddiaeth

Mewn blwyddyn o argyfwng economaidd, cymeradwyodd y Cynghorau y rôl a chwaraewyd gan BBC Newyddion a materion cyfoes o ran darparu dadansoddiad diduedd, manwl o ddigwyddiadau wrth iddynt ddigwydd. Tanlinellodd y Cynghorau werth newyddiaduraeth y BBC a rhaglennu cyffredinol i gynulleidfaoedd lleol a rhanbarthol.

### Dysgu

Cymeradwyodd y Cynghorau yr amrywiaeth eang o raglennu o safon a oedd yn ategu dysgu anffurfiol. Croesawodd ACS lansiad BBC ALBA fel adnodd ar gyfer dysgwyr Gaeleg, a chydag is-deitlau, fel adnodd diwylliannol ehangach ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn deall Gaeleg. Ar ôl atal y gwasanaeth dysgu ar-lein BBC Jam, croesawodd ACW ac ACS gynlluniau i ryddhau cynnwys Cymraeg a Gaeleg i'w ailddefnyddio mewn mannau eraill.

### Byd-eang

Nododd ACW y dylai gwerthu *Doctor Who* a *Torchwood* i tua 40 o wledydd godi proffil Cymru ledled y byd.

### Digidol

Croesawodd ACW ac ACS y rhyngwynebau Cymraeg a Gaeleg ar BBC iPlayer. Fodd bynnag, erys heriau cyfathrebu a dosbarthu mawr o hyd, o'r broses o newid i ddigidol i'r broses o gyflwyno DAB a diffyg gwasanaeth band eang mewn rhai ardaloedd o'r DU.

## BLAENORIAETHAU AR GYFER Y FLWYDDYN I DDOD

Cytunodd y Cynghorau ar flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac fe'u mabwysiadwyd gan yr Ymddiriedolaeth. Yn eu plith mae:

- gweithio tuag at well mynediad i holl gynnwys y BBC ar lwyfannau digidol
- monitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau'r BBC ar gyfer cynyddu cynyrchiadau teledu rhwydwaith o'r tu allan i Lundain
- gwella'r ffordd y mae'r BBC yn portreadu amrywiaeth y DU
- monitro darllediadau newyddion rhwydwaith o'r gwledydd datganoledig, a gwella gwasanaethau lleol a rhanbarthol.

# PWRPASAU/



## BETH YW'R PWRPASAU?

**Cenhadaeth y BBC yw hysbysu, addysgu a difyrru. O dan delerau'r Siarter a'r Cytundeb, drwy ei allbwn, mae'n rhaid i'r BBC hyrwyddo'r chwe phwrpas cyhoeddus canlynol:**

- ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol
- cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau
- cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas waraidd
- hyrwyddo addysg a dysgu
- cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU
- helpu i gyflwyno buddiannau technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd

## EIN RÔL O RAN HYRWYDDO'R PWRPASAU

**Un o rwymedigaethau'r Ymddiriedolaeth yw pennu cylch gwaith ar gyfer pob pwrpas cyhoeddus (a grynhoir ar y tudalennau canlynol). Mae gan bob cylch gwaith restr o flaenoriaethau sy'n nodi'r hyn y mae angen i'r BBC ei wneud i hyrwyddo'r pwrpas hwnnw, ac rydym yn mesur perfformiad y BBC yn eu herbyn, gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:**

- arolwg blynyddol yn olrhain canfyddiadau cynulleidfaoedd o ran pa mor dda y mae'r BBC yn cyflawni ei bwrpasau. Rydym yn gofyn i gynulleidfaoedd pa mor bwysig yw pob blaenoriaeth o bob cylch gwaith iddynt hwy a pha mor dda y mae'r BBC yn cyflawni'r blaenoriaethau yn eu barn hwy. Lle ceir gwahaniaeth rhwng y ddwy sgôr, cyfeiriwn at hyn fel y 'bwlch perfformiad'
- ymchwil ansoddol ychwanegol (ar gyfer rhai blaenoriaethau na chânt eu cynnwys yn yr arolwg)
- dadansoddiad o ddata eilaidd gan Ofcom a Digital UK (ar gyfer y blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â'r chweched pwrpas)
- data perfformiad cyffredin gan y BBC
- amrywiaeth eang o weithgareddau eraill, yn cynnwys arolygon gwasanaeth, profion gwerth cyhoeddus ac arolygon o natur ddiduedd/safonau, sy'n ein helpu i ddeall pa mor dda y mae'r BBC yn cyflawni rhai o'r blaenoriaethau allweddol

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu'r cylchoedd gwaith pwrpas yn 2011/12 er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol o hyd.

# YSGOGI CREADIGRWYDD A RHAGORIAETH DDIWYLLIANNOL

**Gallwch ddisgwyl i'r BBC gynnig yr enghreifftiau gorau o waith creadigol sy'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd ac yn eu difyrru, yn torri tir newydd ac yn annog diddordeb mewn gweithgareddau diwylliannol, creadigol a chwaraeon.**

Penawdau 2008/09

- blaenoriaeth bwysicaf y BBC yw gwella perfformiad wrth gynhyrchu syniadau ffres a newydd; dyma fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar ganfyddiadau bod y BBC yn cynnig gwerth am arian
- mae gwasanaethau plant y BBC yn cynhyrchu cynnwys nodedig a chreadigol
- mae 'Cyfle i Gystadlu'n Greadigol' y BBC yn helpu i feithrin ymagwedd agored at syniadau a chreadigrwydd



CREADIGRWYDD/

# CYMUNED/



## CYNRYCHIOLI'R DU, EI GWLEDYDD, EI RHANBARTHAU A'I CHYMUNEDAU

**Gallwch ddibynnu ar y BBC i adlewyrchu'r cymunedau niferus sy'n bodoli yn y DU. Gall y cymunedau hyn fod yn seiliedig ar ddaearyddiaeth, ar ffydd, ar iaith, neu ar ddiddordeb a rennir fel chwaraeon. Gallwch ddisgwyl i'r BBC ysgogi trafodaeth o fewn cymunedau yn y DU a rhyngddynt ac annog pobl i gymryd rhan yn eu cymunedau lleol.**

Penawdau 2008/09

- gallai'r BBC wneud mwy i gynrychioli gwledydd, rhanbarthau neu gymunedau cynulleidfaoedd i weddill y DU
- cymeradwywyd targedau mwy heriol ar gyfer rhaglennu rhwydwaith ar gyfer y Gwledydd a'r Rhanbarthau
- cymeradwywyd buddsoddiad newydd mewn rhaglennu a chynnwys lleol

# CYNNAL DINASYDDIAETH A CHYMDEITHAS WARAIDD

**Gallwch ymddiried yn y BBC i ddarparu rhaglennu newyddion, materion cyfoes a ffeithiol o safon sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ac yn cynnal trafodaeth am faterion pwysig a datblygiadau gwleidyddol mewn ffordd ddiddorol. Gallwch droi at y BBC am help i ddefnyddio a deall mathau gwahanol o gyfryngau.**

Penawdau 2008/09

- mae cynulleidfaoedd am i'r BBC wneud mwy i'w helpu i ddeall gwleidyddiaeth yn eu gwlad neu ranbarth
- mae'r BBC wedi gwella perfformiad o ran darparu rhaglennu newyddion a materion cyfoes annibynnol o safon; mae'r rhain yn gynyddol bwysig i gynulleidfaoedd
- mae'r BBC yn cael trafferth cyrraedd cynulleidfaoedd iau, llai cefnog drwy gynnwys newyddion – mae angen rhoi hwb i gynulleidfaoedd ar gyfer rhaglennu plant sy'n cyflawni'r diben hwn







# DINASYDDIAETH/

# DYSGU/





## HYRWYDDO ADDYSG A DYSGU

**Gallwch ddibynnu ar y BBC i helpu pawb yn y DU i ddysgu. Un o rolau pwysig y BBC yw cefnogi addysg ffurfiol mewn ysgolion a cholegau. Hefyd, bydd y BBC yn cynnig ffyrdd diddorol i bawb yn y DU gynyddu eu gwybodaeth a'u sgiliau ar draws amrywiaeth eang o bynciau.**

Penawdau 2008/09

- darparu cynnwys ar gyfer addysg ffurfiol yw un o'r blaenoriaethau pwysicaf i rieni plant o dan 16 oed
- mae cynulleidfaoedd yn gadarnhaol ynghylch cyfraniad y BBC at ddysgu ond ceir bwlch mawr mewn perfformiad o hyd
- mae'r gwaith o adolygu darpariaeth ddysgu ffurfiol yn mynd rhagddo er mwyn nodi sut y gall y BBC ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn well
- mae cynulleidfaoedd wedi gweld gwelliant yn y modd y mae'r BBC yn eu hannog i ddysgu'n anffurfiol ynghylch amrywiaeth o bynciau a materion

# CYFLWYNO'R DU I'R BYD A'R BYD I'R DU

**Gallwch ddibynnu ar y BBC i ddarparu gwasanaethau newyddion a berchir yn rhyngwladol i gynulleidfaoedd ledled y byd. Gallwch ddisgwyl i'r BBC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sy'n digwydd yn y byd, gan roi cipolwg ar y ffordd mae pobl yn byw mewn gwledydd eraill.**

Penawdau 2008/09

- mae cyflwyno'r byd i'r DU yn bwysig iawn i gynulleidfaoedd, ac mae'r BBC yn perfformio'n dda
- cynyddodd cyrhaeddiad World Service yn gyffredinol, yn rhannol yn sgîl gwasanaeth teledu newydd BBC Arabic, ond gwrthbwyswyd hyn gan gynulleidfaoedd llai ar gyfer radio World Service a theledu BBC World News
- mae gwasanaeth teledu BBC Arabic yn diwallu anghenion y gynulleidfa darged yn gyffredinol



BYD-EANG/

# DIGIDOL/



## HELPU I GYFLWYNO BUDDIANNAU TECHNOLEGAU A GWASANAETHAU CYFATHREBU NEWYDD

**Gallwch ddisgwyl i'r BBC helpu pawb yn y DU i fanteisio i'r eithaf ar dechnolegau cyfryngau newydd nawr ac yn y dyfodol.**

Penawdau 2008/09

- ystyrir bod rôl y BBC o ran sicrhau bod cynnwys digidol diddorol ar gael yn llai pwysig i gynulleidfaoedd na'r pwrpasau eraill, ond mae hyn yn newid
- ymgynghoriad ar Brosiect Canvas – menter i alluogi pobl i wylio cynnwys ar alw a chynnwys rhyngrwyd ar y teledu
- parhaodd y broses o newid i ddigidol ar draws rhanbarth y gororau

# SUT Y CYFLAWNIR Y PWRPASAU

## YSGOGI CREADIGRWYDD A RHAGORIAETH DDIWYLLIANNOL

**Gallwch ddisgwyl i'r BBC gynnig yr enghreifftiau gorau o waith creadigol sy'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd ac yn eu difyrru, yn torri tir newydd ac yn annog diddordeb mewn gweithgareddau diwylliannol, creadigol a chwaraeon.**

Blaenoriaeth bwysicaf y BBC yw darparu allbwn nodedig gyda llawer o syniadau ffres a newydd. Mae ein gwaith eleni wedi cyflwyno rhywfaint o dystiolaeth gadarnhaol o gyflawniadau mewn perthynas â hyn. Dywedodd rhieni plant ifanc wrthym eu bod yn credu bod CBeebies yn nodedig ac mae cynulleidfaoedd iau yn credu bod BBC Three yn arloesol ac yn cymryd risgiau. Canfuwyd hefyd bod BBC Radio 1 yn gwneud cyfraniad cryf o ran cyflawni'r pwrpas hwn drwy ei rôl yn hyrwyddo artistiaid cerddorol newydd yn y DU. Mae gwrandawyr yn rhoi gwerth arbennig o uchel ar ei raglenni a digwyddiadau cerddoriaeth fyw. Mae ein hymchwil i ansawdd a gwreiddioldeb yn nodi'r cynnwys teledu y mae cynulleidfaoedd yn ystyried sydd o'r safon uchaf ac sydd fwyaf gwreiddiol. (Gweler yr adran perfformiad gwasanaethau am ragor o fanylion.) Er bod arwyddion cynnar yn awgrymu gwelliant, mae disgwyliadau cynulleidfaoedd wedi cynyddu, sy'n golygu bod y bwlch perfformiad y mae angen i'r BBC fynd i'r afael ag ef yn fawr o hyd.





### Cyflawni gwerth am arian

Rydym wedi canfod mai gwelliannau o ran cyflwyno syniadau ffres a newydd, ac ystod eang o gynnwys sy'n rhoi difyrrwch a mwynhad, fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar ganfyddiadau cyffredinol o'r gwerth am arian a gyflawnir gan y BBC. Bydd ein harolygon o BBC One, BBC Two a BBC Four yn ddiweddarach eleni yn ein galluogi i asesu ymhellach berfformiad y BBC yn y maes allweddol hwn.

### Talent

Mae gan y BBC rôl o fewn y pwrpas creadigrwydd i feithrin a chefnogi talent yn y DU. Canfu ein harolwg o'r 'Cyfle i Gystadlu'n Greadigol' fod y fenter hon yn helpu i feithrin dull agored o weithredu ar gyfer syniadau a chreadigrwydd ar draws diwydiant creadigol y DU, ac y caiff comisiynau mewnol ac annibynnol eu trin yn gyfartal. Ni chanfu ein harolwg o gostau talent (gweler tudalen 36) unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y BBC yn talu mwy na phris y farchnad am brif dalent teledu na'i fod yn gwthio prisiau i fyny yn systematig. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu sut mae'r BBC yn annog ac yn defnyddio talent newydd.

### Gweithgareddau diwylliannol

Mae gan chwaraeon a ffilmiau rôl bwysig i'w chwarae yng nghanfyddiadau cynulleidfaoedd o ba mor dda ac eang y mae'r BBC yn rhoi sylw i weithgareddau diwylliannol. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried darllediadau'r BBC o ddigwyddiadau chwaraeon mawr fel rhan o ymgynghoriad ehangach gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a byddwn yn dechrau ar arolwg o strategaeth ffilm y BBC maes o law.

## CYNRYCHIOLI'R DU, EI GWLEDYDD, EI RHANBARTHAU A'I CHYMUNEDAU

**Gallwch ddibynnu ar y BBC i adlewyrchu'r cymunedau niferus sy'n bodoli yn y DU. Gall y cymunedau hyn fod yn seiliedig ar ddaearyddiaeth, ar ffydd, ar iaith, neu ar ddiddordeb a rennir fel chwaraeon. Gallwch ddisgwyl i'r BBC ysgogi trafodaeth o fewn cymunedau yn y DU a rhyngddynt, ac annog pobl i gymryd rhan yn eu cymunedau lleol.**

Mae cynulleidfaoedd yn teimlo bod gwendidau yn y ffordd y mae'r BBC yn cynrychioli'r gwledydd, y rhanbarthau a'r cymunedau gwahanol i bobl eraill yn y DU. Nododd ein harolwg o gyflenwadau rhwydwaith fod sicrhau y cynrychiolir y Gwledydd a'r Rhanbarthau yn well eisoes yn flaenoriaeth i'r BBC, ac rydym wedi cytuno ar dargedau mwy heriol ar gyfer cynyrchiadau rhwydwaith yn y gwledydd. Eleni byddwn hefyd yn gweithio gyda'n Cynghorau Cynulleidfa i archwilio sut y caiff cymunedau amrywiol y DU eu portreadu ar yr awyr.

### Cynnwys lleol

Mae gorsafoedd radio'r gwledydd a radio lleol y BBC yn chwarae rhan allweddol yn y pwrpas hwn. Er gwaethaf hyn, mae llawer o gynulleidfaoedd yn teimlo nad yw'r BBC yn darparu cynnwys digonol ar gyfer eu gwlad, rhanbarth neu gymuned. Drwy ein harolwg o wasanaethau plant, gwnaethom roi sylw i sut y gallai'r Bwrdd Gweithredol wella apêl cynnwys plant mewn cartrefi lleiafrifoedd ethnig. Gobeithiwn y bydd lansiad gwasanaeth cyfryngau Gaeleg y BBC, BBC ALBA, ym mis Medi 2008 yn gwella canfyddiadau o'r flaenoriaeth hon ymysg cynulleidfaoedd yn yr Alban. Ymhellach, dylai cynigion y Bwrdd Gweithredol ar gyfer gwasanaethau teledu a radio gwell ar gyfer y Gwledydd a'r Rhanbarthau, y gwnaethom eu cymeradwyo'n gyffredinol ym mis Ebrill 2009, helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.







"Mae pobl ym mhob cwr o'r byd yn troi at y BBC i gael newyddion." †

## CYNNAL DINASYDDIAETH A CHYMDEITHAS WARAIDD

**Gallwch ymddiried yn y BBC i ddarparu rhaglennu newyddion, materion cyfoes a ffeithiol o safon sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ac yn cynnal trafodaeth am faterion pwysig a datblygiadau gwleidyddol mewn ffordd ddiddorol. Gallwch droi at y BBC am help i ddefnyddio a deall mathau gwahanol o gyfryngau.**

Mae cynulleidfaoedd yn canmol y BBC o ran darparu newyddion a materion cyfoes o safon, ond mae eu disgwyliadau yn uchel hefyd. Felly erys y ddarpariaeth newyddion yn flaenoriaeth allweddol i'r Ymddiriedolaeth a byddwn yn trafod ei safon gyda'r Bwrdd Gweithredol yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gan gadw mewn cof y gofyniad rydym wedi'i roi ar bob is-adran o'r BBC i gwtogi gwariant yn sylweddol heb amharu ar y safon.

### Cynulleidfaoedd iau

Canfu ein harolwg o wasanaethau i gynulleidfaoedd iau fod BBC Newyddion yn cael trafferthion arbennig cyrraedd cynulleidfaoedd iau, llai cefnog. Mae ein hymchwil hefyd wedi dangos bod oedolion ifanc yn credu fwyfwy y gallai'r BBC wneud mwy i ennyn eu diddordeb mewn newyddion a materion cyfoes. Mae mynd i'r afael â'r mater hwn yn her gynyddol i'r BBC. Cododd ein harolwg o wasanaethau plant hefyd bryderon ynghylch y lleihad yng nghynulleidfaoedd *Newsround* ar CBBC. Rydym hefyd wedi gofyn i'r Bwrdd Gweithredol ddatblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'r pwrpas dinasyddiaeth drwy gynyddu cynulleidfaoedd rhaglennu sy'n cyflawni'r pwrpas hwn ar CBBC, a rhoi'r newyddion diweddaraf i ni ar y cynnydd a wnaed erbyn haf 2009.

### Deall gwleidyddiaeth

Mae cynulleidfaoedd (yn enwedig yn yr Alban) yn credu y gallai'r BBC wneud mwy i'w helpu i ddeall gwleidyddiaeth yn y gwledydd datganoledig. Bydd ein hymchwil i natur ddiduedd yn y gwledydd (y byddwn yn ei hailgomisiynu erbyn dechrau 2010) yn ein helpu i ddeall p'un a yw perfformiad y BBC o ran adrodd ar ddiddordebau a phrofiadau'r gwledydd datganoledig yn gwella.

### Llythrennedd y cyfryngau

Mae adroddiad interim y Llywodraeth, Prydain Ddigidol, wedi rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd llythrennedd y cyfryngau. Mae ein hymchwil yn awgrymu bod cynulleidfaoedd wedi gweld gwelliant ym mherfformiad y BBC o ran eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar dechnolegau newydd. Fodd bynnag, dim ond un elfen o lythrennedd y cyfryngau yw hyn ac ym mis Mehefin 2009 cymeradwywyd strategaeth llythrennedd y cyfryngau newydd gan y Bwrdd Gweithredol, a fydd yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein, gwella dealltwriaeth cynulleidfaoedd o sut y caiff cynnwys y cyfryngau ei gynhyrchu, ac annog ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar-lein.

## HYRWYDDO ADDYSG A DYSGU

**Gallwch ddibynnu ar y BBC i helpu pawb yn y DU i ddysgu. Un o rolau pwysig y BBC yw cefnogi addysg ffurfiol mewn ysgolion a cholegau. Hefyd, bydd y BBC yn cynnig ffyrdd diddorol i bawb yn y DU gynyddu eu gwybodaeth a'u sgiliau ar draws amrywiaeth eang o bynciau.**

Mae cynulleidfaoedd yn rhoi llawer o bwys ar rôl y BBC o ran hyrwyddo addysg a dysgu. Roedd rhieni, plant a phobl ifanc yn eu harddegau a ymatebodd i'n harolygon o wasanaethau plant a chynulleidfaoedd iau yn gadarnhaol ynghylch cyfraniad CBeebies a BBC Bitesize at ddysgu.

### Addysg ffurfiol

Ni wnaeth perfformiad y BBC o ran hyrwyddo a chefnogi addysg ffurfiol, un o'r blaenoriaethau pwysicaf i rieni a chanddynt blant o dan 16 oed, gyflawni'r disgwyliadau, ac mae angen i ni wneud mwy er mwyn deall pam. Rydym yn aros am ganlyniadau asesiad strategol a chynigion rheolwyr yn dilyn hynny ar sut y gellir gwella'r dysgu ffurfiol a ddarperir.

### Dysgu anffurfiol

Mae cynulleidfaoedd wedi gweld gwelliant yn y modd y mae'r BBC yn eu hannog i ddysgu'n anffurfiol am amrywiaeth o bynciau, ond mae rhieni yn credu y gallai'r BBC wneud mwy eto. Dangosodd ein harolwg o wasanaethau plant fod CBBC yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddysgu, er i'n harolwg o wasanaethau i gynulleidfaoedd iau ganfod nad ydynt yn canmol BBC Three gymaint.

### Gweithredu cymdeithasol

Mae'r BBC yn cynnal sawl ymgyrch ac apêl elusennol bob blwyddyn sydd â'r nod o gyflawni canlyniadau penodol sydd o fudd i gymdeithas. Roedd y cynulleidfaoedd a ymatebodd i'r ymgynghoriad fel rhan o'n harolwg o gynulleidfaoedd iau yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch yr ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol a gynhelir gan BBC Radio 1, er enghraifft ar iechyd meddwl a bwlio. Rydym yn cefnogi BBC Radio 1 yn ei nod i gyflawni amrywiaeth ehangach o amcanion pwrpas cyhoeddus drwy ei allbwn llafar a byddwn yn atgyfnerthu trwydded gwasanaeth yr orsaf er mwyn sicrhau y cynhelir nifer ofynnol o ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol bob blwyddyn.

† Aelod o'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad ar y BBC.









## CYFLWYNO'R DU I'R BYD A'R BYD I'R DU

**Gallwch ddibynnu ar y BBC i ddarparu gwasanaethau newyddion a berchir yn rhyngwladol i gynulleidfaoedd ledled y byd. Gallwch ddisgwyl i'r BBC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sy'n digwydd yn y byd, gan roi cipolwg ar y ffordd mae pobl yn byw mewn gwledydd eraill.**

Cred cynulleidfaoedd fod y BBC yn perfformio'n dda wrth wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion rhyngwladol ac ehangu eu profiad o ddiwylliannau gwahanol a bod y rôl hon yn un bwysig. Fodd bynnag, nododd ein harolwg o wasanaethau plant, er bod CBBC yn cynhyrchu amrywiaeth o gynnwys sy'n cyfrannu at y pwrpas hwn, bod y gostyngiad yn ffigurau gwylio *Newsround* a *Blue Peter* yn fygythiad i'r broses o gyflawni'r flaenoriaeth hon. Rydym wedi gofyn i'r Bwrdd Gweithredol fynd i'r afael â'r bygythiad hwn a chyflwyno adroddiad i ni gyda chynlluniau ar gyfer gwneud hynny erbyn haf 2009. Mae CBeebies hefyd yn cyfrannu at y pwrpas hwn drwy gyflwyno plant i wledydd a diwylliannau eraill. Byddwn yn diwygio trwydded gwasanaeth CBeebies i adlewyrchu'r cyfraniad hwn yn llawn a'i ddiogelu.

### Gwasanaeth Teledu BBC Arabic

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae ein hymchwil i'r pwrpas hwn wedi cwmpasu gwasanaeth teledu BBC Arabic a lansiwyd yn ddiweddar. Roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig cael gwell dealltwriaeth o'r gwasanaeth strategol hwn a'i heriau golygyddol. Canfuwyd bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion ei gynulleidfa darged yn dda yn gyffredinol (gweler yr adran ar berfformiad gwasanaethau am ragor o fanylion).




## HELPU I GYFLWYNO BUDDIANNAU TECHNOLEGAU A GWASANAETHAU CYFATHREBU NEWYDD

**Gallwch ddisgwyl i'r BBC helpu pawb yn y DU i fanteisio i'r eithaf ar dechnolegau cyfryngau newydd nawr ac yn y dyfodol.**

Yn gyffredinol nid yw cynulleidfaoedd yn ystyried bod rôl y BBC o ran sicrhau bod cynnwys a gwasanaethau digidol diddorol ar gael yn arbennig o bwysig. Fodd bynnag, mae hyn yn newid gyda chynulleidfaoedd iau er enghraifft yn gynyddol awyddus i gael gafael ar gynnwys y BBC drwy ffonau symudol. Mae cynulleidfaoedd hefyd o'r farn bod perfformiad y BBC o ran darparu cynnwys a gwasanaethau digidol diddorol yn wael o gymharu â'r pwrpasau eraill. Rydym wedi cymeradwyo darpariaeth y BBC o deledu manylder uwch ar bob llwyfan a gobeithiwn y bydd hyn yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar ganfyddiadau o argaeledd cynnwys digidol diddorol. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd cynulleidfaoedd yn gweld gwelliant ym mherfformiad BBC Online, yn enwedig o ran y cyfleuster llywio, ar ôl i ni gymeradwyo arian ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth.

### Partneriaethau

Mae angen partneriaethau gyda sefydliadau eraill er mwyn ymestyn buddiannau dulliau cyfathrebu newydd i'n cynulleidfaoedd. Ar hyn o bryd rydym yn asesu Prosiect Canvas, cynnig cyd-fenter gydag ITV a BT i hyrwyddo amgylchedd agored ar sail safonau ar gyfer dyfeisiau teledu digidol sydd â chysylltiad â'r rhyngrwyd. Os caiff ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth, bydd yn rhoi mynediad heb danysgrifiad i amryw o wasanaethau teledu ar alw (fel BBC iPlayer) a chynnwys ar y rhyngrwyd drwy flwch pen set newydd sydd â chysylltiad band eang. Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad ar Brosiect Canvas maes o law.

### Radio digidol

Mae cyrhaeddiad cenedlaethol radio digidol DAB yn 85% ar hyn o bryd ac mae'r BBC wedi nodi'n gyhoeddus y bydd hyn yn cynyddu i 90%. Yn ei adroddiad interim Prydain Ddigidol, mae'r Llywodraeth wedi nodi ei ddyhead i gyrhaeddiad DAB fod cystal â chyrhaeddiad FM. Nodwn dystiolaeth y BBC o ran y gostyngiad mewn elw a'r cynnydd mewn cost sy'n gysylltiedig ag ehangu'r cyrhaeddiad, ond rydym yn awyddus i'r Bwrdd Gweithredol barhau i archwilio sut i gryfhau cyrhaeddiad y rhwydwaith darlledu DAB.

# PERFFORMIAD GWASANAETHAU

## MAE GWASANAETHAU TELEDU, RADIO AC AR-LEIN WEDI RHOI DARPARIAETH DDA I GYNULLEIDFAOEDD ELENI AC MAE BARN CYNULLEIDFAOEDD AR SAFON GWASANAETHAU'R BBC YN DDA IAWN AR Y CYFAN, ER YR HOFFEM WELD MWY O UCHELGAIS A GWREIDDIOLDEB O HYD MEWN RHAI MEYSYDD O'R ALLBWN.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn asesu perfformiad y Bwrdd Gweithredol o ran darparu gwasanaethau'r BBC ac yn eu dwyn i gyfrif. Yma rydym yn adrodd ar eu perfformiad eleni, ym meysydd:

- Teledu
- Radio
- Ar-lein
- Newyddion
- The World Service

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio fframwaith mesur perfformiad pedair elfen y BBC. Mae'r fframwaith yn cynnwys pedair elfen gwerth cyhoeddus: cyrhaeddiad (faint o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau bob wythnos); ansawdd (canfyddiadau defnyddwyr o'r gwasanaethau); effaith (ymwybyddiaeth o'r pwrpasau cyhoeddus a'u cyflawni – ni chaiff hyn ei fesur bob blwyddyn ar gyfer pob gwasanaeth ar hyn o bryd); a gwerth am arian (caiff ei fesur yn ôl cost fesul awr defnyddiwr fel arfer).

### TELEDU

Er gwaethaf poblogrwydd cynyddol ffyrdd newydd o wylio cynnwys teledu, fel drwy'r iPlayer, gwelwyd cynnydd o dros 20 munud yr wythnos o amser gwylio teledu traddodiadol neu 'linellol' cyfartalog eleni i dair awr 45 munud y dydd.

#### Cyrhaeddiad

Mae cyrhaeddiad yn ffactor pwysig o ran gallu'r BBC i hyrwyddo ei bwrpasau cyhoeddus. Er gwaethaf y dewis anferth o sianelau sydd ar gael mewn cartrefi digidol, mae tua 85% o'r boblogaeth yn gwylio o leiaf 15 munud olynol o deledu'r BBC bob wythnos o hyd.

#### Safon a gwreiddioldeb

Mae ein hasesiad o berfformiad y Bwrdd Gweithredol o ran hyrwyddo'r pwrpasau cyhoeddus (gweler tudalennau 30 i 32) wedi dangos bod cynulleidfaoedd yn parhau i roi'r pwys mwyaf ar gynnwys y BBC sy'n nodedig am ei safon a'i wreiddioldeb. Mae cynulleidfaoedd yn disgwyl i'r BBC ddarparu cynnwys gwreiddiol o safon ym mhob genre o raglennu. Er bod perfformiad y BBC wedi gwella, mae disgwyliadau cynulleidfaoedd wedi codi, sy'n golygu bod bwlch perfformiad mawr o hyd. Credwn mai mynd i'r afael â'r bwlch hwn yw blaenoriaeth bwysicaf y BBC.

#### Canfyddiadau o raglenni 'o safon'

Sgoriodd amrywiaeth o raglenni'r BBC yn uchel o ran safon. Mae rhaglenni byd natur a bywyd gwyllt fel *Tiger, Spy in the Jungle* a *Nature's Great Events* (BBC One) yn parhau i gael y sgorau uchaf, a gwnaeth mathau eraill o raglenni dogfen, fel *Anne Frank Remembered* ar BBC Four, argraff dda hefyd. Sgoriodd dramâu fel *A Short Stay in Switzerland* a *Doctor Who* (BBC One), a rhaglenni a fewnforiwyd o America fel *Heroes* (BBC Three), yn uchel hefyd.

#### Canfyddiadau o raglenni 'gwreiddiol a gwahanol'

Roedd cynulleidfaoedd o'r farn bod amrywiaeth eang o raglenni yn 'wreiddiol a gwahanol'. Cafwyd canmoliaeth fawr i raglenni ffeithiol a materion cyfoes. Cafodd rhaglenni dogfen fel *Iran and the West* (BBC Two), *Blood Sweat and T-Shirts* (BBC Three) ac *Absolutely Chuffed – The Men Who Built a Steam Engine* (BBC Four) sgorau uchel am wreiddioldeb.

Mae comedi yn bwysig o ran cyflwyno syniadau gwreiddiol i gynulleidfaoedd. Sgoriodd llwyddiannau'r llynedd, yn cynnwys *The Mighty Boosh* (BBC Three) ac *Outnumbered* (BBC One) yn uchel eto eleni, ynghyd â theitlau fel *Ideal* a *Summer Heights High* ar BBC Three. Fodd bynnag, mae'r sgorau yn amrywio'n eang ar gyfer rhaglenni comedi, ac rydym yn cydnabod nad yw cymryd risgiau creadigol bob amser yn arwain at raglenni y mae cynulleidfaoedd yn ystyried eu bod o safon.

Sgoriodd rhai dramâu o'r DU yn dda am eu gwreiddioldeb: *A Short Stay in Switzerland* a *Criminal Justice* (BBC One), *God On Trial* (BBC Two), *Being Human* (BBC Three) a *Taking Over the Asylum* (BBC Four). Fodd bynnag, nid ystyrir bod nifer o ddramâu hirsefydledig y BBC yn arbennig o wreiddiol, er yr ystyrir eu bod o safon. Hoffem weld mwy o amrywiaeth ac uchelgais ar draws pob math o ddrama ar y BBC.

#### Canfyddiadau o raglenni nad ydynt yn wreiddiol nac o safon

Rhaglenni clip neu restr, rhai rhaglenni realiti a rhaglenni sy'n deillio o raglenni eraill sy'n parhau i gael y sgorau isaf o ran safon a gwreiddioldeb.

#### Arolwg gwasanaethau teledu'r Ymddiriedolaeth

Rydym yn falch bod y BBC wedi dechrau defnyddio mesurau safon a gwreiddioldeb i lywio ei ddealltwriaeth o'r ffordd orau o gyflawni disgwyliadau cynulleidfaoedd o ran safon a gwreiddioldeb. Byddwn yn archwilio'r maes hwn yn fanylach yn ein harolwg o wasanaethau teledu yn ddiweddarach yn 2009 er mwyn ein helpu i bennu sut y gellir gwella perfformiad yn y maes hwn ymhellach.

#### Perfformiad fesul sianel

#### BBC One

BBC One yw'r sianel a gaiff ei gwylio fwyaf yn y DU o hyd, er bod y cyrhaeddiad wedi gostwng ychydig iawn eleni ac mae nifer y plant a'r oedolion ifanc sy'n gwylio yn parhau i ostwng yn gynt na chyfradd yr oedolion.

Mae BBC One yn ffactor pwysig iawn sy'n llywio canfyddiadau cynulleidfaoedd o'r BBC yn gyffredinol. Er bod barn cynulleidfaoedd o BBC One wedi gwella, ac yr ymddengys bod mesurau eraill yr arolwg

sy'n ymwneud â safon yn gryf, credwn fod gan y sianel ran allweddol i'w chwarae yn y broses o gau bwlch perfformiad cyffredinol y BBC o ran safon a gwreiddioldeb.

Y llynedd amlygwyd yr angen i BBC One adfywio ei rhaglennu drama ac adloniant. Gwelwyd lefelau cymeradwyaeth uchel gan gynulleidfaoedd ar gyfer cyfresi drama newydd fel *Criminal Justice* a *The Diary of Anne Frank*. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, credwn fod cyfleoedd o hyd ar gyfer Teledu'r BBC, yn cynnwys BBC One, i ddatblygu dramâu newydd o safon ac i ddangos mwy o amrywiaeth ac uchelgais greadigol.

Mae comedi yn rhan bwysig arall o gymysgedd rhaglenni BBC One. Cafodd BBC One rai llwyddiannau eleni, yn bennaf yr ail gyfres o *Outnumbered*, a *My Family* yw'r comedi sefyllfa a gaiff ei wylio fwyaf ar deledu Prydain o hyd. Erys cyflawni disgwyliadau cynulleidfaoedd ar gyfer comedi o safon cyn y trothwy gwylio yn her i'r sianel ac mae canfyddiadau cynulleidfaoedd mai BBC One yw'r sianel orau ar gyfer comedi wedi gostwng.

Byddwn yn adolygu perfformiad BBC One yn ddiweddarach eleni fel rhan o'n harolwg o wasanaethau teledu.

### BBC Two

Roedd y cyrhaeddiad yn sefydlog eleni. Y brif her i BBC Two, a adlewyrchir yn yr ymchwil i gynulleidfaoedd a gynhaliwyd yn 2007, yw darparu rhaglenni o ddyfnder a sylwedd y gall cynulleidfaoedd nodi eu bod yn wahanol i BBC One. Mae rhai rhannau o'r amserlen wedi cyflawni hyn, yn benodol ar nos Sadwrn lle mae rhaglennu ffeithiol y sianel wedi cynnig dewis amgen i'r rhaglenni adloniant a gynigir ar sianelau eraill. Credwn fod cyfleoedd i BBC Two weithredu yn yr un ffordd ar draws genres eraill a rhannau eraill o'r amserlen er mwyn cynnig dewis amgen sy'n gyson wahanol i sianelau teledu eraill.

Credwn fod drama a chomedi yn chwarae rhan bwysig ar BBC Two, a byddwn yn ystyried eu rolau, ynghyd ag allbwn ffeithiol, pan fyddwn yn ystyried perfformiad y sianel yn ddiweddarach eleni fel rhan o'n harolwg o wasanaethau teledu.

### BBC Three

Mae BBC Three wedi cynyddu ei chyrhaeddiad ymysg ei chynulleidfa darged ifanc. Adolygwyd y sianel yn erbyn ei thrwydded gwasanaeth eleni a'r prif gasgliad oedd bod y sianel wedi datblygu i fod yn rhan bwysig o bortffolio teledu'r BBC drwy ei chyrhaeddiad i gynulleidfaoedd iau a'i rôl o ran comisiynu rhaglenni newydd sy'n cymryd risgiau creadigol. Ceir manylion llawn yr arolwg hwn ar ein gwefan, bbc.co.uk/bbctrust

### BBC Four

Gwelwyd cynnydd bach yng nghyrhaeddiad BBC Four eleni, ac mae ei gwylwyr yn ei gwerthfawrogi'n fawr. Fel rhan o'n harolwg o BBC Four yn ddiweddarach eleni, byddwn yn ystyried p'un a yw'r cynlluniau i feithrin cydberthynas agosach gyda BBC Two, a gymeradwywyd gennym yn 2007, yn llwyddo i wella ymwybyddiaeth o BBC Four a helpu cynulleidfaoedd i fanteisio ar yr allbwn hwn.

### BBC ALBA

Ym mis Medi 2008, yn dilyn prawf gwerth cyhoeddus, lansiodd y BBC BBC ALBA sy'n darlledu rhaglenni Gaeleg ar loeren a chebl. Byddwn yn cynnal arolwg o berfformiad BBC ALBA yn ddiweddarach eleni, cyn y broses o newid i ddigidol yn yr Alban.

### S4C

Mae'r BBC yn darparu rhaglenni Cymraeg i S4C, yn cynnwys ei bwletin newyddion, *Newyddion*, a'r opera sebon *Pobol y Cwm*. Rydym yn falch bod y rhain yn parhau i fod ymysg y rhaglenni mwyaf poblogaidd ar y sianel. Fodd bynnag rydym yn pryderu nad yw'r rhan fwyaf o wylwyr S4C yn ymwybodol mai'r BBC sy'n cyflenwi'r rhaglenni hyn. Bydd yr arolwg o'n cytundeb ag S4C yn ddiweddarach eleni yn rhoi cyfle i ni ystyried beth yw'r ffordd orau o sicrhau bod cynulleidfaoedd yn deall sut mae ffi'r drwydded yn cael ei gwario ar S4C.

### CBBC a CBeebies

Mae'r BBC yn perfformio'n dda iawn yn gyffredinol o ran gwasanaethau a chynnwys i blant, fel y nodwyd yn ein harolwg o wasanaethau plant eleni. Mae'r sianelau digidol CBeebies a CBBC yn gwneud cyfraniad pwysig i bwrpasau cyhoeddus y BBC ac yn cynnig gwerth da am arian.


Darparu cynnwys y gall plant ei fwynhau a dysgu ohono yw un o swyddogaethau gwasanaeth cyhoeddus craidd y BBC ac mae'n swyddogaeth a gefnogir yn llawn gan yr Ymddiriedolaeth. Er mwyn sicrhau bod y BBC yn parhau i gynhyrchu allbwn ardderchog rydym wedi nodi rhai meysydd y mae angen gwella arnynt. Canfu ein harolwg fod ffigurau gwrando ar gyfer radio i blant yn isel, fod y defnydd a wneir o wefan CBBC yn gostwng ac i lefelau cynulleidfaoedd ar gyfer rhaglenni allweddol fel *Newsround* a *Blue Peter* ostwng pan symudwyd rhaglenni plant i amser cynharach yn amserlen BBC One yn y prynhawn. Nodwyd hefyd risgiau allweddol a phwysau yn ymwneud â'r gyllideb a allai danseilio perfformiad yn y dyfodol pe na chaent eu gwirio. Dros y misoedd nesaf byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Gweithredol i fynd i'r afael â'r materion hyn a sicrhau mai'r BBC yw conglfaen ar gyfer rhaglennu o safon i blant yn y DU o hyd.


## RADIO

Eleni cafwyd cynnydd yn nifer y bobl sy'n gwrando ar Radio'r BBC yn fyw drwy'r rhyngrwyd. Mae gwrando ar alw yn boblogaidd, yn enwedig o ran cynnwys llafar, gyda rhaglenni BBC Radio 4 a BBC 7 yn gyfrifol am dros hanner y ceisiadau am gynnwys sain ar iPlayer.

### Perfformiad fesul gorsaf

- **BBC Radio 1 a BBC 1Xtra:** cwblhawyd arolygon o'r gorsafoedd hyn gennym ym mis Mehefin; mae'r manylion ar gael ar ein gwefan. Mae Radio 1 yn benodol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo pwrpasau cyhoeddus y BBC ymysg pobl ifanc, a gwnaethom gyfres o argymhellion y gobeithiwn y byddant yn ei galluogi i barhau i wneud hynny.
- **BBC Radio 2 a BBC 6 Music:** rydym yn ystyried perfformiad y gorsafoedd hyn fel rhan o'u harolygon o drwyddedau gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion ar ein gwefan.
- **BBC Radio 3:** ar ddiwedd y flwyddyn gwelwyd ei ffigurau cynulleidfa uchaf ers diwedd 2006, sef ychydig o dan ddwy filiwn o oedolion. Mae gwrandawyr yn werthfawrogol iawn o safon rhaglennu'r orsaf.
- **BBC Radio 4:** cofnododd ei chyfran uchaf o wrandawyr ers sawl blwyddyn – 12.5% rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2009. Cyfrannodd yr agenda newyddion gryf at ei pherfformiad, ond rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd a chryfderau rhannau eraill o'r amserlen, fel rhaglenni dogfen, rhaglenni nodwedd, drama a chomedi. Credwn fod Radio 4 wedi gallu adfywio ei hamserlen a chynnal manylder deallusol ar yr un pryd.
- **BBC Radio 5 live a 5 live sports extra:** cafodd y gorsafoedd hyn flwyddyn lwyddiannus, a oedd yn cynnwys darllediadau helaeth o Gemau Olympaidd Beijing. Mae'n syndod nad arweiniodd y Gemau Olympaidd at gynnydd sylweddol mewn cyrhaeddiad. Rydym yn tybio bod hyn oherwydd poblogrwydd y cynnwys a gynigiwyd ar BBC Online.
- **BBC 7:** gorsaf radio ddigidol yn unig fwyaf poblogaidd y BBC, gyda chyrhaeddiad wythnosol o ychydig o dan filiwn o oedolion. Mae'r orsaf yn denu nifer uchel iawn o geisiadau i wrando eto ar-lein, ac mae'r sioeau yn yr archif yn arbennig o boblogaidd.
- **BBC Asian Network:** gostyngodd y cyrhaeddiad eleni. Rydym wedi trafod cynlluniau'r Bwrdd Gweithredol i fynd i'r afael â hyn ac rydym yn disgwyl gweld rhywfaint o welliant mewn cyrhaeddiad y flwyddyn nesaf.







"Mae'n hanfodol bod y BBC yn parhau i fod yn annibynnol ac yn ddiduedd."*

- **Gorsafoedd radio lleol yn Lloegr:** mae'r lefelau gwrando ar y 40 o orsafoedd radio lleol y BBC yn Lloegr yn amrywio'n eang ond cafwyd gostyngiad graddol yn niferoedd cynulleidfaoedd llawer o'r gorsafoedd hyn. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn mynd i'r afael â hyn a byddwn yn edrych ar ganlyniad eu cynlluniau'r flwyddyn nesaf.
- **BBC Radio Ulster/Foyle:** hon yw'r orsaf radio fwyaf poblogaidd yng Ngogledd Iwerddon o hyd gan gynnig amrywiaeth eang o raglenni ac yn sgorio'n dda ar gyfer mesurau safon.
- **BBC Radio Scotland:** sefydlogodd y gostyngiad hirdymor mewn niferoedd cynulleidfaoedd eleni.
- Mae'r BBC hefyd yn darparu **BBC Radio nan Gàidheal,** unig wasanaeth radio cenedlaethol yr Alban sy'n benodol ar gyfer gwrandawyr Gaeleg.
- Mae niferoedd cynulleidfaoedd ar gyfer **BBC Radio Wales** wedi cynyddu rhywfaint flwyddyn ar ôl blwyddyn, ond mae'r niferoedd ar gyfer gorsaf Gymraeg y BBC **Radio Cymru** wedi aros yn sefydlog. Mae'r ddwy orsaf hyn yn ceisio denu cynulleidfaoedd newydd, yn enwedig gwrandawyr ifanc, a'r her fydd cyflawni hyn ynghyd â chynnal apêl y gorsafoedd i wrandawyr presennol.

## BBC ONLINE

Perfformiodd BBC Online yn dda eleni, gydag iPlayer yn boblogaidd iawn ac yn ffactor a arweiniodd at gynnydd mewn defnyddwyr i tua 22 miliwn bob wythnos. Fodd bynnag, mae'n gynyddol anodd ehangu cyrhaeddiad BBC Online, gyda nifer y defnyddwyr yn aros yn sefydlog mewn sawl ardal.

Cafodd yr iPlayer flwyddyn gyntaf gryf iawn gyda'r defnydd yn cynyddu i tua 40 miliwn o geisiadau ym mis Mawrth 2009. Ar gais yr Ymddiriedolaeth, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi sicrhau bod y gwasanaeth iPlayer llawn ar gael ar systemau gweithredu heblaw Windows, ac ehangwyd ei swyddogaethau ymhellach pan gafodd ganiatâd i ddarparu gwasanaeth pentyrru ac archebu cyfresi ymlaen llaw.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y gwaith o fynd i'r afael â'r camau gweithredu a nodwyd gennym yn ein harolwg o wasanaeth BBC Online y llynedd, yn cynnwys datblygu fframwaith rheoli newydd a dechrau mynd i'r afael â'r meysydd hynny y nodwyd eu bod yn wan. Caewyd y cyfleuster chwilio allanol ac ymddengys bod y broses o gysylltu â safleoedd allanol o BBC Online yn gwella.

Cymeradwywyd buddsoddiad newydd yn BBC Online ar gyfer y tair blynedd nesaf ac edrychwn ymlaen at weld canlyniad y buddsoddiad hwn, o ran cyfleuster llywio gwell a gwelliannau i feysydd gwasanaethau cyhoeddus craidd fel safleoedd newyddion, safleoedd i blant a safleoedd y gwledydd.

## NEWYDDION

Mae'r ffigurau cynulleidfaoedd ar gyfer prif fwletinau newyddion a rhaglenni materion cyfoes y BBC ar Deledu a Radio Rhwydwaith wedi aros yn sefydlog eleni. Mae niferoedd defnyddwyr ar gyfer newyddion ar BBC Online wedi parhau i gynyddu. Mae sianelau BBC News a BBC Parliament wedi cynyddu cyrhaeddiad a chyfran o gymharu â'r llynedd, ac mae canfyddiadau gwylwyr o safon y sianelau hyn yn uchel.

Parhaodd canfyddiadau cynulleidfaoedd o ddibynadwyedd, cywirdeb a natur ddiduedd yn sefydlog eleni, ac mae enw da BBC News wedi parhau i fod yn gryf iawn yn gyffredinol. Rydym yn nodi canfyddiadau cynulleidfaoedd o natur ddiduedd yn fanylach yn yr adran ar natur ddiduedd.

Oedolion iau a phobl o gefndiroedd llai cefnog yw'r cynulleidfaoedd sydd mwyaf anodd eu cyrraedd o hyd. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn ymwybodol iawn o hyn ac yn edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â hyn. Mae rôl BBC Online a bwletinau teledu a radio byr wedi'u targedu, fel bwletin BBC One am 8pm, *Newsbeat* ar Radio 1 a *60second News* ar BBC Three yn chwarae rhan bwysig ynghyd â rhaglenni hwy a manylach.

## THE WORLD SERVICE

Ariennir The World Service gan Gymorth Grant Seneddol yn hytrach na ffi'r drwydded. Roedd ganddo gyrhaeddiad o 185 miliwn o bobl y llynedd. Cynyddodd y defnydd o World Service ar-lein i 17 miliwn, gyda chynnydd arbennig o gryf ar gyfer y safle Sbaeneg, BBC Mundo. Cafwyd cynnydd mewn meysydd eraill fel y gwasanaethau teledu newydd, BBC Arabic a BBC Persian, ond parhaodd nifer y gwrandawyr radio a chynulleidfaoedd World News i ostwng, gan ddilyn y gostyngiad yn nifer y gwrandawyr radio tonfedd fer a'r gystadleuaeth gynyddol.

Aseswyd BBC Arabic TV fel rhan o'n rhaglen ymchwil i gynulleidfaoedd ar The World Service. Canfuwyd bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi BBC Arabic TV ond rydym yn cytuno â'r Bwrdd Gweithredol bod yn rhaid i werthoedd golygyddol natur ddiduedd a chywirdeb gael blaenoriaeth dros geisio'r math o ymgysylltiad emosiynol gwell y mae gwylwyr yn ei werthfawrogi'n aml.

Darllediadau o'r gwrthdaro yn Gaza yn ystod gaeaf y llynedd oedd y prawf mawr cyntaf a wynebwyd gan BBC Arabic TV a dangosodd gydbwysedd, tegwch a natur ddiduedd. Nododd ein harolwg nifer o feysydd i wella arnynt, er enghraifft cynnwys amrywiol ac apêl weledol. Gallwch ddarllen yr arolwg llawn ar ein gwefan.

* Aelod o'r cyhoedd yn cymryd rhan yn un o arolygon y BBC.

# GWARCHOD FFI'R DRWYDDED

## YN YR HINSAWDD ECONOMAIDD HERIOL SYDD OHONI, MAE SICRHAU GWERTH AM ARIAN I DALWYR FFI'R DRWYDDED YN BWYSICACH NAG ERIOED.

Rôl yr Ymddiriedolaeth yw 'sicrhau bod incwm ffi'r drwydded yn cael ei wario mewn ffyrdd sy'n bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd ac yn cyflawni gwerth am arian'. Gwnawn hyn mewn tair ffordd:

- canolbwyntio ar effeithlonrwydd i sicrhau bod y BBC yn cael y gwerth gorau am bob punt a wariwyd heb beryglu ansawdd
- cynnal astudiaethau gwerth am arian
- monitro gweithrediadau ym meysydd penodol casglu ffi'r drwydded a newid i ddigidol



## 1. CANOLBWYNTIO AR EFFEITHLONRWYDD

Oherwydd natur hirdymor arian ffi'r drwydded, mae gan y BBC rywfaint o sefydlogrwydd ariannol. Fodd bynnag ni all y BBC osgoi'r pwysau sydd ar yr economi ehangach ac, fel llawer o sefydliadau, mae wedi edrych eto ar ei gynlluniau ariannol ar gyfer y tymor hwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi adolygu cynnydd yn erbyn y targedau effeithlonrwydd a osodwyd gennym i'r BBC a hefyd wedi cymeradwyo cynlluniau newydd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd a chynlluniau wrth gefn pellach er mwyn sicrhau bod sefyllfa ariannol y BBC yn parhau'n iach.

### Targed blynyddol: 3% o arbedion effeithlonrwydd sy'n rhyddhau arian

Ym mis Hydref 2007, cymeradwywyd cynllun chwe blynedd y BBC gan yr Ymddiriedolaeth, gyda'r nod o sicrhau bod y BBC yn addas at ddyfodol digidol. Nod y cynllun oedd sicrhau bod y gwasanaethau presennol yn cael eu rheoli yn y ffordd fwyaf effeithlon posibl er mwyn rhyddhau arian ar gyfer y buddsoddiad newydd sydd ei angen heb beryglu ansawdd y gwasanaethau presennol. Drwy gymeradwyo'r cynllun mae'r Ymddiriedolaeth wedi gosod targed o gyflawni 3% o arbedion effeithlonrwydd cronnol (net) y flwyddyn sy'n rhyddhau arian dros y pum mlynedd hyd at 2012/13 i'r BBC.

Mae'n rhy gynnar yn y rhaglen ar hyn o bryd i farnu a yw'r arbedion a nodwyd wedi effeithio ar ansawdd cynnwys. Eleni rydym wedi canolbwyntio ar ddeall ansawdd y data y byddwn yn ei ddefnyddio i lunio ein barn yn y dyfodol. Gofynnwyd i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) ystyried ansawdd ein systemau data sy'n ategu'r gwaith o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad o ran arbedion effeithlonrwydd a nodir ei sylwadau ar hyn ar dudalen 8. Rydym yn falch bod y systemau data perfformiad sylfaenol yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer adolygu cynnydd a pherfformiad y BBC.

### Costau talent

Mae costau talent yn rhan fawr o wariant y BBC. Y llynedd, comisiynwyd adroddiad annibynnol ar rôl y BBC yn y farchnad ar gyfer talent ar y sgrîn ac ar yr awyr. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2008. Ar sail yr adroddiad hwn, canfu'r Ymddiriedolaeth nad oedd y BBC, ar y cyfan, yn talu mwy o arian am ei dalent gorau nag yr oedd darlledwyr eraill yn fodlon ei dalu, a bod cyfran fawr o'i gytundebau â thalent yn is na'r hyn a fyddai ar gael ar y farchnad ehangach o bosibl. Fodd bynnag, canfuwyd hefyd fod lle i wella yn arferion y BBC a allai sicrhau gwell gwerth am arian mewn rhai cytundebau.

Eleni gofynnwyd i'r Bwrdd Gweithredol roi adroddiad ar gynnydd. Canfuwyd bod y BBC wedi gwneud cynnydd da o ran ein hargymhellion, gan wneud rhai arbedion sylweddol. Fodd bynnag, yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd gyfredol, credwn y dylai'r BBC fynd ymhellach i leihau ei wariant cyffredinol ar dalent, ac rydym wedi rhoi'r dasg o wneud arbedion sylweddol pellach i'r Bwrdd Gweithredol yn ystod gweddill y cyfnod hwn o ffi'r drwydded.

## 2. ASTUDIAETHAU GWERTH AM ARIAN

Mae'r rhaglen dreigl hon o astudiaethau, a gomisiynwyd gan yr NAO yn bennaf, yn archwiliad annibynnol o weithgareddau'r Bwrdd Gweithredol. Eleni comisiynwyd dwy astudiaeth gennym, sef effeithlonrwydd cynhyrchu radio'r BBC a rheoli contractau strategol y BBC. Gallwch ddarllen adroddiadau llawn ar yr astudiaethau hyn ar ein gwefan.

### Cynhyrchu radio

Ystyriodd yr astudiaeth beth mae'r BBC yn ei wneud i sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf o ran cynhyrchu radio ar draws pob gorsaf. Cynhaliodd arolwg o gynlluniau effeithlonrwydd ac asesiad y BBC o effaith mentrau effeithlonrwydd ar berfformiad a defnyddiodd gymariaethau cost ar gyfer mathau tebyg o raglenni o orsafoedd y BBC ei hun a chystadleuwyr masnachol.

Canfyddiad yr astudiaeth oedd bod y BBC wedi gwneud arbedion ym maes cynhyrchu radio, a'i fod yn bwriadu gwneud arbedion pellach, ond bod angen iddo ddeall yn well pam bod cost cynhyrchu rhaglenni tebyg ar ei wahanol orsafoedd radio yn amrywio cymaint.

Cytunwn â'r NAO y dylai'r BBC fod yn fwy systematig o ran defnyddio data cost cymharol a nodi arbedion posibl, ond rydym yn cymell gofal bod unrhyw waith o'r fath hefyd yn ystyried yr effaith bosibl ar ansawdd rhaglennu. Derbyniwn bob un o argymhellion yr astudiaeth ac rydym wedi cytuno ar gynllun â'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer eu rhoi ar waith a bydd yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd i ni.

"Rwyf bob amser wedi credu mai'r BBC yw'r darlledwr cyhoeddus gorau yn y DU. Mae ffi'r drwydded yn arian wedi'i wario'n dda yn fy marn i."*





"A ddylai'r BBC dalu cymaint o arian i'r sêr hyn, fel y'u gelwir?"‡

### Rheoli contractau strategol

Ystyriodd yr astudiaeth hon a yw'r BBC yn cyflawni'r amcanion gwasanaeth ac ariannol a nodwyd yn ei gontractau strategol gwerth mawr cyfredol (ar gyfer gwasanaethau megis cymorth TG, adnoddau dynol, rheoli cyfleusterau ac ati), y gwariodd £715 miliwn arnynt yn 2007/08.

Daeth yr astudiaeth i'r casgliad 'bod y BBC wedi cadw ei wariant ar gontractau strategol yn unol â'r rhagolwg ac wedi rhagori ar ei dargedau o ran arbedion. Bellach mae angen iddo ganolbwyntio ar sicrhau'r lefelau o wasanaeth y mae wedi talu amdanynt – yn ogystal â chael mwy o arloesi – i roi gwerth am arian i'r BBC a thalwyr ffi'r drwydded'. Canfu hefyd fod y ffordd y mae'r BBC yn rheoli cydberthnasau, ym mhob un o'r pum contract a ystyriwyd, yn well na'r cyffredinol o'i gymharu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Nododd yr astudiaeth nifer o argymhellion ar gyfer gwella'r ffordd y rheolir contractau strategol. Unwaith eto rydym wedi derbyn yr argymhellion hyn ac wedi cytuno ar gynllun â'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer eu rhoi ar waith.

## 3. MONITRO GWEITHREDIADAU

### Newid i ddigidol

Y Llywodraeth ac Ofcom sy'n gyfrifol am y newid i ddarlledu digidol yn y DU, ond gofynnwyd i'r BBC helpu rhai grwpiau diamddiffyn mewn cymdeithas ar adeg newid i ddigidol drwy sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn a olygir gan newid i ddigidol a'u bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ymdrin â hyn ('y cynllun cymorth wedi'i dargedu'). Prif rôl yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r cynllun cymorth wedi'i dargedu yw sicrhau bod y ffordd y mae'r Bwrdd Gweithredol yn gweithredu'r cynllun yn rhoi gwerth am arian.

Mae'r arolwg ariannol yn Rhan Dau o'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o raddfa'r gweithrediadau yn y flwyddyn ddiwethaf a'r arian dan sylw, gyda £24 miliwn yn cael ei wario gan y cynllun cymorth yn 2008/09. Hyd yma mae'r cynllun cymorth wedi gwario llai na'r hyn a ragwelwyd yn bennaf oherwydd bod y nifer sydd wedi ceisio cymorth o dan y cynllun yn is na'r disgwyl. Er bod yr arolwg o'r gweithrediadau cyntaf i newid trosglwyddydd yn awgrymu bod y cynllun cymorth yn gweithredu'n foddhaol, caiff trefniadau eu profi yn ystod y flwyddyn sydd i ddod wrth i'r gweithgarwch gynyddu'n sylweddol.

### Casglu ffi'r drwydded

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddyletswydd i sicrhau bod y broses gasglu 'yn effeithlon, yn briodol ac yn gymesur'. Eleni cynhaliwyd astudiaeth fanwl o'r trefniadau casglu gennym, a oedd yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn cael barn talwyr ffi'r drwydded.

Daethom i'r casgliad bod yn rhaid i'r BBC, wrth gasglu ffi'r drwydded, fod yn gadarn ac yn deg. Mae angen i'r adran Trwyddedau Teledu newid naws ei gohebiaeth gynnar â'r cyhoedd, yn enwedig aelwydydd nad ydynt yn meddu ar set deledu. Ar yr un pryd, dylai'r adran Trwyddedau Teledu wneud mwy i dargedu'r lleiafrif o bobl sy'n osgoi talu ffi'r drwydded o hyd er mwyn sicrhau bod pawb a ddylai dalu yn talu.

Roeddem yn falch o nodi bod y gyfradd osgoi wedi gostwng o 12.7% i 5.1% ers i'r BBC ddod yn gyfrifol am gasglu ffi'r drwydded yn 1991, er bod y duedd honno tuag i lawr wedi lleihau ers hynny gyda chynnydd bach i 5.39%. Mae'r BBC hefyd wedi gwneud arbedion o £43.5miliwn o ran costau casglu ers 2006/07.

Rydym wedi awgrymu y dylai'r BBC wneud mwy o ymdrech i dargedu gorfodi talu ffi'r drwydded, hyd yn oed os bydd hyn yn arwain at gost ychwanegol fach. Yn ein barn ni mae'r amrywiol ddulliau talu a gynigir yn foddhaol i'r rhan fwyaf o dalwyr ffi'r drwydded, ond hoffem weld cynlluniau talu yn cael eu symleiddio, yn enwedig y cynlluniau hynny sy'n gofyn am daliadau ymlaen llaw a all fod yn anodd i bobl ar incwm isel. Bydd y Bwrdd Gweithredol yn ymateb i'n hargymhellion ar ddechrau 2009/10 a byddwn yn monitro cynnydd fel rhan o'n harolwg blynyddol o gasglu ffi'r drwydded.

### Cydymffurfiaeth gyllidebol trwydded gwasanaethau

Yn 2008/09 cydymffurfiodd pob gwasanaeth ond dau â therfynau cyllidebol eu gwasanaethau. Roeddem yn fodlon ar y rhesymau dros danwariant HD TV a BBC ALBA o fwy na 10% o gymharu â'r gyllideb sylfaenol. Y rheswm dros danwariant HD TV oedd ei fod wedi cyflawni mwy o arbedion mewn costau cytundebol nag a ragwelwyd ar y cychwyn. Rydym yn monitro tanwariant yn ogystal â gorwariant er mwyn i ni allu llunio barn ar ba un a yw unrhyw ostyngiad mewn buddsoddiad yn effeithio'n andwyol ar ansawdd gwasanaeth. Yn yr achos hwn croesawyd yr arbedion effeithlonrwydd a gafwyd. Roedd tanwariant BBC ALBA yn adlewyrchu dechrau'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn yn erbyn sylfaen trwydded gwasanaeth flynyddol.

## CYNLLUN GWAITH 2008/09

Roedd yr holl feysydd a drafodwyd uchod wedi'u cynnwys yn ein cynllun gwaith ar gyfer 2008/09. Hefyd roeddem wedi bwriadu cynnal trydydd arolwg o werth am arian ar gyfer rheoli asedau, ond sylweddolwyd bod dau arolwg y flwyddyn yn darged mwy realistig na thri, ac felly canolbwyntiwyd ar y pynciau pwysicaf.

* Aelod o'r cyhoedd yn cymryd rhan yn un o arolygon y BBC.
‡ Llythyr gan dalwr ffi'r drwydded i'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2008/09.

# CYNNAL BUDDIANNAU TALWYR FFI'R DRWYDDED/

## MAE'N RHAID I NI WNEUD PENDERFYNIADAU AR RAN POB TALWR FFI'R DRWYDDED, GAN YSTYRIED BUDDIANNAU UNIGOL A BUDD Y CYHOEDD YN FWY CYFFREDINOL.

Rôl yr ymddiriedaeth yw sicrhau bod y BBC yn gweithio'n effeithiol er budd y cyhoedd, a'i fod mor ymatebol â phosibl i'r hyn y mae talwyr ffi'r drwydded am ei gael.

Sut y gwnawn hyn? Drwy wneud pedwar peth:

- gwrando ar dalwyr ffi'r drwydded er mwyn deall eu safbwyntiau ynglŷn â'r BBC a sut y gellid ei wella
- ystyried materion a ddygwyd i'n sylw drwy gwynion ac apeliadau, a llunio barn er mwyn sicrhau bod y BBC yn parhau i gyrraedd y safonau uchaf
- sicrhau ein bod yn ystyried barn pob un â diddordeb wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â gwasanaethau'r BBC a'r ffordd y cânt eu cynnal
- amddiffyn annibyniaeth y BBC drwy wrthsefyll dylanwad a phwysau o unrhyw ffynhonnell




### 1. GWRANDO AR DALWYR FFI'R DRWYDDED

Er mwyn gallu ymateb i dalwyr ffi'r drwydded, rhaid wrth gwrs i ni ddeall beth maent yn ei ddymuno. Mae gennym amryw ddulliau o gasglu barn cynulleidfaoedd, gan gynnwys cyngor gan Gynghorau Cynulleidfa, ymchwil uniongyrchol, ymgynghoriadau cyhoeddus, cyfarfodydd cyhoeddus a rhaglenni ffonio i mewn ar y radio.

### 2. PARHAU I GYRRAEDD Y SAFONAU UCHAF

Mae'r rhan fwyaf o'r materion a ddygwyd i'n sylw drwy'r broses gwyno ac apelio yn ymwneud â safonau golygyddol (gweler tudalen 57, am sut y mae'r broses apeliadau golygyddol yn gweithio), er ein bod hefyd yn ymwneud â safonau eraill, er enghraifft masnach deg.

Esbonnir canlyniadau pob apêl a ystyriwn ar ein gwefan. Nodwn isod yr apeliadau pwysicaf a ystyriwyd gennym yn ystod y flwyddyn ac sydd wedi arwain at newid polisi'r BBC neu gymryd camau ychwanegol i adolygu cydymffurfiaeth â safonau.

#### Y digwyddiad ar *The Russell Brand Show*

**Yr helynt ynglŷn â digwyddiad ar *The Russell Brand Show* oedd y mater pwysicaf a gododd ynghylch safonau golygyddol eleni. Arweiniodd at fwy na 42,000 o gwynion i'r BBC.**

Ym mis Hydref 2008, gadawodd y darlledwyr Russell Brand a Jonathan Ross negeseuon ffôn hynod dramgwyddus i'r actor Andrew Sachs yn ystod rhaglen a recordiwyd ymlaen llaw ar BBC Radio 2. Canfyddiad Pwyllgor Safonau Golygyddol yr Ymddiriedolaeth oedd bod achos difrifol iawn o dorri Canllawiau Golygyddol y BBC ar dramgwyddo a phreifatrwydd, a bod y gweithdrefnau rheoli a chydymffurfio golygyddol mewn meysydd nad oedd yn ymwneud â newyddion yn is-adran Sain a Cherddoriaeth y BBC yn annigonol. Gosodwyd dirwyon o £150,000 i gyd gan Ofcom.







"Byddai'n resynus pe bai ansawdd rhaglenni'r BBC yn cael ei beryglu.'†

Cyfarwyddodd yr Ymddiriedolaeth y Bwrdd Gweithredol i:

- gyflwyno cynigion i gryfhau rheolaethau golygyddol yn yr is-adran Sain a Cherddoriaeth, a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth ym mis Rhagfyr 2008.
- cryfhau'r rheolaethau golygyddol ar unwaith ynglŷn ag unrhyw raglen lle cyfyd cryn risg olygyddol
- asesu ar unwaith y rheolaethau golygyddol a'r gweithdrefnau cydymffurfiaeth sydd ar waith ar gyfer pob rhaglen teledu a radio lle mae'r cwmni cynhyrchu yn eiddo i'r prif berfformiwr a/neu'n cael ei reoli ganddo

Yn ystod hydref 2009, byddwn yn cynnal archwiliad annibynnol i ganfod effeithiolrwydd mesurau'r Bwrdd Gweithredol i gryfhau rheolaethau golygyddol yn yr is-adran Sain a Cherddoriaeth.

Mae'r digwyddiad hwn yn tanlinellu pwysigrwydd deall y terfynau golygyddol ar gyfer deunydd risg uchel. Yn 2009 byddwn yn adolygu Canllawiau Golygyddol y BBC, gan ystyried dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sy'n dderbyniol o ymchwil i farn y cyhoedd ar y pwnc hwn.

### Nawdd/*BBC Sports Personality of the Year*

Ni chafwyd cynifer o gwynion am yr apêl hon ag a welwyd yn y digwyddiad a oedd yn ymwneud â Brand a Ross ond roedd yn apêl bwysig yn yr ystyr bod yr Ymddiriedolaeth wedi mynnu newidiadau mawr i bolisi'r BBC ynglŷn â noddi digwyddiadau ar yr awyr.

Ym mis Rhagfyr 2007, darlledwyd *BBC Sports Personality of the Year* gan BBC One a Radio 5 live. Noddwyd y digwyddiad gan Britvic Soft Drinks. Cyflwynwyd cwynion bod nifer o'r Canllawiau wedi cael eu torri am resymau a oedd yn cynnwys amlygrwydd logo Robinsons ac, yn fwy cyffredinol na ddylai'r BBC warantu cyfeiriadau ar yr awyr yn gyfnewid am arian nawdd i ddigwyddiad ar yr awyr. Ymdriniwyd â'r cwynion ar y cychwyn gan Fwrdd Gweithredol y BBC ond nis cadarnhawyd.

Ar ôl apêl, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad bod sawl un o'r canllawiau golygyddol wedi cael ei dorri. Credwn fod cynulleidfaoedd yn disgwyl i raglenni'r BBC fod yn rhydd o hysbysebion, neu'r argraff o hysbysebu. Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r Bwrdd Gweithredol i sicrhau na welir achosion tebyg o dorri'r Canllawiau Golygyddol unwaith eto. Dywedwyd hefyd y dylai fod rheolaethau tynnach ar noddi digwyddiadau.

Mae canllawiau a pholisi diwygiedig y Bwrdd Gweithredol ynglŷn â nawdd yn cynnig na fydd y BBC yn derbyn noddwyr masnachol ar gyfer digwyddiadau'r BBC ar yr awyr mwyach a bydd yn terfynu rhwymedigaethau cytundebol i gyfeirio ar yr awyr neu ar ei wefan at noddwr unrhyw ddigwyddiad ar yr awyr gan y BBC. Mae'r polisi, ynghyd â'r canllawiau diwygiedig, wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a bwriadwn gyhoeddi'r canlyniadau yn ystod haf 2009.

## 3. YSTYRIED BARN POB UN Â DIDDORDEB MEWN GWNEUD PENDERFYNIADAU

Credwn mewn cynnal busnes mewn ffordd agored – ac mae'n ofynnol i ni wneud hynny – sy'n cynnwys ystyried barn y rhai â diddordeb wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chwmpas gwasanaethau a gweithgareddau'r BBC. Gwnawn hyn mewn sawl ffordd wahanol gan gynnwys cyfarfod â'r rhai â diddordeb ac ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â materion o bwys.

Nodwn isod y penderfyniadau pwysicaf a wnaed gennym yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

### Fideo lleol

**Eleni gwrthodwyd rhoi caniatâd i'r Bwrdd Gweithredol ddatblygu gwasanaeth fideo lleol, ar ôl cynnal prawf gwerth cyhoeddus.**

Gwrthodwyd y cynigion gan yr Ymddiriedolaeth am nad oedd yn credu y byddent yn gwella gwasanaethau i'r cyhoedd i'r fath raddau ag i gyfiawnhau'r buddsoddiad o arian ffi'r drwydded neu'r effaith negyddol ar y cyfryngau masnachol. Yn lle hynny, dylai'r BBC roi blaenoriaeth ar wella ansawdd ei wasanaethau rhanbarthol yn ein barn ni. Gofynnwyd i'r Bwrdd Gweithredol gyflwyno cynigion newydd i ni yn ystod 2009/10.

### Arolwg o gyflenwadau rhwydwaith

**Rydym wedi gosod targedau mwy heriol o ran faint o raglennu rhwydwaith y BBC sy'n cael ei gynhyrchu y tu allan i Lundain.**

Er mwyn cael yr allbwn creadigol gorau a sicrhau gwerth am arian, rydym am i'r BBC ddefnyddio'r talentau i gyd yn y DU wrth ddod o hyd i gynyrchiadau Teledu Rhwydwaith. Cwblhawyd arolwg gan y Bwrdd Gweithredol yn 2008, ac arweiniodd hynny at newid y ffordd rydym yn gosod targedau i'r BBC yn y maes hwn.

Roeddem yn arfer defnyddio diffiniad penodol y BBC o'r hyn sy'n cyfrif yn gynhyrchu rhwydwaith, ond rydym wedi penderfynu defnyddio diffiniad Ofcom er mwyn i ni fod yn gyson â gweddill y diwydiant darlledu yn y DU. Mae diffiniad Ofcom yn fwy ymestynnol na diffiniad presennol y BBC a bydd angen ymestyn y targedau a osodwyd yn flaenorol cryn dipyn er mwyn ei gymhwyso yn y dyfodol.

O dan y targedau newydd, mae'n rhaid i'r BBC:

- sicrhau bod 50% o raglennu rhwydwaith yn cael ei gynhyrchu y tu allan i Lundain erbyn 2016

† Aelod o'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad ar y BBC.





"Yn fy marn i, mae'r BBC yn ganol y ffordd, yn ddosbarth canol ac yn cynrychioli canol Lloegr ac nid yw'n darparu ar gyfer safbwyntiau amrywiol." ^

- cynyddu faint o raglennu rhwydwaith a gynhyrchir yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon (ar y cyd) i 12% erbyn 2012 a 17% erbyn 2016.

Nid ydym wedi gosod targedau ffurfiol i'r gwledydd unigol ond byddwn yn monitro'r ffordd y cyflawnir hyn er mwyn sicrhau sylfaen cynhyrchu rhwydwaith gadarn a chynaliadwy ym mhob gwlad.

## Gwasanaeth manylder uwch ar deledu daearol digidol

**Gan weithio gydag Ofcom cytunwyd mewn egwyddor ar ffordd o gael HD ar Freeview.**

Mae teledu daearol digidol (DTT), gan gynnwys gwasanaeth Freeview y BBC, yn allweddol i strategaeth y Llywodraeth ar gyfer sicrhau darlledu cyhoeddus am ddim i bawb. Mae newid i ddigidol yn cynnig cyfle i fanteisio ar dechnolegau newydd ac uwchraddio'r llwyfan i gynnig mwy o wasanaethau, gan gynnwys y potensial i gynnig gwasanaethau mewn manylder uwch (HD).

Rydym yn ymwybodol o ymgynghoriadau blaenorol bod llawer o gefnogaeth i wasanaethau HD ymhlith y cyhoedd. Fe'i gwnaed yn glir yn ein penderfyniad i gymeradwyo sianel HD newydd y BBC, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2008, y dylai fod ar gael i bawb sy'n talu ffi'r drwydded, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn Freeview, mor fuan â phosibl.

Felly croesawyd cynnig Ofcom i drwyddedu darlledwyr cyhoeddus masnachol i ddarlledu gwasanaethau HD. Ym mis Ebrill 2008, cytunwyd i weithio gydag Ofcom i gynnig HD ar Freeview, gan adlewyrchu ein priod gyfrifoldebau am y gwasanaethau a'r trwyddedau sy'n hwyluso gweithredu'r llwyfan DTT. Bellach mae'r BBC yn gallu symud ymlaen gyda'i wasanaeth HD ar Freeview.

## Archebu ymlaen llaw ar iPlayer

**Ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus, cymeradwywyd gennym gynlluniau'r Bwrdd Gweithredu ar gyfer ychwanegu'r gallu i archebu ymlaen llaw ar BBC iPlayer.**

Bydd archebu ymlaen llaw yn galluogi defnyddwyr i ddewis rhaglenni o'r amserlen iPlayer hyd at saith diwrnod ymlaen llaw a'u llwytho i lawr i'w gwylio ar eu cyfrifiaduron gartref. Byddwn yn monitro effaith archebu ymlaen llaw ar gyrhaeddiad iPlayer a'r defnydd a wneir ohono er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig gwerth am arian, ac rydym wedi gofyn i'r Bwrdd Gweithredol gyflwyno adroddiad i ni ar ôl chwe mis.

## Prosiect Canvas

**Rydym yn asesu cynnig y Bwrdd Gweithredol ar gyfer menter ar y cyd i hyrwyddo amgylchedd agored yn seiliedig ar safonau ar gyfer dyfeisiau teledu sy'n gysylltiedig â'r rhyngrwyd.**

Ym mis Tachwedd 2008, gofynnodd y Bwrdd Gweithredol am ganiatâd i ddatblygu menter ar y cyd i hyrwyddo amgylchedd agored yn seiliedig ar safonau ar gyfer dyfeisiau teledu sy'n gysylltiedig â'r rhyngrwyd, a elwir fel arall yn Brosiect Canvas. Byddai hwn yn galluogi defnyddwyr i gael mynediad am ddim at wasanaethau teledu ar alw a chynnwys arall ar y rhyngrwyd drwy ddyfais ddigidol band eang megis blwch pen set.

Ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd gan y Bwrdd Gweithredol bryd hynny, penderfynwyd gennym mai gweithgarwch nad yw'n ymwneud â gwasanaeth yw Prosiect Canvas, ac na fyddai prawf gwerth cyhoeddus llawn yn briodol. Felly cymhwyswyd asesiad at Brosiect Canvas nad oedd yn asesiad o wasanaeth, gan gynnwys gwerthusiad manwl o werth cyhoeddus y cynigion a'u heffaith ar y farchnad. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol, lle gwahoddwyd rhanddeiliaid y diwydiant, grwpiau cynulleidfa a thalwyr ffi'r drwydded i wneud sylwadau ar y cynigion. Cafwyd cryn ymateb i'r ymgynghoriad ac rydym bellach wedi gofyn i'r Bwrdd Gweithredol roi rhagor o wybodaeth am feysydd allweddol i ni cyn parhau â'n hasesiad.

^ Cyfarfod cyhoeddus lle y bu Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC yn bresennol.



“Rwyf wrth fy modd nad oes hysbysebion, a’i fod yn cynnwys amrywiaeth mawr o raglenni o’r digri i’r difrifol ac addysgol.” †



## 4. AMDDIFFYN ANNIBYNIAETH Y BBC

Un o’r prif resymau y mae’r cyhoedd yn ymddiried yn y BBC yw oherwydd ei annibyniaeth ac mae amddiffyn yr annibyniaeth honno yn rôl allweddol i’r Ymddiriedolaeth felly.

### Apêl Argyfwng Gaza’r Pwyllgor Argyfyngau

Un o’r materion mwy dadleuol y bu’n rhaid i ni ddyfarnu yn ei gylch oedd y penderfyniad ym mis Ionawr 2009 gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol i beidio â darlledu apêl y Pwyllgor Argyfyngau am gymorth dyngarol i drigolion Gaza. (Gweler tudalen 56 am fanylion am y cwynion a’r apeliadau ynghylch y mater hwn a’r rhesymau pam na chadarnhawyd yr apeliadau gan yr Ymddiriedolaeth.)

Bu dadl gyhoeddus fawr ynglŷn â phenderfyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol a galwodd sawl gwleidydd blaenllaw ar y Cyfarwyddwr Cyffredinol i newid ei benderfyniad. Oherwydd y fath deimladau dwys ysgrifennodd ein Cadeirydd lythyr agored at y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gwneud datganiad digamsyniol ynglŷn â rôl yr Ymddiriedolaeth i ddiogelu annibyniaeth y BBC. Dywedodd ei fod yn teimlo bod ‘lefel a naws’ rhai o’r sylwadau gwleidyddol ‘bron â bod yn ymyrryd amhriodol yn annibyniaeth olygyddol y BBC’. Rhoddodd Syr Michael sicrwydd i’r Cyfarwyddwr Cyffredinol y byddai’r Ymddiriedolaeth ‘yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau eich bod yn cael y lle i wneud y penderfyniadau golygyddol sy’n briodol o dan yr amgylchiadau, yn eich barn chi, ar ôl ystyriaeth ddyladwy’.

## CYNLLUN GWAITH 2008/09

Roedd rhai o’r penderfyniadau a’r canlyniadau a ddisgrifir uchod yn deillio o waith yr oeddem wedi cynllunio ei wneud o fewn ein cynllun gwaith ar gyfer 2008/09. Roedd eraill yn deillio o’n gwaith i ystyried apeliadau a chwynion yn ystod y flwyddyn. Roedd gennym nifer o flaenoriaethau eraill ar gyfer gwaith yn ystod y flwyddyn, ac er nad oedd eu canlyniad mor sylweddol, eto i gyd roeddent yn bwysig.

### Arolwg o natur ddiduedd

Cynhaliwyd arolwg o natur ddiduedd ein sylw o bedair gwlad y DU. Gallwch ei ddarllen ar dudalen 55.

### Arolwg o werth economaidd

Mae sicrhau bod effaith economaidd y BBC yn un gadarnhaol yn fater pwysig i’r Ymddiriedolaeth. I’r perwyl hwn, ym mis Ionawr 2008, comisiynwyd PricewaterhouseCoopers i gynnal ymchwil i effaith economaidd gwasanaethau’r BBC a ariennir gan y cyhoedd ar y sector darlledu a chreadigol yn y DU. Nodir ei ganfyddiadau ar dudalen 54.

### Arolwg o’r WOCC

Fel y nodwyd yn y Siarter a’r Cytundeb, mae’r BBC yn gwneud 50% o raglenni teledu yn fewnol, yn ogystal â chomisiynu 25% o gwmnïau cynhyrchu annibynnol. Mae’r BBC hefyd yn gweithredu’r ‘Cyfle i Gystadlu’n Greadigol’ (WOCC) lle gall cynhyrchwyr mewnol ac annibynnol gystadlu am y 25% sy’n weddill. Yn 2008 adolygodd yr Ymddiriedolaeth pa mor dda roedd y trefniant yn gweithio, gan geisio barn amrywiaeth mawr o randdeiliaid yn ogystal â chynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

Yn gyffredinol, daethom i’r casgliad bod syniadau yn cael eu trin yn gyfartal a bod penderfyniadau comisiynu yn cael eu gwneud yn ôl teilyngdod o dan y system gyfredol. Mae gan gomisiynwyr gymhellion clir i ddewis y syniadau gorau ac nid oes tueddfryd amlwg tuag at dderbyn syniadau mewnol yn lle syniadau annibynnol nac fel arall. Yn ogystal â rhoi manteision i gynulleidfaoedd drwy raglennu gwell, datgelodd ein dadansoddiad o randdeiliaid fod WOCC yn cael ei groesawu’n gyffredinol gan gomisiynwyr, cynhyrchwyr mewnol a chynhyrchwyr annibynnol.

Mae cyfleoedd i wella bob amser, fodd bynnag, ac rydym wedi gwneud amrywiol argymhellion i’r Bwrdd Gweithredol i’r perwyl hwn. Byddwn yn asesu cynnydd drwy arolwg dilynol yn 2010.

† Aelod o’r cyhoedd yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad ar y BBC.

# EDRYCH YMLAEN/





# 44/ CYNLLUNIAU'R YMDDIRIEDOLAETH AR GYFER 2009/10/

# CYNLLUNIAU'R YMDDIRIEDOLAETH AR GYFER 2009/10

Fel yr esboniwyd ar dudalennau 18 i 19 lle rydym yn rhoi adroddiad ar ein cynllun ar gyfer 2008/09, bob blwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi cynllun gwaith fel y gall pawb sy'n ymgysylltu â ni, o fewn a'r tu allan i'r BBC, neu unrhyw un a chanddynt ddiddordeb, gael gwybod beth yw ein blaenoriaethau, pam y gwnaethom eu nodi, a beth y byddwn yn ei wneud i'w cyflawni yn y flwyddyn i ddod. Ceir crynodeb o'n cynllun ar gyfer 2009/10 isod. Gallwch ddarllen manylion llawn y cynllun a'r ymgynghoriad yn ei gylch ar ein gwefan bbc.co.uk/bbctrust

## CAEL Y MWYAF O'R BBC I DALWYR FFI'R DRWYDDED

Yn y flwyddyn sydd i ddod, rydym am atgyfnerthu'r gwaith a wnaed gennym yn ein dwy flynedd gyntaf, ond gwasanaethu talwyr ffi'r drwydded yn well drwy gyflawni mwy drostynt drwy ganolbwyntio'n fanylach ar nifer lai o faterion. Sut y gwnawn hynny? Drwy ganfod pa faterion sydd o'r pwys mwyaf iddynt hwy, a sicrhau ein bod yn gwneud rhywbeth yn eu cylch. Rydym yn cael ein cynorthwyo yn hyn o beth gan gyfraniadau gwerthfawr y rhwydwaith o Gynghorau Cynulleidfa.

Byddwn hefyd yn parhau i chwarae rhan lawn yn y ddadl sy'n datblygu ynglŷn â dyfodol darlledu cyhoeddus. Byddwn yn asesu'r cynigion ynglŷn â phartneriaeth a gyflwynwyd i ni gan y Bwrdd Gweithredol sy'n amlinellu sut y gall y BBC ddefnyddio ei nerth yn well er budd y sector darlledu yn y DU yn ei gyfanrwydd.

Mae ein cynllun gwaith ar gyfer 2009/10 yn canolbwyntio ar sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu rhaglenni unigryw o safon uchel; ei fod yn effeithlon; a'i fod ar y cyfan yn cynnig y gwerth gorau i gynulleidfaoedd ledled y DU. Yn ogystal â gwaith dwysach ar safonau golygyddol, byddwn yn adolygu rhai o wasanaethau mwyaf poblogaidd y BBC gan gynnwys BBC One, BBC Two a BBC Radio 2. Ochr yn ochr â hynny, byddwn yn parhau i adolygu perfformiad yr Ymddiriedolaeth ac Uned yr Ymddiriedolaeth i sicrhau ein bod yn cyflawni gwerth am arian.

## GWARCHOD FFI'R DRWYDDED

### Ein rôl strategol

**Sicrhau bod incwm ffi'r drwydded yn cael ei wario mewn ffyrdd sy'n bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd ac yn cyflawni gwerth am arian.**

**Blaenoriaeth 1**

### CYNLLUN CHWE BLYNEDD

Byddwn yn parhau i fonitro'r ffordd y mae'r Bwrdd Gweithredol yn rhoi cynllun chwe blynedd y BBC ar waith. Yn benodol, byddwn yn ystyried ansawdd gwasanaethau'r BBC, ac a yw'r Bwrdd Gweithredol wedi gwneud arbedion drwy fwy o effeithlonrwydd, i'w gwneud yn bosibl i fuddsoddi mewn gwasanaethau newydd.

**Blaenoriaeth 2**

### AMGYLCHEDD ECONOMAIDD HERIOL

Byddwn yn rhoi sylw manwl i effeithiau amgylchedd economaidd mwy heriol ar y BBC.

**Blaenoriaeth 3**

### GWERTH AM ARIAN

Byddwn yn comisiynu dwy astudiaeth gwerth am arian:

a) buddsoddiad cyfalaf ym mhortffolio eiddo'r BBC

b) rheoli ariannol a rheoli prosiect o ran nifer o ddigwyddiadau allanol mawr a ddarlledir gan y BBC megis y Gemau Olympaidd a Glastonbury.

**Blaenoriaeth 4**

### ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLAETH AR DALENT

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad dilynol ar y cynnydd a wnaed ynglŷn â'r argymhellion yn adroddiad yr Ymddiriedolaeth ar Dalent a gyhoeddwyd yn 2008.

YN Y FLWYDDYN SYDD I DDOD BYDDWN YN CANOLBWYNTIO'N FANYLACH AR NIFER LAI O FATERION.

## CYNNAL BUDDIANNAU TALWYR FFI'R DRWYDDED

### Ein rôl strategol

**Sicrhau bod y BBC yn gweithio'n effeithiol er budd y cyhoedd, a'i fod mor ymatebol â phosibl i'r hyn y mae talwyr ffi'r drwydded am ei gael.**

**Blaenoriaeth 1**

### SAFONAU GOLYGYDDOL

Yn y flwyddyn sydd i ddod bydd yr Ymddiriedolaeth yn goruchwylio'r arolwg o Ganllawiau Golygyddol y BBC. Fel rhan o'r gwaith hwn, ac ar ôl achos annerbyniol o dorri'r safonau yn *The Russell Brand Show*, byddwn yn edrych ar chwaeth a safonau yn rhaglenni'r BBC ac yn comisiynu arolwg annibynnol o gydymffurfiaeth gan is-adran Sain a Cherddoriaeth y BBC.

**Blaenoriaeth 2**

### AROLWG O DDARLLEDU CYHOEDDUS

Gwelwyd nifer o arolygon dros y tair blynedd diwethaf yn sector darlledu'r DU. Yn ganolog iddynt bu ail arolwg Ofcom o ddarlledu cyhoeddus ac arolwg y Llywodraeth o Brydain Ddigidol.

Byddwn yn parhau i gymryd rhan yn yr arolwg o Brydain Ddigidol gan ein bod yn credu ei bod yn hanfodol bod buddiannau cynulleidfaoedd yn cael y flaenoriaeth bennaf yn yr hyn sy'n deillio ohono.

**Blaenoriaeth 3**

### PROFION GWERTH CYHOEDDUS

Yn unol â'n haddewid byddwn yn dychwelyd at y penderfyniad a wnaed gennym ar brofion gwerth cyhoeddus ar gyfer yr iaith Aeleg ac iPlayer i ystyried sut y mae'r gwasanaethau'n gweithredu.

**Blaenoriaeth 4**

### CYNIGION AR GYFER PARTNERIAETH

Mae gennym rôl ffurfiol yn y gwaith o gymeradwyo cynigion newydd gan y Bwrdd Gweithredol i weithio mewn partneriaeth agosach â'r diwydiant darlledu ehangach. Byddwn yn adolygu'r cynigion hyn ac yn gwneud sylwadau arnynt yn ystod y flwyddyn.

## HYRWYDDO PWRPASAU CYHOEDDUS Y BBC YN EFFEITHIOL

### Ein rôl strategol

**Sicrhau bod y BBC yn hyrwyddo'r chwe phwrpas cyhoeddus fel y'u gosodwyd gan y Senedd yn ei holl weithrediadau.**

**Blaenoriaeth 1**

### CYLCHOEDD GWAITH PWRPAS

Mae cylchoedd gwaith pwrpas yn nodi sut y disgwyliwn i'r BBC gyflawni ei holl bwrpasau cyhoeddus. Yn 2007/08 nodwyd nifer o fylchau o ran perfformiad gennym, yn enwedig mewn perthynas â rhaglennu sy'n ffres ac yn newydd yn nhyb cynulleidfaoedd, a hefyd mewn perthynas â darparu newyddion a materion cyfoes i gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n dda ac o ran pa mor effeithiol y mae'r BBC yn cynrychioli gwahanol wledydd. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y BBC yn hyn o beth.

**Blaenoriaeth 2**

### AROLYGON O WASANAETHAU

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddyletswydd i adolygu pob un o wasanaethau'r BBC o leiaf unwaith bob pum mlynedd, gan gynnig cyfle i aelodau'r cyhoedd gael mynegi barn ynglŷn â sut y mae'r BBC yn ei wneud yn erbyn ei gylch gwaith yn eu tyb hwy. Yn 2009/10 byddwn yn adolygu:

a) Teledu

- BBC One
- BBC Two
- BBC Four
- BBC Red Button

b) Radio

- BBC Radio 2
- BBC 6 Music


LLYWOD
5live
Wake Up
Money

# RAETHU/



48/ **YMDDIRIEDOLWYR Y BBC/**
50/ **CYFLAWNI GWERTH AM ARIAN/**
52/ **Y BBC A'R ECONOMI EHANGACH/**
55/ **SICRHAU SAFONAU GOLYGYDDOL/**
57/ **GWASANAETHU POB CYNULLEIDFA/**

# YMDDIRIEDOLWYR Y BBC

## MAE YMDDIRIEDOLAETH Y BBC, FEL CORFF LLYWODRAETHU'R BBC, AR WAHÂN I'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N RHEOLI GWEITHREDIADAU'R BBC O DDYDD I DDYDD.

Ein gwaith yw cynrychioli talwyr ffi'r drwydded a sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn darparu'r rhaglenni a'r gwasanaethau o safon uchel y mae'r cyhoedd eu heisiau, a hefyd sicrhau bod y BBC yn atebol ac yn agored. Rydym hefyd yn diogelu annibyniaeth y BBC rhag dylanwad masnachol neu wleidyddol.

### SYR MICHAEL LYONS CADEIRYDD

**Rolau eraill:** Cadeirydd, English Cities Fund; cyfarwyddwr anweithredol, Mouchel plc, Wragge & Co, ac SQW Ltd; llywodraethwr, Cwmni Brenhinol Shakespeare.

### CHITRA BHARUCHA MBE IS-GADEIRYDD

**Mae'n cadeirio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau a Phwyllgor y Cynghorau Cynulleidfa. Arweiniodd arolwg o'r broses gwyno (gweler tudalen 57).**

**Rolau eraill:** Ymddiriedolwr, Marie Curie Cancer Care.

### DIANE COYLE OBE

**Mae'n cadeirio Pwyllgor Cymeradwyo Strategol yr Ymddiriedolaeth. Arweiniodd y prawf gwerth cyhoeddus ar y gwasanaeth fideo lleol arfaethedig (gweler tudalen 39).**

**Rolau eraill:** Economegydd; aelod, y Comisiwn Cystadleuaeth; aelod, y Ganolfan er Ymchwil i Bolisi Economaidd; athro gwadd, Prifysgol Manceinion, Sefydliad Llywodraethu Gwleidyddol ac Economaidd.

### ANTHONY FRY

**Ymunodd â'r Ymddiriedolaeth ar 1 Tachwedd 2008**

**Rolau eraill:** Uwch reolwr gyfarwyddwr, Evercore Partners; cyfarwyddwr anweithredol, Control Risks a Dairy Crest; aelod o'r bwrdd gweithredol, Gŵyl Deledu Ryngwladol Caeredin; aelod bwrdd, English National Opera.

### ALISON HASTINGS

**Ymddiredolwr dros Loegr (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa Lloegr). Arweiniodd arolwg o wasanaethau i gynulleidfaoedd iau (gweler tudalen 31).**

**Rolau eraill:** Ymgynghorydd y cyfryngau; is-lywydd, Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.

### Y FONESIG PATRICIA HODGSON DBE

**Arweiniodd arolwg o wasanaethau ar-lein y BBC (gweler tudalen 35).**

**Rolau eraill:** Pennaeth, Coleg Newnham, Caergrawnt; cyfarwyddwr anweithredol, y Comisiwn Cystadleuaeth; aelod, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr.

### ROTHA JOHNSTON CBE

**Ymddiriedolwr dros Ogledd Iwerddon (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon); mae'n cadeirio'r Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth. Arweiniodd arolwg o'r 'Cyfle i Gystadlu'n Greadigol' (gweler tudalen 41).**

**Rolau eraill:** Cyfarwyddwr anweithredol, Allied Irish Bank (UK) plc a Swyddfa Gogledd Iwerddon; dirprwy gadeirydd, Invest Northern Ireland; dirprwy-ganghellor, Queen's University, Belfast.

### JANET LEWIS-JONES

**Ymddiriedolwr dros Gymru (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa Cymru). Arweiniodd arolwg o ddulliau casglu trwyddedau teledu (gweler tudalen 37).**

**Rolau eraill:** Cadeirydd, panel dethol aelodau Glas Cymru Cyf (Dŵr Cymru); ymddiriedolwr, Sefydliad Baring ac Elusen Maytree.

### DAVID LIDDIMENT

**Cadeirydd, Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad. Arweiniodd waith ar natur nodedig (gweler tudalen 30).**

**Rolau eraill:** Cyfarwyddwyr anweithredol, All3Media; aelod cyswllt, Old Vic Theatre Company.

### MEHMUDA MIAN

**Arweiniodd arolwg o wasanaethau plant (gweler tudalen 31).**

**Rolau eraill:** Aelod bwrdd, Awdurdod Diogelu Annibynnol; cyfarwyddwr cyswllt, Sefydliad Lokahi.

### JEREMY PEAT

**Ymddiredolwr dros yr Alban (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa'r Alban). Arweiniodd astudiaethau gwerth am arian (gweler tudalennau 36 i 37).**

**Rolau eraill:** Cadeirydd, Bwrdd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC; cyfarwyddwr, Sefydliad David Hume; aelod, y Comisiwn Cystadleuaeth.

### RICHARD TAIT CBE

**Cadeirydd, Pwyllgor Safonau Golygyddol. Mae'n arwain gwaith yr Ymddiriedolaeth ar safonau golygyddol a chydymffurfiaeth (gweler tudalennau 55 i 56).**

**Rolau eraill:** Athro Newyddiaduraeth a chyfarwyddwr y Ganolfan Astudiaethau Newyddiaduraeth, Prifysgol Caerdydd; is-lywydd, Sefydliad Diogelwch Newyddion Rhyngwladol.

Am ragor o wybodaeth am yr Ymddiriedolwyr, eu gyrfaoedd a'u profiad blaenorol, gweler ein gwefan www.bbc.co.uk/bbctrust

Mae'r adran hon o'n hadroddiad yn amlinellu sut y mae ein gweithgareddau llywodraethu yn gwasanaethu'r cyhoedd, o dan y penawdau:

- cyflawni gwerth am arian
- y BBC a'r economi ehangach
- sicrhau safonau golygyddol
- gwasanaethu pob cynulleidfa

Mae tudalennau 60 i 67 yn amlinellu prosesau llywodraethu corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ei hun tra bydd Rhan Dau o'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi mwy o wybodaeth am sefyllfa'r Bwrdd Gweithredol o ran llywodraethu corfforaethol.



**SYR MICHAEL LYONS**
CADEIRYDD



**CHITRA BHARUCHA**
IS-GADEIRYDD



**DIANE COYLE**



**ANTHONY FRY**



**ALISON HASTINGS**
LLOEGR



**Y FONESIG PATRICIA HODGSON**



**ROTHA JOHNSTON**
GOGLEDD IWERDDON



**JANET LEWIS-JONES**
CYMRU



**DAVID LIDDIMENT**



**MEHMUDA MIAN**



**JEREMY PEAT**
YR ALBAN



**RICHARD TAIT**



Bu Dermot Gleeson yn aelod o Ymddiriedolaeth y BBC yn ystod 2008/09. Daeth ei gyfnod yn y swydd i ben ar 31 Hydref 2008.

# CYFLAWNI GWERTH AM ARIAN

## FEL YMDDIRIEDOLWYR, EIN CYFRIFOLDEB PENNAF YW SICRHAU BOD Y BBC YN CYFLAWNI GWERTH AM ARIAN.

Rydym yn goruchwylio perfformiad ariannol a busnes y BBC, gan gadw golwg fanwl ar ei anghenion ariannol ei hun ac ar y ffordd y mae'n gwario ei incwm.

Rydym yn cyflawni ein dyletswyddau ariannol drwy'r Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth (gweler tudalen 61 am yr aelodaeth), sy'n craffu ar gyllidebau'r BBC, ei berfformiad ariannol, a chydymffurfiaeth weithredol arall, yn ogystal â chynnal arolygon o feysydd gwariant penodol. Bu'r pwyllgor hwn yn gweithredu fel y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth gynt ond fe'i hailsefydlwyd ym mis Ionawr 2009 o dan ei enw newydd gyda chylch gorchwyl diwygiedig. Mae penderfyniadau strategol allweddol yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Cymeradwyo Strategol erbyn hyn.

### GOSOD CYLLIDEBAU AC AMCANION ARIANNOL

Bob blwyddyn rydym yn adolygu cyllid y BBC ac yn holi yn ei gylch ac, unwaith yr atebir ein cwestiynau ac y gwneir unrhyw newidiadau a ddymunwn, cymeradwywn gyllideb y BBC a'i gynlluniau ariannol hirdymor. Fel rhan o hyn rydym yn gosod cyllideb ar gyfer pob trwydded gwasanaeth unigol. Lle y bo angen, gallwn hefyd osod amcanion ariannol i'r rheolwyr i lywio'r ffordd mae'r Bwrdd Gweithredol yn rheoli gweithrediadau. Y llynedd, pennwyd targed effeithlonrwydd cronnol o 3% i'r BBC dros y cyfnod o bum mlynedd o 2008/09 hyd at 2012/13. Rydym yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd yn erbyn y targed hwnnw ar dudalen 7.

### RHEOLI RISG

Bob blwyddyn rydym yn adolygu gweithgareddau rheoli risg yr ymgymerwyd â hwy o fewn y BBC ac yn holi yn eu cylch er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn nodi'r risgiau gweithredol allweddol a wynebir gan y BBC ac yn mynd i'r afael â hwy yn ddigonol. Gwnawn hyn drwy adolygu adroddiadau rheoli risg rheolaidd a thrwy holi'r archwilwyr allanol, archwilwyr mewnol a'r Pwyllgor Archwilio.

Byddwn yn gwneud argymhellion o bryd i'w gilydd ynglŷn â meysydd y mae angen eu hadolygu'n fanylach. Mae system gwybodaeth reoli briodol yn hanfodol i unrhyw sefydliad i wneud penderfyniadau'n effeithiol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r BBC wedi diwygio ei systemau ariannol, gan wneud arbedion sylweddol drwy sefydlu canolfan gwasanaethau cyllid ganolog yng Nghaerdydd a threfniadau gosod ar gontract eraill. Rhoddwyd adroddiad y llynedd ar rai materion a oedd yn ymwneud â rheolaethau ynglŷn â gwariant a chyfrifyddu i BBC Online. Yng ngoleuni hyn rydym wedi gofyn i'r Bwrdd Gweithredol roi sicrwydd i ni ynglŷn â statws cyfredol ac ansawdd adroddiadau rheoli ym mhob un o wasanaethau cyhoeddus y BBC.

Rydym yn croesawu cynigion y Bwrdd Gweithredol i benodi'r archwilwyr allanol i adolygu hyn yn ystod 2009/10.

### AROLYGON PENODOL.

Bob blwyddyn edrychwn yn fanwl ar feysydd penodol i sicrhau y cyflawnir gwerth am arian ganddynt, yn unol â'n dyletswyddau o dan y Siarter. Ceir manylion am arolygon eleni ar dudalennau 36 i 37. Yn ogystal â'r rhaglen arfaethedig hon, rydym yn cynnal arolygon eraill, wedi'u llywio gan ein dyletswyddau o dan y Siarter. Eleni adolygwyd y ffordd y cesglir ffi'r drwydded, gan ystyried a yw'n effeithlon, yn briodol ac yn gymesur. Rydym yn adolygu'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Bwrdd Gweithredol mewn ymateb i'n harolwg o gostau talent yn ystod y flwyddyn flaenorol.

### TÂL Y BWRDD GWEITHREDOL

Drwy ein pwyllgor cydnabyddiaeth a phenodiadau (gweler tudalen 62 am yr aelodaeth), nodwn y strategaeth sy'n pennu tâl a buddiannau'r Bwrdd Gweithredol.

Wrth bennu tâl swyddogion gweithredol rydym yn ceisio sicrhau ei fod yn adlewyrchu disgwyliadau talwyr ffi'r drwydded yn ogystal ag anghenion y sefydliad.

Ein tair egwyddor sylfaenol ar gyfer tâl swyddogion gweithredol yw:

- dylai fod yn gyson â strategaeth gydnabyddiaeth y BBC cyfan
- dylai ystyried y cyfleoedd unigryw y gall gweithio yn y BBC eu cynnig
- dylai'r BBC ddilyn, nid arwain, y farchnad

Rydym yn gyfrifol am gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr anweithredol ac yn ei gosod. I aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol rydym yn pennu'r strategaeth gydnabyddiaeth ond nid ydym yn pennu cyflogau unigol nac yn dyfarnu bonysau. Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr anweithredol yn unig, sy'n gyfrifol am bennu'r rhain.

## Adolygu tâl i swyddogion gweithredol yn y dyfodol

Rydym yn parhau i roi sylw manwl i bryderon talwyr ffi'r drwydded a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â thâl swyddogion gweithredol yn y BBC. Mae'r BBC yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol ac rydym am ddenu'r goreuon i weithio i'r sefydliad; bydd hyn yn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu'r rhaglenni a'r gwasanaethau o safon uchel y mae talwyr ffi'r drwydded yn eu disgwyl. Fodd bynnag, rydym yr un mor glir bod angen i'r lefel o gydnabyddiaeth – yn enwedig i'r prif swyddogion gweithredol – adlewyrchu'r ffaith bod y BBC yn cael ei ariannu gan y cyhoedd drwy ffi'r drwydded.

Fel rhan o'n cyfrifoldeb parhaus i gyflawni gwerth am arian yn y maes hwn, rydym wedi penderfynu adolygu'r ffordd rydym yn ymdrin â thâl a buddiannau swyddogion gweithredol, yn cynnwys bonysau ar sail perfformiad. Caiff yr arolwg hwn ei gynnal yn ystod 2009. Bydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol, yn gyson â'n hegwyddorion sylfaenol, yn adolygu'r strategaeth gydnabyddiaeth i'r BBC yn ei gyfanrwydd, gan ystyried yr amgylchiadau economaidd cyfredol a'r angen i ddangos gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded. Ar ôl ystyried canlyniadau ei arolwg byddwn yn pennu'r strategaeth i'r Bwrdd Gweithredol.

## Gweithredu Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau'r Ymddiriedolaeth

Cynghorir pwyllgor yr Ymddiriedolaeth gan staff o Uned yr Ymddiriedolaeth. Fel y nodwyd yng Nghod Cyfunol 2006 ar Lywodraethu Corfforaethol, lle y bo angen, mae'r pwyllgor yn cael cyngor arbenigol gan ein cynghorwyr proffesiynol allanol, Towers Perrin. Maent yn rhoi gwybodaeth berthnasol am y farchnad a chyngor ar y strategaeth gydnabyddiaeth os gofynnir am hynny. Ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r Bwrdd Gweithredol, mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cyfarwyddwr BBC People, y Cyfarwyddwr Gwobrwyon a Chadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn bresennol mewn cyfarfodydd o Bwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau'r Ymddiriedolaeth yn ôl y galw. Nid yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol byth yn bresennol pan ystyrir materion yn ymwneud â'i gydnabyddiaeth ei hun.

## Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr

Gweler tudalen 65 am fanylion am gydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr.

## CYDNABYDDIAETH Y BWRDD GWEITHREDOL 2009

### 1. Cyfarwyddwr Cyffredinol

Mark Thompson, y Cyfarwyddwr Cyffredinol yw Prif Swyddog Gweithredol y BBC. Ef yw prif olygydd y BBC a chadeirydd y Bwrdd Gweithredol. Rydym yn pennu cyflog ac amodau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ac yn penderfynu a ddylid dyfarnu unrhyw fonws ar sail perfformiad.

Wrth bennu cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol rydym yn ceisio cynnig pecyn sy'n denu ac yn cadw unigolyn o'r safon sydd ei hangen i ymgymryd â'r rôl ymestynnol hon a rhoi'r arweiniad sydd ei angen i gyfarwyddo darlledwr cyhoeddus mwyaf y DU. Mae cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol, pensiwn a'r opsiwn i gael bonws ar sail perfformiad (hyd at 10% o'i gyflog sylfaenol). Darperir car a gyrrwr ar gyfer y Cyfarwyddwr Cyffredinol hefyd ac mae'n eu defnyddio'n bennaf ar gyfer teithiau busnes yn Llundain, ond nid oes ganddo hawl i gael car personol na lwfans tanwydd.

Ym mis Awst 2008 dyfarnwyd cynnydd o 2% o'i gyflog sylfaenol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, gan adlewyrchu'r cynnydd a ddyfarnwyd i'r staff. Ar gyfer 2008/09 ataliwyd cynllun bonws ar sail perfformiad cyfarwyddwyr gwasanaeth cyhoeddus y BBC (gweler isod), ac felly ni chafodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fonws.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal asesiad blynyddol o berfformiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae'n parhau i gyflawni'r amcanion a bennwyd gan yr Ymddiriedolaeth a chredwn ei fod yn cynnig arweiniad cadarn ac effeithiol i'r sefydliad.

### 2. Cyfarwyddwyr anweithredol

Mae'r Cyfarwyddwyr anweithredol yn cael ffi a bennir gan yr Ymddiriedolaeth, sy'n adlewyrchu cymhlethdod y rôl a'r amser sydd ei angen i ymgymryd â'r rôl yn effeithiol. Pennir y ffioedd drwy gyfeirio at gyfraddau a delir gan gorfforaethau eraill yn y DU, ond ar lefel fel na fydd y Cyfarwyddwyr anweithredol yn ddibynnol yn ariannol ar y BBC.

Mae pob Cyfarwyddwr anweithredol yn cael ffi sylfaenol (£35,700 y flwyddyn ar hyn o bryd), a rhoddir ffi ychwanegol (£5,100 y flwyddyn ar hyn o bryd) i gadeirydd pob pwyllgor am bob rôl yr ymgymerir â hi. Mae'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn cael ffi ychwanegol o £10,200 y flwyddyn am ymgymryd â'r rôl. Caiff y Cyfarwyddwyr anweithredol eu had-dalu hefyd am dreuliau yr eir iddynt wrth gynnal busnes y BBC, a chaiff unrhyw dreth sy'n codi o'r buddiannau trethadwy hynny ei thalu'n uniongyrchol gan y BBC. Nodir eu ffioedd a'u buddiannau trethadwy yn Rhan Dau o'r adroddiad hwn.

O 1 Ionawr 2009, rhoddwyd cynnydd o 2% i'w ffioedd i'r Cyfarwyddwyr anweithredol (mae symiau'r flwyddyn a restrir uchod yn adlewyrchu'r cynnydd hwn). Adolygir ffioedd y Cyfarwyddwyr anweithredol gan yr Ymddiriedolaeth bob yn ail flwyddyn, a hwn oedd yr arolwg cyntaf.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnal ei asesiad perfformiad ei hun, a chyflwynir adroddiad arno i'r Ymddiriedolaeth. Ceir y manylion yn Rhan Dau o'r adroddiad hwn.

### 3. Cyfarwyddwyr gweithredol

Nodir y ffordd rydym yn pennu tâl swyddogion gweithredol mewn strategaeth sy'n cynnig cydnabyddiaeth sy'n gallu denu'r dalent allweddol sydd ei hangen i arwain y BBC a darparu darlledu cyhoeddus nodedig, ei symbylu a'i chadw. Fel y nodwyd uchod, credwn fod yn rhaid i hyn adlewyrchu disgwyliadau talwyr ffi'r drwydded yn ogystal ag anghenion y sefydliad. Yn yr amgylchedd economaidd sydd ohoni, mae'r disgwyliadau hyn yn rhoi pwysau cynyddol ar lefelau tâl swyddogion gweithredol.

O fewn strategaeth a nodwyd gan yr Ymddiriedolaeth, mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn pennu cydnabyddiaeth unigol cyfarwyddwyr gweithredol. Yna mae'n cyflwyno adroddiad ffurfiol gan roi sicrwydd i ni fod y strategaeth hon wedi cael ei dilyn. Ar ôl adolygu'r adroddiad eleni, daethom i'r casgliad bod ein strategaeth wedi cael ei dilyn mewn perthynas â thâl cyfarwyddwyr gweithredol, ac felly derbyniwyd sicrwydd y pwyllgor ar y mater hwn.

Eleni mae'r Bwrdd Gweithredol wedi atal trefniadau bonws yn ôl disgresiwn i'r rhan fwyaf o staff y BBC. Oherwydd y penderfyniad hwn ni fu'r un cyfarwyddwr gweithredol gwasanaeth cyhoeddus yn gymwys i gael bonws ar sail perfformiad. Mae Prif Weithredwr BBC Worldwide yn cael bonws sy'n gysylltiedig â'r elw o weithrediadau masnachol y BBC. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Rhan Dau o'r adroddiad hwn.

Mater i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yw perfformiad cyfarwyddwyr gweithredol. Ceir adroddiad Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn Rhan Dau o'r adroddiad hwn.

# Y BBC A'R ECONOMI EHANGACH

## EIN DYLETSWYDD FEL YMDDIRIEDOLWYR YW ATAL Y BBC RHAG DEFNYDDIO EI BŴER ECONOMAIDD MEWN FFYRDD A ALLAI RWYSTRO MENTERGARWCH GAN ERAILL A SICRHAU BOD Y BBC YN CYNNAL EI WEITHGAREDDAU MASNACHOL YN DEG.

Mae'r BBC yn chwarae rhan flaenllaw yn sector y cyfryngau yn y DU. Gwariodd £3.6biliwn yn 2008/09 (£3.5biliwn yn 2007/08), gan gynnwys £1.1biliwn a wariwyd y tu allan i'r BBC ar gynyrchiadau annibynnol, artistiaid ac adnoddau rhaglenni eraill (£1.2biliwn yn 2007/08).

Gwyddom fod y cyhoedd yn rhoi gwerth mawr ar yr amrywiaeth o ddewis sy'n deillio o farchnad ffyniannus ymhlith y cyfryngau yn y DU ac ar gadw'r dewis hwnnw er budd y cyhoedd. Rydym yn sicrhau bod y BBC yn chwaraewr teg yn sector ehangach y cyfryngau yn y DU.

### CYMERADWYO GWASANAETHAU NEWYDD

Un o'r prif bethau a ystyriwn wrth edrych ar fuddsoddiad y BBC mewn gwasanaethau newydd yw beth fyddai'r effaith ar y farchnad. Rydym yn pwyso a mesur y budd i grŵp penodol o dalwyr ffi'r drwydded o'i gymharu â budd y cyhoedd yn fwy cyffredinol. Er mwyn sicrhau ein bod yn cael y cydbwysedd iawn pan fo buddiannau sy'n groes i'w gilydd, rydym yn cymhwyso prawf gwerth cyhoeddus cyn cymeradwyo unrhyw wasanaethau newydd. Mae'r prawf yn ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y farchnad. Ni chymeradwywyd unrhyw wasanaethau newydd yn ystod y flwyddyn.

### GWEITHGAREDDAU MASNACHOL Y BBC

Yn ogystal â'i wasanaethau cyhoeddus, mae'r BBC yn ymgymryd â rhai gweithgareddau masnachol, y mae'n rhaid ymgymryd â hwy drwy is-gwmnïau. Y prif is-gwmni yw BBC Worldwide. Y nod yw creu refeniw i'w ailfuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus er budd talwyr ffi'r drwydded.

Ein rôl ni yw sicrhau bod y BBC yn cynnal ei weithgareddau masnachol yn deg ac atal y BBC rhag defnyddio ei bŵer economaidd mewn ffyrdd a allai rwystro mentergarwch gan eraill. Gosodwn y fframwaith sy'n cymeradwyo ac yn goruchwylio gwasanaethau masnachol newydd, sy'n cwmpasu pedwar maen prawf. Fel y nodwyd yng Nghytundeb y BBC, mae'n rhaid i wasanaethau:

- gydweddu i bwrpasau cyhoeddus y BBC
- dangos effeithlonrwydd masnachol
- peidio â pheryglu enw da'r BBC
- cydymffurfio â chanllawiau masnachu teg y BBC ac, yn arbennig, osgoi ystumio'r farchnad

Er mai ni sy'n gosod y fframwaith ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol gyflwyno adroddiadau yn ei erbyn, yn ymarferol Bwrdd BBC Worldwide neu'r Bwrdd Gweithredol sy'n gwneud y rhan fwyaf o benderfyniadau gweithredol. Mewn nifer fach o achosion mae angen ein cymeradwyaeth ni ar gyfer gwasanaethau newydd. Ni chymeradwywyd unrhyw wasanaethau newydd yn 2008/09.

### GORUCHWYLIO TREFNIADAU MASNACHU TEG

Mae cyfundrefn masnachu teg y BBC yn cwmpasu holl weithgareddau masnachu'r BBC ac fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod gweithgareddau masnachol a gweithgareddau masnachu eraill y BBC yn cael eu cynnal yn deg gyda'r nod o leihau unrhyw effaith negyddol ar y farchnad. Mae'r BBC yn cydnabod ei fod yn chwarae rhan unigryw ym marchnad y cyfryngau ac mae wedi dewis glynu wrth gyfyngiadau ar ei weithrediadau sy'n ychwanegol at y rhai a osodwyd arno gan gyfraith cystadleuaeth yn y DU ac Ewrop a'r rheolau ar gymorth gwladwriaethol.

O dan y Siarter mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth fabwysiadu datganiad polisi ar fasnachu teg a dwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif am gydymffurfio ag ef. Daeth Polisi Masnachu Teg Ymddiriedolaeth y BBC a Chodau Effaith Gystadleuol Ymddiriedolaeth y BBC i rym ar 1 Gorffennaf 2007.

Y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth y BBC o ddydd i ddydd o ran masnachu teg ac am ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â masnachu teg drwy ei Bwyllgor Cydymffurfio â Masnachu Teg.

Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth yr Ymddiriedolaeth (a ddisodlodd Bwyllgor Gwerth Cyhoeddus a Masnachu Teg yr Ymddiriedolaeth ar 1 Ionawr 2009) sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â masnachu teg ac am ymdrin ag apeliadau masnachu teg.

Cred yr Ymddiriedolaeth fod Ymrwymiad y BBC i Fasnachu Teg, Polisi Masnachu Teg a Chodau Effaith Gystadleuol Ymddiriedolaeth y BBC a Chanllawiau Masnachu Teg Rheolwyr y BBC yn gyson â gofynion y Siarter a'r Cytundeb. Drwy waith ein Pwyllgor, rydym wedi cael sicrwydd rhesymol bod rheolaethau a gweithdrefnau a gynlluniwyd i sicrhau bod y polisïau hyn yn cael eu cymhwyso drwy'r BBC wedi bod yn gweithredu'n effeithiol drwy gydol y flwyddyn. Byddwn yn parhau i adolygu'r polisïau yng nghyd-destun marchnad y cyfryngau sy'n datblygu o hyd. Yn Rhan Dau o'r adroddiad hwn mae'r Bwrdd Gweithredol yn sôn am ei fesurau ei hun i sicrhau cydymffurfiaeth.

Yn 2008, ystyriodd yr Ymddiriedolaeth bedair apêl masnachu teg a chadarnhaodd ddwy yn rhannol. Ar adeg ysgrifennu, mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried tair apêl masnachu teg; byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau y flwyddyn nesaf. Cyhoeddir canfyddiadau ein holl apeliadau ar ein gwefan.

Caiff yr Ymddiriedolaeth ei chynghori gan archwilwyr a chynghorwyr annibynnol ym maes masnachu teg. Mae'r archwilwyr annibynnol yn cynnal archwiliad blynyddol o fasnachu teg i ganfod a yw'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â'i Bolisi ar Fasnachu Teg, Codau ar Effaith Gystadleuol a'r Canllawiau Masnachu Teg. Mae'r archwiliad yn cynnwys rhaglen eang o arolygon, profion a gwerthusiadau ar draws holl is-adrannau'r BBC.

## ADRODDIAD YR ARCHWILWYR MASNACHU TEG ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2009

Yn ein rôl fel archwilwyr masnachu teg y BBC rydym wedi archwilio'r system o reolaethau mewnol a sefydlwyd o fewn y BBC i roi sicrwydd rhesymol i'r BBC bod Bwrdd Gweithredol y BBC wedi cydymffurfio â gofyniad ei Bolisi Masnachu Teg, Codau Effaith Gystadleuol a'r Canllawiau ar Fasnachu Teg ('y Trefniadau Masnachu Teg') am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009.

Cytunwyd ar ein cyfarwyddiadau ar gyfer yr archwiliad hwn, gan gynnwys cwmpas y gwaith i'w wneud, gyda Phwyllgor Gwerth Cyhoeddus a Masnachu Teg Ymddiriedolaeth y BBC (a ddisodlwyd ar 1 Ionawr 2009 gan y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth). Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys cytundeb y dylid cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safon Ryngwladol ar Ymrwymiadau Sicrwydd (ISAE) 3000, cytundeb ar derfyn ein hatebolrwydd mewn perthynas â'r gwaith hwn a chytundeb mai ar ran Ymddiriedolaeth y BBC, fel corff, yn unig y mae ein dyletswydd gofal mewn perthynas â'r gwaith hwn. Rydym yn fodlon bod y cwmpas y cytunwyd arno ar gyfer ein harchwiliad yn ddigonol i'n galluogi i fynegi'r farn a nodir isod.

### Priod gyfrifoldebau Ymddiriedolaeth y BBC, Bwrdd Gweithredol y BBC a'r Archwilwyr Masnachu Teg

Ymddiriedolaeth y BBC sy'n gyfrifol am sicrhau bod Bwrdd Gweithredol y BBC yn masnachu'n deg. Mae hefyd yn gyfrifol am baratoi'r adran o fewn yr adroddiad hwn o'r enw 'Goruchwylio trefniadau masnachu teg' sy'n cynnwys datganiad am fasnachu teg.

Mae Bwrdd Gweithredol y BBC, drwy Ymddiriedolaeth y BBC, yn gyfrifol am sefydlu a gweithredu system o reolaethau mewnol a gynlluniwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau masnachu teg y BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009, gan gynnwys nodi ac asesu risgiau a allai fygwth masnachu teg, a chynllunio a gweithredu ymatebion i risgiau o'r fath.

Fel archwilwyr masnachu teg y BBC, ein cyfrifoldeb ni yw llunio barn annibynnol, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, o ran y graddau y mae'r BBC wedi sefydlu, ac wedi cymhwyso, system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion ei Drefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009. Dim ond i'r graddau yr oedd angen gwneud hynny er mwyn llunio barn ar gymhwyso'r system o reolaethau mewnol yr adolygwyd penderfyniadau penodol a wnaed gan y BBC ar faterion masnachu teg. Rydym hefyd wedi adolygu a yw datganiad Ymddiriedolaeth y BBC am fasnachu teg yn adlewyrchu ein canfyddiadau o gydymffurfiaeth y BBC â'i system o reolaethau mewnol, a nodwn os nad yw'n gwneud hynny.

Paratowyd ein barn i Ymddiriedolaeth y BBC, fel corff, yn unig, yn unol â'n cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt gydag Uned Ymddiriedolaeth y BBC ar ran Pwyllgor Gwerth Cyhoeddus a Masnachu Teg Ymddiriedolaeth y BBC. Drwy roi'r farn hon, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb at unrhyw ddiben arall nac i unrhyw berson arall ac eithrio Ymddiriedolaeth y BBC neu Fwrdd Gweithredol y BBC y dangosir yr adroddiad hwn iddo, neu y daw i'w ran, ac ni fydd hawl gan unrhyw berson arall i ddibynnu ar ein barn, ac eithrio pan gytunwyd ar hynny'n benodol drwy ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gennym.

### Ein dull o weithredu

Rydym wedi ymgymryd ag ymrwymiad sicrwydd rhesymol fel y'i diffinnir yn ISAE 3000. Amcan ymrwymiad sicrwydd rhesymol yw ymgymryd â'r cyfryw weithdrefnau ag i gael y wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen yn ein barn ni i roi tystiolaeth ddigonol a phriodol i ni fynegi barn ar gydymffurfiaeth y BBC â'i Drefniadau Masnachu Teg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009.

Roedd ein gwaith yn cynnwys ymholi a phrofi i'n galluogi i lunio barn ynghylch a oedd system briodol o reolaethau mewnol ar waith. Adolygwyd y gwaith o brosesu sampl o drafodion perthnasol gennym hefyd er mwyn cael sicrwydd rhesymol bod y system o reolaethau mewnol wedi'i chymhwyso.

### Cyfyngiadau cynhenid

Fel gydag unrhyw system reoli, nid yw'n ymarferol sicrhau nad oes unrhyw wallau nac afreoleidd-dra wedi digwydd heb iddynt gael eu canfod. Nod ein gwaith archwilio oedd rhoi sicrwydd rhesymol i Ymddiriedolaeth y BBC o ran digonolrwydd y system o reolaethau mewnol a oedd ar waith ac yn cael ei chymhwyso er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'i threfniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009. At hynny, gan fod materion masnachu teg yn gofyn am farnau a allai gael eu profi mewn llys barn, awdurdod cystadlu neu mewn man arall yn y pen draw, mae risg bob amser y cyflwynir her hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol ac y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal pennaf.

### Barn

Yn seiliedig ar ganlyniadau ein gweithdrefnau, yn ein barn ni mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009.

**Deloitte LLP**
Cyfrifwyr Siartredig
Llundain
18 Mehefin 2009

## DEALL EFFAITH Y BBC AR SECTOR DARLLEDU'R DU

Cafwyd dadl gyhoeddus ers amser ynglŷn â maint ffi'r drwydded a'r effaith andwyol bosibl y gallai BBC a ariennir yn gyhoeddus ei chael ar ddarlledwyr masnachol eraill. Mae deall y ddadl hon a sicrhau bod effaith gyffredinol y BBC er budd talwyr ffi'r drwydded yn rôl hollbwysig i'r Ymddiriedolaeth. Wrth ystyried y mater, ac a yw effeithiau andwyol yn codi oherwydd graddfa a chwmpas gweithgareddau'r BBC, mae'n bwysig deall y manteision ehangach a ddaw yn sgîl sianelu arian cyhoeddus i fyd darlledu. I'r perwyl hwn, ym mis Ionawr 2008, comisiynwyd PricewaterhouseCoopers (PwC) i gynnal ymchwil i effaith economaidd gwasanaethau'r BBC a ariennir gan y cyhoedd ar y sector darlledu a chreadigol yn y DU.

### Crynodeb o adroddiad PwC

Amcangyfrifodd PwC mai effaith gadarnhaol gyffredinol gwariant y BBC ar weithgareddau creadigol, gan gynnwys gorbenion a seilwaith, oedd tua £6.5biliwn y flwyddyn, gyda mwy na £5biliwn yn cyfrannu i'r sector creadigol yn unig. Crëwyd senario damcaniaethol gan PwC lle cafodd y BBC ei ddisodli gan ddarlledwr a ariennir yn fasnachol, a'r canlyniad oedd effaith economaidd o £4.4biliwn yn unig, gan fod ffi'r drwydded yn dod ag arian ychwanegol i'r diwydiant na fyddai refeniw hysbysebion yn ei ddarparu.

Felly, casgliad yr adroddiad oedd bod statws ariannu'r BBC yn yr hirdymor drwy ffi'r drwydded flynyddol, er yn fraint i'r BBC, hefyd yn ffynhonnell hollbwysig o sefydlogrwydd i ddiwydiant darlledu cyfan y DU. Byddai BBC llai o faint neu wedi'i ariannu'n fasnachol yn golygu, er enghraifft, lai o fuddsoddiad yn sector cynhyrchu'r DU.

Daeth PwC i'r casgliad mai cadarnhaol yn bennaf oedd effaith y BBC ar y farchnad ddarlledu, ac nad yw'r BBC yn mynd â refeniw oddi ar ddarparwyr masnachol. Eto i gyd, mae angen cadw llygad ar rai meysydd, megis effaith y BBC ar radio masnachol a dewis o ran technoleg. Er bod effaith economaidd buddsoddiad ychwanegol y BBC ym mhedair gwlad y DU ac mewn darlledu rhanbarthol yn dechrau dod yn amlwg, mae potensial i'w gynyddu drwy ddatblygu cydberthnasau cryfach â darlledwyr lleol.

Yr her i'r BBC yw sicrhau, lle y bo modd, ei fod yn darparu buddiannau cadarnhaol i randdeiliaid eraill yn y sectorau y mae'r BBC yn gweithredu ynddynt, a hynny heb beryglu ei allu i gyflawni ei bwrpasau cyhoeddus.

Mae adroddiad llawn PwC ar gael ar ein gwefan bbc.co.uk/bbctrust

# SICRHAU SAFONAU GOLYGYDDOL

## CYNNAL SAFONAU GOLYGYDDOL YW UN O'N CYFRIFOLDEBAU PWYSICAF. O FEWN HYNNY, MAE AMDDIFFYN NATUR DDIDUEDD OLYGYDDOL Y BBC YN HOLLBWYSIG.

Mae Pwyllgor Safonau Golygyddol yr Ymddiriedolaeth yn chwarae rhan allweddol o ran cyflawni ein dyletswyddau mewn perthynas â chynnal safonau golygyddol. Yn 2009, bydd y Pwyllgor Safonau Golygyddol yn adolygu'r canllawiau golygyddol sy'n diffinio'r gwerthoedd a'r safonau sy'n sail i allbwn y BBC. Mae'r Pwyllgor Safonau Golygyddol hefyd yn gyfrifol am wrando apeliadau ynglŷn â safonau golygyddol ac am gomisiynu ymchwil i faterion penodol sy'n ymwneud â pherfformiad golygyddol y BBC megis natur ddiduedd.

### NATUR DDIDUEDD A'R GWLEDYDD

Yn ôl ein gwaith maes drwy gyfarfodydd cyhoeddus, ymchwil i cadarnhaol gynulleidfaoedd a'r Cynghorau Cynulleidfa dywedwyd wrthym fod llawer o dalwyr ffi'r drwydded o'r farn fod y BBC yn methu ag adlewyrchu'r newidiadau a welwyd yn y DU yn sgîl datganoli yn ddigonol. Yn benodol, teimlai pobl nad oedd rhaglenni rhwydwaith y BBC yn adlewyrchu amrywiaeth pedair gwlad y DU, ac nad oedd newyddion rhwydwaith y BBC ychwaith yn nodi'n gywir wahanol bolisïau gwleidyddol a chymdeithasol y gwledydd.

Felly trafododd arolwg cyntaf yr Ymddiriedolaeth o natur ddiduedd, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008, p'un a oedd allbwn newyddion a materion cyfoes rhwydwaith y BBC ynglŷn â phedair gwlad y DU yn ddiduedd, yn gywir ac yn glir o ran pa ffeithiau a safbwyntiau a oedd yn berthnasol i'r gwledydd unigol, a p'un a oedd polisïau'r gwledydd yn cael eu hadlewyrchu a'u hegluro'n gywir. Cynhaliwyd yr arolwg gan Anthony King, yr Athro mewn Llywodraeth ym Mhrifysgol Essex.

Daeth yr arolwg i'r casgliad, er nad oedd fawr ddim tystiolaeth bod darllediadau'r BBC yn y maes hwn yn ddiffygiol o ran natur ddiduedd, bod pryderon ynglŷn â chywirdeb ac eglurder yr adroddiadau, ystod y darllediadau a'u manwl gywirdeb, a chyfleoedd coll i gyfeirio at amrywiaeth cyfoethog y DU.

Yn sgîl cyhoeddi'r arolwg, cyflwynodd y Bwrdd Gweithredol gynllun gweithredu i'r Pwyllgor Safonau Golygyddol i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd, a rhoddwyd blwyddyn iddo ei roi ar waith.

Ym mis Chwefror 2009, cyflwynodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad interim i'r Ymddiriedolaeth. Daethom i'r casgliad bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar draws rhaglenni newyddion rhwydwaith o ran cynnwys a dealltwriaeth. Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwneud mwy o hyd i sicrhau bod newyddion rhwydwaith yn cyflawni ei gyfrifoldebau am gyfoethogi cynnwys i adlewyrchu pedair gwlad y DU a bod newidiadau yn y diwylliant gwaith yn barhaol.

Mae angen i ni fod yn siŵr y gall y newidiadau a nodwyd yn adroddiad y Bwrdd Gweithredol gael eu dangos yn annibynnol er ein boddhad ni, ac felly bwriadwn gynnal ymchwil annibynnol i gynnwys. Yn y cyfamser byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd fel y'i nodwyd yn adroddiadau'r Bwrdd Gweithredol.

### MYND I'R AFAEL Â CHWYNION AC APELIADAU GOLYGYDDOL

Un o swyddogaethau pwysig gwaith yr Ymddiriedolaeth yw sicrhau yr eir i'r afael â chwynion yn briodol. Lle y bo'n addas, gwrandawn apeliadau. Pan gaiff apêl ei chadarnhau, gall yr Ymddiriedolaeth ofyn i'r Bwrdd Gweithredol gymryd camau unioni.

#### Perfformiad y Bwrdd Gweithredol wrth ymdrin â chwynion

Bob chwe mis mae'r Bwrdd Gweithredol yn cyflwyno adroddiad i'r Ymddiriedolaeth ar faterion golygyddol difrifol, ymdrin â chwynion a chanfyddiadau ymchwiliadau i gwynion. Rhwng mis Ebrill 2008 a mis Mawrth 2009, cafodd y BBC ychydig dros 262,000 o gwynion. Roedd y ffigur wedi mwy na dyblu o'i gymharu â nifer y cwynion yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cyfrannodd cwynion ynglŷn â *The Russell Brand Show* ac apêl Argyfwng Gaza'r Pwyllgor Argyfyngau yn fawr iawn at y cyfanswm hwn. Atebwyd 90% o gwynion o fewn deg diwrnod gwaith, sy'n is na'r targed o 93% y cytunwyd arno. Fodd bynnag, cafodd 93% o gwynion eu hateb neu eu cydnabod o fewn deg diwrnod.

#### Apeliadau i'r Ymddiriedolaeth

Yn 2008/09, gwrandawodd y Pwyllgor Safonau Golygyddol ar 75 o apeliadau neu geisiadau am apêl, yr oedd 36 ohonynt yn ymwneud â materion ynglŷn â natur ddiduedd. O'r apeliadau hyn cadarnhawyd pedair apêl gennym a chadarnhawyd 24 o apeliadau'n rhannol, a oedd yn uwch na'r flwyddyn flaenorol pan wrandawsom ar 63 o apeliadau gan gadarnhau tair yn llawn a 19 yn rhannol. Ymdriniwyd â 9% o fewn y targed o 16 wythnos o gael yr apêl i anfon y canfyddiad, a hynny oherwydd cynnydd yn nifer yr apeliadau yr ymdriniwyd â hwy a'u cymhlethdod, a'r gwaith ychwanegol a wnaed gan y Pwyllgor Safonau Golygyddol ar safonau golygyddol a oedd yn ymwneud â digwyddiadau megis Brand/Ross.

### Enghreifftiau o benderfyniadau apêl yr Ymddiriedolaeth

### Apêl Argyfwng Gaza'r Pwyllgor Argyfyngau

Ym mis Ionawr 2009 penderfynodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol beidio â darlledu apêl y Pwyllgor Argyfyngau am gymorth dyngarol i drigolion Gaza. Cyfiawnhaodd ei benderfyniad drwy ddweud bod y gwrthdaro rhwng Israel a Gaza yn parhau i fod yn stori newyddion ac na allai'r BBC ddarlledu apêl unigol, waeth pa mor ofalus y cafodd ei llunio, heb godi'r risg o leihau hyder y cyhoedd o ran natur ddiduedd y BBC yn y ffordd roedd yn trin y stori'n fwy cyffredinol.

Bu dadl gyhoeddus fawr ynglŷn â'r penderfyniad hwn, gyda'r Bwrdd Gweithredol yn cael tua 40,000 o gwynion yn ystod wythnos gyntaf mis Chwefror. Gwrthodwyd y cwynion, gan arwain at tua 200 o apeliadau i'r Ymddiriedolaeth. Oherwydd pwysigrwydd y mater i'r cyhoedd, ffurfiwyd pwyllgor arbennig i wrando ar yr apeliadau, a gyfarfu ar 11 Chwefror a gwnaeth argymhellion y cytunwyd arnynt mewn cyfarfod llawn o'r Ymddiriedolaeth ar 18-19 Chwefror.

Roedd yr Ymddiriedolaeth yn fodlon bod penderfyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn rhesymol ar ôl ystyried pwysigrwydd diogelu enw da'r BBC am natur ddiduedd. Roedd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn fodlon bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi ceisio cyngor priodol wrth benderfynu peidio â darlledu'r apêl, gan y bobl briodol, gan gynnwys Cynghorydd Apeliadau Elusennol y BBC, uwch olygyddion ac aelodau o'r Pwyllgor Cynghori annibynnol ar Apeliadau ac ystyriodd yn ofalus farn y Pwyllgor Argyfyngau ei hun.

### Y Dwyrain Canol

Mae eitemau ynglŷn â'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol yn sensitif a chyflwynwyd apeliadau i'r Ymddiriedolaeth yn honni tueddfryd o blaid ac yn erbyn safbwyntiau Israel a'r Palestiniaid. Un apêl a gadarnhawyd yn rhannol gennym oedd apêl ynglŷn ag erthygl gan BBC News Online, *How 1967 Defined The Middle East*. Er i ni wrthod llawer o'r pwyntiau a godwyd gan yr achwynwyr, canfu'r Pwyllgor Safonau Golygyddol fod yr erthygl yn torri'r canllawiau ar natur ddiduedd oherwydd gallai darllenwyr fod wedi cael yr argraff mai'r dehongliad a gynigiwyd oedd yr unig safbwynt synhwyrol ynglŷn â'r rhyfel. Dyfarnodd y Pwyllgor y dylid bod wedi gwneud mwy i esbonio bod safbwyntiau croes ynglŷn â'r pwnc y gellid rhoi pwys arnynt. Cadarnhawyd pwyntiau o gywirdeb yn rhannol hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gweld tystiolaeth o unrhyw dueddfryd systematig yn adroddiadau'r BBC ar y gwrthdaro.

## MATERION GOLYGYDDOL ERAILL

Gofynnwyd hefyd i'r Bwrdd Gweithredol gyflwyno adroddiadau i ni ar achosion cydnabyddedig o dorri'r canllawiau golygyddol na fu cwynion yn eu cylch. Ystyriwyd y rhain gan y Pwyllgor Safonau Golygyddol ynghyd â'r ffordd yr ymdriniodd y Bwrdd Gweithredol â hwy. Ceir isod rai enghreifftiau o'r achosion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau Golygyddol yn 2008/09.

### Dermot O'Leary (BBC Radio 2) a Tony Blackburn (BBC London)

Mewn fersiynau a recordiwyd ymlaen llaw o'r rhaglenni hyn o 2005/06, darlledwyd cystadlaethau fel petaent yn fyw, a olygai nad oedd gan wrandawyr unrhyw obaith o ennill. Daeth y Pwyllgor Safonau Golygyddol i'r casgliad, er bod yr achosion hyn yn ddifrifol ac yn cynnwys twyllo'r gynulleidfa, y dylai camau unioni a gymerwyd gan y Bwrdd Gweithredol yn ystod 2007/08 atal achosion tebyg rhag codi yn y dyfodol.

### World Service

Roedd Afghan Radio Educational Features yn gwneud rhaglenni ar ran Ymddiriedolaeth y World Service i'w darlledu ar y World Service. Yn 2008, tynnwyd sylw at anghysonderau mewn rhaglenni gan chwythwr chwiban. O ganlyniad i ymchwiliad canfuwyd tystiolaeth o ddiffygion golygyddol difrifol lle'r oedd cyfweliadau ag aelodau o staff yn cael eu cyflwyno i'r gynulleidfa fel cyfweliadau ag arbenigwyr neu aelodau o'r cyhoedd. Roedd y diffygion hyn yn hynod ddifrifol ym marn y Pwyllgor Safonau Golygyddol a gofynnodd i'r World Service gynnal arolwg o sgiliau a phrofiad timau Ymddiriedolaeth y World Service sy'n gwneud rhaglenni i'r World Service a chyflwyno system gydymffurfiaeth fwy trwyadl ar gyfer allbwn Ymddiriedolaeth y World Service.

# GWASANAETHU POB CYNULLEIDFA

## GAN FOD YN RHAID I BAWB SY'N GWYLIO RHAGLENNI TELEDU BRYNU TRWYDDED, MAE CYFRIFOLDEB PENODOL ARNOM I SICRHAU BOD Y BBC YN GWASANAETHU POB UN CYSTAL Â PHOSIBL.

Nod ffi'r drwydded, sy'n unigryw i'r BBC, yw sicrhau allbwn o safon uchel, am ddim wrth ei ddarparu, sydd ar gael i bawb. Ond wrth gwrs, mae'n golygu bod yn rhaid i bawb sy'n gwylio rhaglenni teledu brynu trwydded beth bynnag fo'u barn am y BBC. Felly mae cyfrifoldeb penodol ar yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod pawb yn cael ei wasanaethu cystal â phosibl.

### GWRANDO AR GYNULLEIDFAOEDD

Bob blwyddyn rydym yn cynnal rhaglen ymchwil ar wahanol agweddau ar wasanaeth y BBC; rydym yn cael cyngor gan ein Cynghorau Cynulleidfa yn y pedair gwlad; ac rydym yn gwahodd y cyhoedd i gyfathrebu'n uniongyrchol â ni drwy ein hymgynghoriadau. Eleni, rydym wedi gwella ein technegau ymgynghori, er enghraifft drwy ddarparu gwefan at ddefnydd plant yn ein harolwg o wasanaethau plant. Rydym hefyd yn cynnal nifer fach o gyfarfodydd cyhoeddus, er ein bod yn cydnabod nad yw'r rhan fwyaf o bobl am ymgysylltu â sefydliadau yn y ffordd hon erbyn hyn. Felly mae rhaglenni ffonio i mewn ar y radio yn chwarae rhan werthfawr o ran rhoi cyfle i'r cyhoedd holi'r Ymddiriedolwyr yn uniongyrchol.

### CWYNION AC APELIADAU

Mae cwynion yn rhan bwysig o wrando ar gynulleidfaoedd, ac rydym yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn ymdrin â chwynion yn briodol. Ein hegwyddorion pennaf yw bod yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth weithredu'n annibynnol ar y Bwrdd Gweithredol wrth ymdrin â hwy ac y dylai'r system drin achwynwyr yn yr un modd â'r BBC cyhyd ag y bo'n ymarferol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwrando ar apeliadau terfynol os bydd pobl yn anfodlon ar y ffordd yr ymdriniodd y Bwrdd Gweithredol â'u cwynion yn wreiddiol.

Er mwyn ymdrin â chwynion yn effeithlon, rydym yn eu rhannu'n chwe chategori – cyffredinol, golygyddol, masnachu teg, Trwyddedau Teledu, Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol a chwynion am yr Ymddiriedolaeth ei hun – ac mae gennym weithdrefnau penodol ar gyfer pob un. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan yn bbc.co.uk/bbctrust/appeals

### BETH YW BARN CYNULLEIDFAOEDD AM Y BBC

Ceir cefnogaeth gref i'r BBC yn gyffredinol. Dangosodd ein harolwg yn 2009 y byddai 85% o oedolion yn gweld eisiau'r BBC pe na bai'n bodoli, sef cynnydd o gymharu â 70% yn 2007. Fodd bynnag mae gan rai grwpiau mewn cymdeithas gysylltiad cryfach â'r BBC nag eraill. Yn gyffredinol, mae pobl hŷn a gwell eu byd yn fwy tebygol o roi gwerth ar y BBC tra bod lleiafrifoedd ethnig, pobl yn y gwledydd datganoledig a phobl ymhellach i ffwrdd o Lundain yn tueddu i fod yn fwy beirniadol.

Felly yn 2007 pennwyd dau amcan i'r BBC y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- ennill mwy o gefnogaeth ymhlith y rhai sydd fwyaf beirniadol (cymeradwywyr isel)
- cynnal cefnogaeth ymhlith ein cynulleidfaoedd teyrngar (cymeradwywyr uchel)

Dengys y prif ddata ar dudalennau 6 i 7 fod y BBC yn gwneud peth cynnydd, gydag ychydig yn fwy o gymeradwywyr uchel ac ychydig yn llai o gymeradwywyr isel.

### CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Credwn y dylai staff y BBC adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth y DU er mwyn cynrychioli talwyr ffi'r drwydded fwyaf effeithiol. Un o'n pryderon mawr yw cyfran y staff ar lefel uwch o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig. Mae'r gyfran wedi codi o 5% yn 2008 i 5.6% yn 2009, ond methir o hyd â chyrraedd ein targed gwreiddiol sef 7%, yr oeddem wedi anelu at ei gyflawni erbyn 2007. Rydym wedi ei gwneud yn glir i'r Bwrdd Gweithredol ein bod yn disgwyl iddynt gymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

Mae gan y BBC ddyletswyddau hefyd o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb i hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol a gweithio i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon o ran anabledd, rhyw a hil mewn perthynas â rhai 'swyddogaethau cyhoeddus', sy'n cynnwys Trwyddedau Teledu, trefniadau newid i ddigidol a rhai o swyddogaethau rheoleiddio'r Ymddiriedolaeth. Rydym wedi cyhoeddi cynlluniau cydraddoldeb sy'n nodi sut y bwriadwn gyflawni hyn ac yn rhoi adroddiad ar berfformiad bob blwyddyn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r BBC wedi gwneud cynnydd. Ymhlith yr enghreifftiau mae cynnwys pobl anabl wrth ddatblygu'r Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol a chynnal ymchwil ar y cyd â Channel 4 gyda chynulleidfaoedd anabl ynglŷn â mynediad at wasanaethau'r BBC gan gynnwys iPlayer. Eleni dechreuodd yr adran Trwyddedau Teledu ar Raglen Asesu Effaith ar Gydraddoldeb dros dair blynedd a fydd yn ystyried dulliau a phrosesau talu i sicrhau eu bod yn briodol i amryw anghenion a ffyrdd o fyw.

Fel yr Ymddiriedolaeth, bydd angen hefyd i ni sicrhau ein bod yn ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gweithrediadau a'n hymddygiad ein hunain. Eleni rydym wedi gwneud cynnydd da, gan geisio safbwyntiau amrywiaeth mawr o bobl ar ein gwaith. Roedd ein harolwg o wasanaethau plant yn cynnwys ymchwil ansoddol ymhlith plant o gartrefi lleiafrifoedd ethnig, ac roedd ein harolwg o Gasglu Trwyddedau Teledu yn cynnwys ymchwil gyda mewnfudwyr diweddar, pobl anabl, pobl ar incwm isel a'r henoed. Cyhoeddir crynodebau o berfformiad ar gyfer 2008/09 yn llawn ar ein gwefan.



# O FEWN YR YMDDIRIEDOL




60/ O FEWN YR YMDDIRIEDOLAETH/
68/ CYSYLLTIADAU/

# O FEWN YR YMDDIRIEDOLAETH

## FEL YMDDIRIEDOLWYR Y BBC RYDYM YN YMRWYMEDIG I GYNNAL Y SAFONAU UCHAF O RAN LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL.

Yn yr adran hon rydym yn nodi:

1. Sut rydym yn gweithredu
2. Asesu ein perfformiad ein hunain
3. Costau rhedeg yr Ymddiriedolaeth
4. Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr
5. Presenoldeb yr Ymddiriedolwyr mewn cyfarfodydd
6. Cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

### 1. SUT RYDYM YN GWEITHREDU

Ein cyfrifoldeb ni yw cael y gorau o'r BBC ar gyfer talwyr ffi'r drwydded. Mae sut y gwnawn hyn yr un mor bwysig â beth a wnawn. Wrth ymgymryd â'n dyletswyddau, fel y diffinnir yn y Siarter a'r Cytundeb, ein hymrwymiad yw:

- amddiffyn annibyniaeth y BBC yn chwyrn bob amser
- gwrando ar y cyhoedd a defnyddio safbwyntiau cynulleidfaoedd i lywio'r penderfyniadau a wnawn
- gwerthfawrogi natur broffesiynol, arloesedd a chreadigrwydd staff a chyfranogwyr y BBC
- dwyn rheolwyr y BBC i gyfrif yn llym

Yn bwysicaf, rydym hefyd yn sicrhau bod ein prosesau mor agored a thryloyw â phosibl. Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y sefydliad cyfan yn cadw at safonau uchel o ran bod yn agored a thryloyw ac mae hyn yn rhywbeth rydym yn ei gymryd o ddifrif.

Amlinellir dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth yn y Siarter a'r Cytundeb. Er mwyn ategu'r dogfennau hyn rydym wedi sefydlu 'protocolau' sy'n rhoi mwy o fanylion ar sut y byddwn yn cyflawni'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hyn. Maent hefyd yn nodi'n fanwl y gydberthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol. Cyhoeddir yr holl ddogfennau hyn ar ein gwefan bbc.co.uk/bbctrust

Wrth i ni gynllunio ein rhaglen waith flynyddol rydym yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ar gynllun gwaith blynyddol ac yn ceisio sylwadau gan eraill ar y blaenoriaethau y dylem eu cael. Fel rhan o'r broses hon mae'r Cynghorau Cynulleidfa hefyd yn cynnig blaenoriaethau i'r Ymddiriedolaeth eu hystyried.

Ar ôl i ni wneud penderfyniad, rydym yn cyhoeddi ein casgliadau yn eglur ynghyd â'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio ein barn. Rydym yn egluro ein penderfyniadau i dalwyr ffi'r drwydded ac i'r rheini y gallent effeithio arnynt yn y BBC.

Cynhelir ein busnes rheolaidd mewn cyfarfodydd misol o'r Ymddiriedolaeth lawn. Yn y cyfarfodydd hyn byddwn yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau ac yn ystyried cynigion gan y Bwrdd Gweithredol. Rydym yn cyhoeddi cofnodion y cyfarfodydd hyn ar ein gwefan. Yn ogystal â chwrdd fel yr Ymddiriedolaeth lawn, rydym yn cwrdd mewn pwyllgorau llai.

#### Uned Yr Ymddiriedolaeth

Cawn ein cefnogi yn ein gwaith gan Uned yr Ymddiriedolaeth, sy'n rhoi cyngor annibynnol a gwrthrychol, gan alw ar arbenigwyr allanol pan fydd angen. Mae Uned yr Ymddiriedolaeth yn annibynnol ar y Bwrdd Gweithredol; caiff ei Chyfarwyddwr ei benodi gan yr Ymddiriedolaeth; ac mae ei staff y tu allan i gadwyn reoli'r BBC. Mae'r uned yn cynnwys staff proffesiynol sy'n arbenigo mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau, yn cynnwys ymchwil i gynulleidfa, economeg, datblygu polisi, dadansoddi perfformiad a dadansoddi ariannol, a llywodraethu corfforaethol. Mae'r Uned yn cynghori'r Ymddiriedolwyr ar eu dyletswyddau, yn rheoli swyddogaethau rheoleiddio a goruchwylio'r Ymddiriedolaeth, ac yn rhoi asesiadau annibynnol o gynigion gan y Bwrdd Gweithredol i'r Ymddiriedolaeth.

#### Pwyllgorau Ymddiriedolaeth Y BBC

Gwnawn lawer o'n gwaith drwy saith pwyllgor sy'n gallu gwneud penderfyniadau penodol ar ran yr Ymddiriedolaeth gyfan. Mae llawer o'r pwyllgorau hyn yn cwrdd yn fisol, a cheir rhestr o nifer y cyfarfodydd a phresenoldeb yr Ymddiriedolwyr ar dudalen 66.







Gellir gweld cylch gorchwyl llawn pob un o bwyllgorau'r Ymddiriedolaeth ar ein gwefan.

### Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad

David Liddiment (Cadeirydd)
Diane Coyle
Alison Hastings
Y Fonesig Patricia Hodgson
Mehmuda Mian

Y Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad sy'n gyfrifol, ar ran yr Ymddiriedolaeth, am oruchwylio perfformiad holl wasanaethau cyhoeddus y BBC a'r pwrpasau cyhoeddus a gyflawnir ganddynt. Mae hyn yn cynnwys y rheini yn y DU yn ogystal â BBC World Service.

Mae'r Pwyllgor yn monitro perfformiad gwasanaethau'r BBC yn erbyn y meini prawf a nodir yn y trwyddedau gwasanaeth. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn darparu data perfformiad i'r Pwyllgor ei adolygu, ac mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal dadansoddiad annibynnol drwy Uned yr Ymddiriedolaeth.

Un o brif ffrydiau gwaith y Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad yw ei raglen o arolygon gwasanaeth. Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth gynnal arolwg ffurfiol o holl wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Yn dilyn arolwg, mae'r Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad yn ystyried pa gamau y dylid eu cymryd, os o gwbl, i sicrhau bod y gwasanaeth(au) yn cyflawni'r amcanion a nodwyd gan yr Ymddiriedolaeth. Os oes angen newidiadau i drwydded gwasanaeth o ganlyniad i arolwg, mae'r Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad yn argymell y newidiadau hyn i'r Ymddiriedolaeth lawn eu hystyried.

Mae'r Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad hefyd yn goruchwylio rhaglen yr Ymddiriedolaeth o ymgysylltu â chynulleidfaoedd ac ymchwil i gynulleidfaoedd, yn cynnwys yr arolwg blynyddol o gylchoedd gwaith pwrpasau'r BBC.

### Pwyllgor Safonau Golygyddol

Richard Tait (Cadeirydd)
Chitra Bharucha
Anthony Fry
Alison Hastings
David Liddiment
Mehmuda Mian

Mae'r Pwyllgor Safonau Golygyddol yn gyfrifol am gomisiynu canllawiau ar safonau golygyddol gan y Bwrdd Gweithredol, a hwn yw'r corff apelio terfynol o fewn y BBC o ran penderfynu a gyrhaeddwyd y safonau hynny.

Mae'n ystyried ac yn argymell canllawiau golygyddol drafft i'r Ymddiriedolaeth eu cymeradwyo ac mae'n cynghori'r Ymddiriedolaeth ar y ffordd y cymhwysir y canllawiau drwy'r BBC cyfan drwy fonitro cydymffurfiaeth y BBC â hwy. Gwna hyn drwy gomisiynu adroddiadau rheolaidd gan y Bwrdd Gweithredol ar brosesau a pherfformiad cydymffurfiaeth olygyddol.

Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau Golygyddol hefyd sicrhau bod fframwaith ar gyfer ymdrin â chwynion golygyddol o fewn y BBC ac, wrth wneud hynny, mae'n cynnal arolwg blynyddol o'r broses o ymdrin â'r cwynion hyn a'r perfformiad. Nid yw'n ystyried apeliadau ynglŷn â chwynion oni bai eu bod wedi mynd drwy broses gwyno'r Bwrdd Gweithredol. Bydd yn rhaid i unrhyw apêl a ystyrir gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ymwneud â chanfyddiad bod Canllawiau Golygyddol y BBC wedi cael eu torri a/neu â'r ffordd yr ymdriniwyd â chwyn am fater golygyddol gan y Bwrdd Gweithredol.

Mae hefyd yn comisiynu ac yn rheoli arolygon o natur ddiduedd ar ran yr Ymddiriedolaeth.

### Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth

Rotha Johnston (Cadeirydd)
Anthony Fry
Y Fonesig Patricia Hodgson
Janet Lewis-Jones
Jeremy Peat

Mae'r Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth yn ymgymryd â chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth am faterion cyllid, gwerth am arian a chydymffurfiaeth.

Mae'n ystyried, a gall gymeradwyo, gynigion mawr a sylweddol ar gyfer buddsoddiadau ariannol gan y Bwrdd Gweithredol. Mae hefyd yn ystyried ac yn craffu ar y gyllideb flynyddol gan y Bwrdd Gweithredol cyn i'r Ymddiriedolaeth ei hystyried.

Mae'n rheoli rhaglen astudiaethau gwerth am arian yr Ymddiriedolaeth ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod argymhellion yr arolygon yn cael eu gweithredu gan y Bwrdd Gweithredol.

O ran cydymffurfiaeth, mae'n goruchwylio swyddogaethau cydymffurfiaeth y Bwrdd Gweithredol (heblaw am gydymffurfiaeth olygyddol a oruchwylir gan y Pwyllgor Safonau Golygyddol) ac yn monitro rheolaethau mewnol a rheoli risg.

Mae hefyd yn gyfrifol am ystyried apeliadau yn erbyn cwynion sydd eisoes wedi cael eu hystyried gan y Bwrdd Gweithredol ynglŷn â masnachu teg a Thrwyddedau Teledu. Mae hefyd yn ymgymryd â chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth o ran y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol.

### Pwyllgor Cymeradwyo Strategol

Diane Coyle (Cadeirydd)
Y Fonesig Patricia Hodgson
Rotha Johnston
Jeremy Peat
Richard Tait

David Liddiment (yn mynychu yn rhinwedd ei swydd fel cadeirydd y Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad, a dim ond ar gyfer materion sy'n ymwneud â chymeradwyo gwasanaethau).

Mae'r Pwyllgor Cymeradwyo Strategol yn ystyried cynigion gan y Bwrdd Gweithredol ar gyfer gwasanaethau newydd neu newidiadau i wasanaethau sy'n bodoli eisoes, ac eithrio'r rhai a gynigiwyd fel rhan o'r broses adolygu gwasanaethau, a ystyrir gan y Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Cymeradwyo Strategol benderfynu a oes angen prawf gwerth cyhoeddus a hysbysu'r Ymddiriedolaeth yn unol â hynny.

Mae'r Pwyllgor yn rheoli profion gwerth cyhoeddus ar ran yr Ymddiriedolaeth ac yn gwneud argymhellion i'r Ymddiriedolaeth ynglŷn â chanlyniadau posibl.

Mae hefyd yn ystyried cynigion gan y Bwrdd Gweithredol ynglŷn â materion 'nad ydynt yn wasanaethau', megis Freesat, a, phe bai rhaid, bydd y Pwyllgor yn rheoli unrhyw asesiad o gymeradwyo mater nad yw'n wasanaeth ar ran yr Ymddiriedolaeth.

Hefyd, mae'r Pwyllgor yn goruchwylio strategaeth fasnachol y BBC ac yn rheoli unrhyw broses gymeradwyo sydd ei hangen er mwyn i'r Ymddiriedolaeth ystyried mentrau masnachol.

### Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau
Chitra Bharucha (Cadeirydd)
Anthony Fry
Syr Michael Lyons
Janet Lewis-Jones

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau yn rheoli cyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth o ran cydnabyddiaeth a phenodiadau'r Bwrdd Gweithredol. Mae'n gosod y strategaeth gydnabyddiaeth i'r Bwrdd cyfan, a hefyd yn gwneud argymhellion i'r Ymddiriedolaeth ynglŷn â thâl a buddiannau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a Chyfarwyddwyr anweithredol. Fodd bynnag penderfynir ar dâl a buddiannau cyfarwyddwyr gweithredol gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr anweithredol yn unig.

### Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa
Chitra Bharucha (Cadeirydd)
Alison Hastings (Ymddiriedolwr dros Loegr)
Rotha Johnston (Ymddiriedolwr dros Ogledd Iwerddon)
Janet Lewis-Jones (Ymddiriedolwr dros Gymru)
Jeremy Peat (Ymddiriedolwr dros yr Alban)

Mae'r Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa yn dwyn ynghyd y pedwar Ymddiriedolwr cenedlaethol i oruchwylio a chydlynu cyfraniadau Cynghorau Cynulleidfa'r BBC â gwaith yr Ymddiriedolaeth. Ei rôl yw sicrhau yr ymdrinnir â materion a nodwyd gan Gynghorau Cynulleidfa mewn ffordd briodol gan yr Ymddiriedolaeth a bod y Cynghorau Cynulleidfa yn gweithio o fewn eu cylch gwaith.

Ar ran yr Ymddiriedolaeth, mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo aelodaeth o'r Cynghorau Cynulleidfa.

### Panel Apeliadau Cyffredinol
Nid yw'r aelodaeth yn sefydlog. Mae'r Panel yn cynnwys dau Ymddiriedolwr ac fe'i cadeirir gan yr Is-Gadeirydd (Chitra Bharucha) fel arfer.

Mae'r Panel Apeliadau Cyffredinol hefyd yn un o bwyllgorau'r Ymddiriedolaeth, er nad yw'n cyfarfod yn rheolaidd. Ei rôl yw gwrando ar apeliadau ar gwynion cyffredinol ar ran yr Ymddiriedolaeth, sef y rhai nad ydynt yn dod o dan weithdrefnau penodol y BBC ar gyfer cwynion ynglŷn â materion golygyddol, masnachu teg, Trwyddedau Teledu neu'r Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol.

## 2. ASESU EIN PERFFORMIAD EIN HUNAIN
Bob blwyddyn rydym yn adolygu ein perfformiad ein hunain, gan gynnwys perfformiad pob pwyllgor, ac yn crynhoi ein canfyddiadau yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae hyn yn ofyniad rydym yn ei osod ein hunain yn ein Rheolau Sefydlog ein hunain, a gyhoeddir ar ein gwefan, ac fe'i hargymhellir hefyd gan y Cod Cyfunol ar Lywodraethu Corfforaethol.

Eleni penodwyd ymgynghorydd allanol i'n helpu i asesu ein perfformiad. Cyfwelodd yr ymgynghorydd â phob Ymddiriedolwr yn unigol a gofynnodd iddynt asesu pa mor effeithiol ydym o ran ymgymryd â'n dyletswyddau a'n cyfrifoldebau. Drwy'r arolwg myfyriwyd ar y ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth a'i phwyllgorau yn gweithredu a'r ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal ei busnes ac yn cyflawni ei chylch gwaith.

Nododd Ymddiriedolwyr rai meysydd y mae angen i ni ganolbwyntio'n fanylach arnynt er mwyn gwella effeithiolrwydd ein gwaith:

- er gwaethaf y cynnydd a wnaed eleni, mae angen i ni sicrhau ein bod yn treulio digon o amser ar ddyfodol y BBC yn yr hirdymor yn ogystal â'r tymor canolig – gan edrych y tu hwnt i'r cynllun chwe blynedd cyfredol
- mae angen i ni gytuno ar y ffordd orau o geisio barn cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid ar faterion sydd weithiau'n dechnegol iawn, ac nad ydynt bob amser yn hawdd eu deall
- mae angen i ni fyfyrio ymhellach ar y ffordd orau o gyfleu canlyniadau ein gwaith o fewn y BBC ac yn allanol

Yn gyffredinol, daeth ein hasesiad i'r casgliad:

- bod prif rannau goruchwylio a rheoleiddio gwaith yr Ymddiriedolaeth bellach yn cael eu deall a'u profi'n gliriach, o fewn y BBC ac yn allanol, ond mae angen gwneud mwy i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu mor effeithiol â phosibl
- mae'r gydberthynas â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'i gydweithwyr yn y Bwrdd Gweithredol yn gryf ac yn gynhyrchiol ac mae hyn yn arwain at fuddiannau i dalwyr ffi'r drwydded
- mae ein dull o bennu safonau llym a dwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif i'w cyflawni wedi bod yn effeithiol

Edrychwn ymlaen at yr heriau yn y flwyddyn i ddod ac at gyflwyno'r agenda lawn a bennwyd gennym ein hunain.

# RYDYM WEDI LLEIHAU GWARIANT UNIONGYRCHOL YR YMDDIRIEDOLAETH MEWN TERMAU GWIRIONEDDOL I 0.31% O WARIANT CYHOEDDUS Y DU YN Y BBC.

## 3. COSTAU RHEDEG YR YMDDIRIEDOLAETH

Ariennir yr Ymddiriedolaeth drwy arian ffi'r drwydded. Fel y cyfryw, mae'n bwysig iawn y caiff yr Ymddiriedolaeth ei rhedeg yn effeithlon. Y llynedd, ymrwymwyd i sicrhau bod gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth yn llai na 0.35% o wariant cyhoeddus y BBC yn y DU.

Mae'n bleser gennym nodi ein bod wedi lleihau gwariant uniongyrchol mewn termau gwirioneddol i 0.31% o wariant cyhoeddus y BBC yn y DU, o 0.34% y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn deillio o effeithlonrwydd gweinyddol gyda'r Ymddiriedolaeth ei hun, ac o ganolbwyntio mwy ar ein gwaith ein hunain. Yn ystod y flwyddyn adolygwyd y ffordd y caiff y Cynghorau Cynulleidfa rhanbarthol eu cynorthwyo hefyd a chytunwyd ar rai newidiadau. Bydd hyn yn arwain at leihau'r gost o'u cynorthwyo i ddatblygu.

Isod nodir datganiad gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth ac adroddiad yr archwilydd allanol ar y datganiad hwn.

### Datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth

| | **2008/09 £000** | 2007/08 £000 |
|---|---|---|
| Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr[1] | **677** | 642 |
| Costau staff[2] | **4,674** | 4,526 |
| Costau gweithredu eraill[3] | **4,858** | 6,741 |
| Costau ailstrwythuro[4] | **308** | – |
| Gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth[5, 6] | **10,517** | 11,909 |

| | **2008/09 %** | 2007/08 % |
|---|---|---|
| Gwariant yr Ymddiriedolaeth fel % o wariant cyhoeddus y BBC yn y DU | **0.31** | 0.34 |

| | **2008/09 £000** | 2007/08 £000 |
|---|---|---|
| Ffioedd rheoleiddio Ofcom[7] | **3,571** | 3,253 |
| Ffioedd MIA Ofcom[8] | **911** | 491 |
| Cyfanswm ffioedd Ofcom sy'n daladwy gan yr Ymddiriedolaeth | **4,482** | 3,744 |

Nodiadau ar ddatganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth:

1 Dangosir y gydnabyddiaeth a gaiff pob Ymddiriedolwr yn y tabl ar dudalen 65.

2 Mae costau'r staff yn cynnwys cyflogau, costau nawdd cymdeithasol a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr. Roedd y swm ar gyfer 2007/08 yn cynnwys croniad ar gyfer taliadau bonws. Ni thelir bonysau ar gyfer y flwyddyn 2008/09.

3 Mae costau gweithredu yn cynnwys gwariant uniongyrchol ar weithgareddau megis ymchwil, cyngor cyfreithiol a gwasanaethau cynghori arbenigol eraill.

4 Mae'r gwariant ar ailstrwythuro yn deillio o arolwg i'r ffordd y caiff y Cynghorau Cynulleidfa rhanbarthol eu gwasanaethu. Mae hyn wedi arwain at leihau nifer y staff sydd ei angen.

5 Mae'r gwariant a nodir uchod ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn cynrychioli gwariant allanol uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi defnyddio gwasanaethau cyffredin a ddarparwyd gan wasanaethau cyhoeddus y BBC a oedd yn cynnwys gwasanaethau eiddo, cyllid, adnoddau dynol a gwybodaeth.

6 O wariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth, mae £1,539,000 yn ymwneud â gwariant ar ein gweithgareddau yn y pedair gwlad sy'n cwmpasu'r cymorth i'r pedwar Cyngor Cynulleidfa cenedlaethol a'r 12 Cyngor Cynulleidfa rhanbarthol yn bennaf (2007/08: £1,595,000).

7 Mae Ofcom yn dyrannu ei gostau rheoleiddio teledu a radio rhwng y BBC a'r sianelau masnachol a darlledu cyhoeddus eraill yn y DU. Yr Ymddiriedolaeth sy'n talu cyfran y BBC o'r dyraniad hwnnw.

8 Mae ffioedd Asesiad Effaith ar y Farchnad (MIA) Ofcom yn cynnwys costau uniongyrchol ac anuniongyrchol Ofcom i gynnal yr MIA ar gyfer y profion gwerth cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod. Cwblhawyd un MIA yn ystod y flwyddyn (fideo lleol) o gymharu â dau yn 2007/08 (HDTV a'r gwasanaeth Gaeleg).

### Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr

Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth y BBC yw prif swyddog Uned yr Ymddiriedolaeth fel y nodir yn Siarter y BBC. Ef yw prif gynghorydd Ymddiriedolaeth y BBC a phrif weithredwr Uned yr Ymddiriedolaeth. Roedd ei gyflog sylfaenol ar gyfer 2008/09 yn £237,900 (2007/08: £231,000) ac roedd cyfanswm ei enillion hyd at 31 Mawrth 2009 yn £282, 648 (2007/08: £296,471). Ynghyd ag aelodau eraill o'r staff ni fydd yn cael bonws am y flwyddyn 2008/09. Mae'n aelod o Gynllun Pensiwn y BBC.

## Nifer staff yr Ymddiriedolaeth

| | **Cyfartaledd am y flwyddyn 2009 Nifer*** | Cyfartaledd am y flwyddyn 2008 Nifer* |
|---|---|---|
| Ymddiriedolwyr | 12.0 | 11.9 |
| Staff Uned yr Ymddiriedolaeth[1] | 60.4 | 56.0 |
| Aelodau eraill o staff[2] | 9.8 | 9.7 |

Nodiadau:

* Mae'r niferoedd a ddangosir yn gyfwerth ag amser llawn.

[1] Staff Uned yr Ymddiriedolaeth yw'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan Uned yr Ymddiriedolaeth. O'r rhain, lleolir 12 y tu allan i Lundain gan gefnogi'r gwaith a wneir gan yr Ymddiriedolaeth yn y pedair gwlad, Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

[2] Mae aelodau eraill o staff yn cyfeirio at y rheini sy'n cefnogi'r 12 Cyngor Cynulleidfa rhanbarthol ond nad ydynt yn gyflogeion uniongyrchol i Uned yr Ymddiriedolaeth. Caiff costau'r staff hyn eu had-dalu gan yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu'r trefniadau ar gyfer cefnogi'r Cynghorau Cynulleidfa rhanbarthol ac yn ystod 2009/10, bydd y staff y mae'n ofynnol iddynt gefnogi'r cynghorau yn trosglwyddo i gael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth.

Caiff gwariant yr Ymddiriedolaeth ei gynnwys yn natganiad ariannol y BBC a archwiliwyd a nodir yn Rhan Dau o'r adroddiad hwn. Gofynnwyd i KPMG gadarnhau ein bod wedi tynnu gwariant yr Ymddiriedolaeth ei hun yn briodol, gan gynnwys cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr, o wariant llawn y BBC. Caiff eu hadroddiad ei gynnwys isod.

### Adroddiad KPMG LLP i Ymddiriedolaeth y BBC ('yr Ymddiriedolaeth')

Yn unol â thelerau ein llythyr penodi dyddiedig 3 Mehefin 2008, rydym wedi astudio'r datganiad o wariant uchod ('datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 a baratowyd, yn unol â gofynion Siarter y BBC dyddiedig Hydref 2006, gan yr Ymddiriedolwyr a hwy yn unig sy'n gyfrifol amdano. Paratowyd datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth gan yr Ymddiriedolwyr gan gymhwyso gofynion cydnabod a mesur Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU.

Ein cyfrifoldeb ni, yn unol â thelerau ein llythyr penodi, yw ffurfio barn annibynnol, ar sail y gwaith a wnaed, a chyflwyno ein barn i'r Ymddiriedolaeth. Nid oedd ein hastudiaeth mor fanwl ag archwiliad o gryn dipyn.

Paratowyd ein hadroddiad i'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r Siarter yn unig. Cynlluniwyd ein hadroddiad i fodloni'r gofynion y cytunwyd arnynt â'r Ymddiriedolaeth a nodweddion arbennig ein penodiad a bennwyd gan anghenion yr Ymddiriedolaeth ar y pryd. Felly ni ddylid ystyried ein hadroddiad fel deunydd addas i'w ddefnyddio nac i ddibynnu arno gan unrhyw barti sy'n awyddus i gaffael hawliau yn ein herbyn ac eithrio'r Ymddiriedolaeth at unrhyw ddiben neu mewn unrhyw gyd-destun. Bydd unrhyw barti arall ac eithrio'r Ymddiriedolaeth a fydd yn cael gafael ar ein hadroddiad (neu unrhyw ran ohono) yn gwneud hynny ar ei fenter ei hun. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, ni fydd KPMG LLP yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb na rhwymedigaeth mewn perthynas â'n hadroddiad i unrhyw barti arall.

Yn ein barn ni, mae'r gwariant fel y'i nodir yn natganiad yr Ymddiriedolaeth wedi'i dynnu'n gywir o lyfrau a chofnodion yr Ymddiriedolaeth ar sail y tybiaethau a nodir yn y Nodiadau i ddatganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth.

**KPMG LLP**

Cyfrifwyr Siartredig
Archwiliwr Cofrestredig, Llundain

18 Mehefin 2009

## 4. CYDNABYDDIAETH YR YMDDIRIEDOLWYR

### Ffioedd

Caiff ein ffioedd fel Ymddiriedolwyr eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'u hadolygu bob blwyddyn gan ei adran. Yn 2008 argymhellodd yr Adran gynnydd o 3% mewn ffioedd ar gyfer aelodau'r Ymddiriedolaeth. Ystyriwyd yr argymhelliad hwn ond penderfynwyd derbyn 2% yn unig, yn unol â'r hyn a gynigir i staff y BBC. Daeth y cynnig i rym ar 1 Ebrill 2008 ac fe'i hadlewyrchir yn y tabl gyferbyn. Nid yw aelodau'r Ymddiriedolaeth yn cael tâl am derfynu contract nac iawndal arall am golli swydd.

### Treuliau

Cawn ein had-dalu am dreuliau yr eir iddynt ar fusnes y BBC, sy'n cynnwys teithio, llety, prydau bwyd sy'n gysylltiedig â'r gwaith a lletygarwch, a thanysgrifiadau lloeren mewn rhai achosion. Caiff y treuliau rydym yn gymwys i'w hawlio eu llywodraethu gan God Ymarfer yr Ymddiriedolaeth, a gyhoeddir ar ein gwefan. Bob chwe mis rydym yn cyhoeddi rhestr lawn o'r holl dreuliau yr eir iddynt gan bob Ymddiriedolwr yn ogystal â'r gwasanaethau a archebir yn ganolog ar gyfer Ymddiriedolwyr gan Uned yr Ymddiriedolaeth.

Caiff rhai o'n treuliau a'n gwasanaethau cymorth eu dosbarthu fel buddiannau trethadwy gan Gyllid a Thollau EM, a chyhoeddir y ffigur hwn yn y tabl cydnabyddiaeth; caiff unrhyw dreth sy'n deillio o dreuliau yr eir iddynt ei dalu gan y BBC.

### Buddiannau'r Cadeirydd

O dan delerau ei benodiad, mae'r Cadeirydd, Syr Michael Lyons, yn gymwys i fod yn aelod o gynllun pensiwn gyda buddiannau sy'n cyfateb i rai Cynllun Pensiwn y BBC. Mae Syr Michael Lyons wedi dewis peidio â chymryd rhan yn y cynllun hwn, felly nid yw'r BBC wedi gwneud unrhyw gyfraniadau pensiwn ar ei gyfer. Yn hytrach, mae'n cael aswiriant bywyd ar lefel sy'n debyg i aelodau'r cynllun pensiwn. Mae hefyd yn cael yswiriant meddygol preifat sydd ar yr un lefel ag uwch reolwyr y BBC. Heblaw'r Cadeirydd, nid yw'r Ymddiriedolwyr yn gymwys i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y BBC na chael yswiriant meddygol preifat.

Mae'r Cadeirydd yn gallu defnyddio un o yrwyr a cheir y BBC yn rhan-amser pan fydd yn gweithio yn Llundain ar fusnes y BBC.

## Cofrestr buddiannau

Mae ein Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i ni gael, a chyhoeddi, cofrestr o'r holl fuddiannau allanol y gellid ystyried eu bod yn effeithio ar ein gallu i gyflawni dyletswyddau un o Ymddiriedolwyr y BBC. Mae'r gofrestr hon yn cynnwys datganiadau o bob swydd gyflogedig, cyfarwyddiaeth a swydd wirfoddol yn ogystal â buddiannau aelodau agos o'r teulu, os yw'n berthnasol. Mae cofrestr buddiannau'r Ymddiriedolaeth ar gael ar ein gwefan.

## Rheoliadau adroddiadau

Mae'r BBC wedi'i eithrio rhag gofynion Rheoliadau Adroddiadau ar Gydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr 2002 a rheoliadau'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, ond, lle y bo hynny'n berthnasol, rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn fel petai'r gofynion hynny yn gymwys. Caiff yr adran ar gydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr ei harchwilio.

Ar dudalen 62 ceir gwybodaeth am y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau ac ar dudalen 50 ceir ein strategaeth ar gyfer cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol.

## Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr

Dangosir cydnabyddiaeth aelodau'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn isod.

| | Ffioedd £000 | Buddiannau trethadwy £000 | **Cyfanswm 2008/09 £000** | Cyfanswm 2007/08 £000 | Dyddiad dechrau | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd** | | | | | | |
| Syr Michael Lyons[1, 2] | 143 | 70 | **213** | 163 | 1 Mai 07 | 30 Ebrill 11 |
| **Is-Gadeirydd** | | | | | | |
| Chitra Bharucha[3] | 77 | 2 | **79** | 103 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| **Ymddiriedolwyr Cenedlaethol** | | | | | | |
| Alison Hastings | 41 | 1 | **42** | 42 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| Rotha Johnston | 41 | 1 | **42** | 40 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| Janet Lewis-Jones | 41 | 1 | **42** | 41 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| Jeremy Peat[4] | 41 | 1 | **42** | 41 | 1 Ion 06 | 31 Rhag 10 |
| **Ymddiriedolwyr** | | | | | | |
| Diane Coyle | 36 | 1 | **37** | 36 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| Anthony Fry[5] | 15 | – | **15** | – | 1 Tach 08 | 31 Hyd 12 |
| Dermot Gleeson[6] | 21 | – | **21** | 36 | 1 Tach 00 | 31 Hyd 08 |
| Y Fonesig Patricia Hodgson | 36 | – | **36** | 35 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| David Liddiment | 36 | – | **36** | 35 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| Mehmuda Mian | 36 | – | **36** | 35 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| Richard Tait | 36 | – | **36** | 35 | 1 Awst 04 | 31 Gor 10 |
| Cyfanswm | 600 | 77 | **677** | 642 | | |

Nodiadau:

[1] Penodwyd Syr Michael Lyons yn Gadeirydd ar 1 Mai 2007; yn unol â hynny mae ei ffioedd ar gyfer 2007/08 yn ymwneud â'r cyfnod 1 Mai 2007 – 31 Mawrth 2008.

[2] Mae'r ffigur uwch ar gyfer buddiannau trethadwy Syr Michael yn adlewyrchu'r ffaith fod swyddfa'r Cadeirydd yn Llundain a'i fod ef yn byw yn Birmingham, felly caiff ei dreuliau teithio i Lundain a llety pan fydd yn Llundain ar gyfer busnes y BBC eu cyfrif yn fuddiant trethadwy. Mae Syr Michael hefyd yn cael aswiriant bywyd ac yswiriant meddygol preifat sy'n costio £4,353 a £2,277 yn y drefn honno ar gyfer 2008/09 (2007/08: £3,951 a £1,792). Caiff yr yswiriant meddygol a ddarperir ei gyfrif yn fuddiant trethadwy.

[3] Yn 2007/08 roedd Chitra Bharucha yn Gadeirydd dros dro; mae ei chydnabyddiaeth uwch am y flwyddyn honno yn adlewyrchu hyn.

[4] Yn ystod 2008 cafodd cyfnod Jeremy Peat yn ei swydd ei ymestyn i 31 Rhagfyr 2010.

[5] Mae taliadau Anthony Fry yn adlewyrchu'r ffaith iddo gael ei benodi i'r Ymddiriedolaeth ar 1 Tachwedd 2008.

[6] Daeth cyfnod Dermot Gleeson fel aelod o'r Ymddiriedolaeth i ben ar 31 Hydref 2008.

## 5. PRESENOLDEB YR YMDDIRIEDOLWYR MEWN CYFARFODYDD

Dangosir presenoldeb yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolaeth a'i phwyllgorau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2009 isod. Cyhoeddir calendr o gyfarfodydd llawn yr Ymddiriedolaeth a'u cofnodion, a'r cylch gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor, ar ein gwefan. Am ragor o wybodaeth am y pwyllgorau a'u cyfrifoldebau, gweler tudalennau 60 i 62.

| | Yr Ymddiriedolaeth[1] | Pwyllgor Cynulleid-faoedd a Pherfformiad | Pwyllgor Safonau Golygyddol | Pwyllgor Cyllid a Chydym-ffurfiaeth[1] | Pwyllgor Cyllid a Strategaeth[1] | Pwyllgor Cymeradwyo Strategol[2] | Pwyllgor Gwerth Cyhoeddus a Masnachu Teg[2] | Pwyllgor Cydnaby-ddiaeth a Phenodiadau | Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa | Panel Apeliadau Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd** | 14 | 13 | 21 | 3 | 8 | 4 | 9 | 5 | 4 | 2 |
| **Cadeirydd** | | | | | | | | | | |
| Syr Michael Lyons | 14/14 | – | – | – | – | – | – | 5/5 | – | – |
| **Is-Gadeirydd** | | | | | | | | | | |
| Chitra Bharucha | 13/14 | 7/8[3] | 17/20[4] | – | – | – | – | 5/5* | 4/4* | 2/2* |
| **Ymddiriedolwyr Cenedlaethol** | | | | | | | | | | |
| Alison Hastings (Lloegr) | 14/14 | 12/13 | 21/21 | – | – | – | – | – | 4/4 | – |
| Rotha Johnston (Gogledd Iwerddon) | 13/14 | – | – | 3/3* | 8/8 | 4/4 | 9/9 | – | 3/4 | – |
| Janet Lewis-Jones (Cymru) | 14/14 | – | – | 3/3 | 8/8 | – | – | 5/5 | 3/4 | – |
| Jeremy Peat (Yr Alban) | 13/14 | – | – | 2/3 | 8/8 | 3/4 | 9/9 | – | 3/4 | – |
| **Ymddiriedolwyr** | | | | | | | | | | |
| Diane Coyle | 13/14 | 5/5 | – | – | – | 4/4* | 9/9* | – | – | – |
| Anthony Fry[5] | 2/6 | – | 6/6 | 3/3 | – | – | – | 2/2 | – | – |
| Dermot Gleeson[6] | 7/8 | 5/6 | – | – | 6/6* | – | – | – | – | – |
| Y Fonesig Patricia Hodgson | 13/14 | 12/13 | – | 3/3 | 7/8 | 4/4 | 8/9 | – | – | – |
| David Liddiment | 14/14 | 13/13* | 21/21 | – | – | – | – | – | – | – |
| Mehmuda Mian | 11/14 | 10/13 | 18/21 | – | – | – | – | – | – | 2/2 |
| Richard Tait | 12/14 | – | 19/19*[7] | – | – | 4/4 | 9/9 | – | – | – |

Nodiadau:

[1] Ym mis Ionawr 2009 disodlwyd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth gan y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth.

[2] Ym mis Ionawr 2009 disodlwyd y Pwyllgor Gwerth Cyhoeddus a Masnachu Teg gan y Pwyllgor Cymeradwyo Strategol.

[3] Ym mis Ionawr 2009 rhoddodd Chitra Bharucha y gorau i fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad.

[4] Nid oedd Chitra Bharucha yn gymwys i fynychu un o gyfarfodydd y Pwyllgor Safonau Golygyddol eleni, mae ei phresenoldeb yn adlewyrchu hyn.

[5] Penodwyd Anthony Fry fel aelod o'r Ymddiriedolaeth ar 1 Tachwedd 2008 ac ymunodd â phwyllgorau ar 1 Ionawr 2009. Mae'r niferoedd felly yn dangos ei gofnod ar y cyfarfodydd hynny yr oedd yn gymwys i'w mynychu.

[6] Daeth cyfnod Dermot Gleeson fel aelod o'r Ymddiriedolaeth i ben ar 31 Hydref 2008. Mae'r niferoedd felly yn dangos ei gofnod ar y cyfarfodydd hynny yr oedd yn gymwys i'w mynychu.

[7] Cafodd Richard Tait ei anghymhwyso o ddau gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau Golygyddol yn ystod y cyfnod hwn.

* Dynodi Cadeirydd pwyllgor.

### Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cynghorau Cynulleidfa a phwyllgorau eraill

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi'r Cynghorau Cynulleidfa ym mhob un o'r pedair gwlad i gynghori'r Ymddiriedolaeth ar ba mor dda y mae'r BBC yn cyflawni ei bwrpasau cyhoeddus, a pha mor dda y mae'r BBC yn gwasanaethu talwyr ffi'r drwydded mewn gwahanol rannau o'r DU (gweler tudalennau 20 i 21). Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol perthnasol sy'n cadeirio'r Cynghorau Cynulleidfa. Roedd presenoldeb yr Ymddiriedolwyr Cenedlaethol yng nghyfarfodydd y Cynghorau Cynulleidfa ar gyfer 2008/09 fel a ganlyn:

- Rotha Johnston, 10/10
- Jeremy Peat, 12/12
- Alison Hastings, 6/6
- Janet Lewis-Jones, 11/11

Jeremy Peat a Diane Coyle sy'n cynrychioli'r Ymddiriedolaeth ar y Grŵp Llywio ar gyfer Asesiad Effaith ar y Farchnad ar y cyd ag Ofcom. Roedd eu presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gyfer 2008/09 fel a ganlyn:

- Jeremy Peat, 6/6
- Diane Coyle, 6/6

Mae cadeiryddiaeth y grŵp hwn yn newid rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Ofcom. Diane oedd cadeirydd y grŵp hwn rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2008.

Jeremy Peat yw Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolaeth Pensiwn y BBC Cyf, ymddiriedolwr corfforaethol Cynllun Pensiwn y BBC, sy'n cwrdd bedair gwaith y flwyddyn. Ef sydd hefyd yn cadeirio Pwyllgor y Cyfarwyddwyr sy'n trafod materion ariannol a'r is-bwyllgor Llywodraethu. Caiff gydnabyddiaeth ar wahân ar gyfer y rôl hon. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifol Cynllun Pensiwn y BBC.

## 6. DATGANIADAU O GYFRIFOLDEBAU MEWN PERTHYNAS Â'R ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

### a) Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth o ran yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon gael eu paratoi mewn dwy ran, Rhan Un gan yr Ymddiriedolaeth a Rhan Dau gan y Bwrdd Gweithredol, a chaiff y cyfan ei archwilio gan archwilwyr allanol.

Manylir ar gyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol yn yr adran Llywodraethu o Ran Dau o'r Adroddiad Blynyddol hwn. Yn gryno, mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a'r datganiadau o gydymffurfiaeth â chodau llywodraethu corfforaethol cymwys a rheoliadau yn ymwneud â chydnabyddiaeth, gan gyflwyno'r rhain i'r Ymddiriedolaeth yn Rhan Dau o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Wrth baratoi ei ddatgeliadau cysylltiedig sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol mae'r Bwrdd Gweithredol wedi dewis cydymffurfio â Chod Cyfunol 2006 y Cyngor Adroddiadau Ariannol a darpariaethau datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a, lle y bo'n gymwys, Reolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol sy'n gymwys i gwmni a restrir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE.


Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion hynny mae'n rhaid i'r Adroddiad Blynyddol gynnwys datgeliadau ar drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn ogystal â rhai'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r datgeliadau hyn, a archwilir, yn gyfrifoldeb yr Ymddiriedolaeth, a chânt eu cynnwys yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Mae'r Siarter hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth baratoi datganiad o'i gwariant a'i gynnwys yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol.

### b) Datganiad o ddatgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr a oedd yn dal swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol hwn a'r Cyfrifon yn cadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol am ddatgeliadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, datgeliadau cydnabyddiaeth na datganiad yr Ymddiriedolaeth o wariant nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob Ymddiriedolwr wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi eu cymryd fel Ymddiriedolwr i'w wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd y datganiad hwn gan yr Ymddiriedolaeth ar 18 Mehefin 2009.



**Syr Michael Lyons**
Cadeirydd
18 Mehefin 2009

# CYSYLLTIADAU

## RYDYM YMA I'CH CYNRYCHIOLI CHI, TALWYR FFI'R DRWYDDED. DEFNYDDIWCH Y MANYLION ISOD I GYSYLLTU Â NI OS OES GENNYCH UNRHYW SYLWADAU NEU YMHOLIADAU AR UNRHYW AGWEDD AR Y BBC.

### YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Sylwadau neu gwestiynau am waith yr Ymddiriedolaeth? Ysgrifennwch atom drwy'r post neu e-bost, neu ffoniwch ni.

BBC Unit Trust
Room 211
35 Marylebone High Street
London W1U 4AA
Ffôn: Llinell Wybodaeth y BBC 03700 103 100†*
Ffôn testun: 03700 100 212*

(Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.30am a 5.30pm)

E-bost: trust.enquiries@bbc.co.uk

† Gellir recordio galwadau at ddibenion hyfforddiant.

### CYNGHORAU CYNULLEIDFA'R BBC

Mae'r Cynghorau Cynulleidfa yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn helpu'r Ymddiriedolaeth i ddeall eich anghenion, buddiannau a phryderon chi, ein cynulleidfaoedd, ledled y DU, ac i nodi ffyrdd y gallwn eich gwasanaethu yn well. Os hoffech gysylltu â'r Cynghorau Cynulleidfa, gallwch ysgrifennu atynt yn y cyfeiriadau isod, neu ein ffonio ni ar brif rif yr Ymddiriedolaeth: 03700 103 100*.

#### BBC Audience Council England

BBC Birmingham
The Mailbox
Birmingham B1 1RF
E-bost: audiencecouncil.england@bbc.co.uk

#### BBC Audience Council Northern Ireland

BBC Broadcasting House
Ormeau Avenue
Belfast BT2 8HQ
E-bost: audiencecouncil.ni@bbc.co.uk

#### BBC Audience Council Scotland

Zone G11
40 Pacific Quay
Glasgow G51 1DA
E-bost: acs@bbc.co.uk

#### Cyngor Cynulleidfa'r BBC yng Nghymru

Ystafell E5108
Y Ganolfan Ddarlledu
Llandaf
Caerdydd CF5 2YQ
E-bost: acw@bbc.co.uk

### ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BBC

Os hoffech gael gwybod mwy am flwyddyn y BBC – yn cynnwys datganiadau ariannol llawn a pherfformiad pob gwasanaeth yn erbyn ei Ddatganiad am Bolisi Rhaglenni – yna ewch i **bbc.co.uk/annualreport**

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg ac fel fersiwn sain.

### YNGLŶN Â'R BBC

Os hoffech gael gwybod mwy am sut y caiff y BBC ei redeg yna ewch i **bbc.co.uk/info**

BBC Gwybodaeth yw drws rhithwir ein cynulleidfa i'r BBC. Os oes gennych gwestiwn, sylw, cwyn neu awgrym am raglenni a gwasanaethau'r BBC, ysgrifennwch i:

BBC Information
PO Box 1922
Glasgow G2 3WT

Ffôn: 03700 100 222* (Mae'r llinellau ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Gellir monitro neu recordio galwadau at ddibenion hyfforddiant.)


Ffôn testun: 03700 100 212*

Ffacs: 0141 307 5770

Gwefan: **bbc.co.uk/feedback**

Y llynedd cysylltodd y cyhoedd â ni dros 1.6 miliwn o weithiau.


* Galwir rhifau 0370 yn 'rhifau ar draws y DU' ac nid ydynt yn costio mwy na galwadau i rifau daearyddol 01 neu 02.



Mae'r BBC yn cynhyrchu mwy o oriau o raglenni plant a wneir yn y DU nag unrhyw ddarlledwr arall – ac mae naw miliwn o bobl yn eu gwylio bob wythnos.




Mae gwasanaethau a chynnwys y BBC ar gael yn gynyddol i wylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr ar alw, pryd bynnag y mynnont a lle bynnag y maent.



Mae Radio Rhwydwaith a Lleol yn darparu mwy o oriau o sylwebaeth chwaraeon nag unrhyw ddarlledwr arall – gan gyrraedd dros 16 miliwn o unigolion ar gyfartaledd bob wythnos y llynedd.



Mae'r BBC yn darparu mwy o oriau o gerddoriaeth fyw nag unrhyw sianel arall, ar draws amryw o genres, yn cynnwys gwyliau fel Glastonbury a T in the Park.



Gwyliodd 48 miliwn o bobl Deledu'r BBC bob wythnos y llynedd; gwyliodd 44 miliwn ohonynt BBC One ac 11 miliwn BBC Three.



Mae'r BBC yn gweithio'n barhaus i sicrhau bod ei wasanaethau'n parhau i ateb gofynion cynulleidfaoedd – lansiwyd BBC iPlayer ar ffonau symudol yn gynharach eleni, ac mae'r amrywiaeth o gynnwys a gwasanaethau rhyngweithiol, yn cynnwys pod-ddarllediadau, yn tyfu'n gyson.



Cefnogir y 12 o Ymddiriedolwyr gan 60 aelod o staff, a leolir yn Llundain, ac uwch-aelodau o staff yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Rhanbarthau Lloegr yn Birmingham.


**Papur** Argraffwyd ar Cocoon Offset a wneir o ffibrau wedi'u hailgylchu'n llwyr a wneir o wastraff ôl-ddefnyddwyr yn unig. Mae Cocoon Offset wedi'i ardystio yn unol â'r rheolau ar gyfer y Cyngor Stiwardiaeth Goedwigol.

FSC
Recycled
Supporting responsible use of forest resources

Cert no. TT-COC 002228
www.fsc.org


© 1996 Forest Stewardship Council



**Ffotograffiaeth** Mae pob ffotograff yn hawlfraint y BBC ac eithrio'r ffotograff ar dudalen 28 (h) Hawlfraint y Goron/Y Weinyddiaeth Amddiffyn. Ailgynhyrchwyd gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. Mae'r ffotograffiaeth ar y dawr blaen ac ar dudalennau 1, 2, 16, 22, 26, 42, 46 gan Janie Airey. Mae'r ffotograffiaeth ar dudalennau 5, 24, 49, 58, 60, 61 gan Mike Abrahams. Mae'r pedwar ffotograff ar frig tudalen 32 gan Trevor Aston.

**Dyluniad** Dyluniwyd gan: luminous.co.uk

**Cyfieithiad** Cyfieithwyd gan Wasanaeth Cyfieithu Prysg

**Argraffiad** Argraffwyd gan Royle Print. Gwneir yr inciau argraffu o olew llysiau nad yw'n beryglus o ffynonellau adnewyddadwy. Caiff dros 90% o doddyddion a datblygyddion eu hailgylchu i'w defnyddio eto ac mae mentrau ailgylchu ar waith ar gyfer pob gwastraff arall sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchiad hwn. Mae Royle Print wedi ei ardystio gan yr FSC ac ISO 14001 ac mae gweithdrefnau llym ar waith i ddiogelu'r amgylchedd ym mhob proses.

**CarbonNeutral**® printing company

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London W1A 1AA
bbc.co.uk
(h) BBC 2009